

Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Paratowyd y papur yma ar gyfer trafodaeth yng nghyfarfod y **Pwyllgor Diwylliant** ar 28 Mawrth 2001. Darparwyd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes er gwybodaeth.

ADRODDIAD INTERIM DRAFFT AR YR ADOLYGIAD PUM MLYNEDD O FWRDD YR IAITH GYMRAEG

Diben

1. Ymgynghori â'r Pwyllgor ar Adroddiad Interim drafft yr Adolygiad Pum Mlynedd o Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae Rheol Sefydlog 9.7 yn datgan y dylai'r pwyllgorau pwnc adolygu'n rheolaidd sut y mae cyrff cyhoeddus yn eu meysydd yn cyflawni dyletswyddau cyhoeddus. Ar ôl derbyn fersiwn derfynol yr Adroddiad Interim a sylwadau'r Pwyllgor bydd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn mynegi barn ar brif gasgliadau'r Adroddiad. Byddant yn penderfynu a ddylai'r Adolygiad symud ymlaen i'r ail gam, ac a ddylid newid y Cylch Gorchwyl.

Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor yn mynegi barn ar gasgliadau'r Adroddiad Interim drafft yn Atodiad A, ac a oes angen diwygio'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr ail gam (Adroddiad Interim – Atodiad 1).

Cefndir

3. Cafodd yr Adolygiad Pum Mlynedd o Fwrdd yr Iaith Gymraeg ei gomisiynu'n ffurfiol gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Medi eleni, yn dilyn ymgynghori â'r Pwyllgor ar y Cylch Gorchwyl.

Caiff yr Adolygiad ei gynnal gan Newidiem a'i Bartneriaid (Caerdydd ac Aberystwyth), yn dilyn proses gaffael gymeradwy. Adam Price sy'n arwain y tîm arolygu. Mae'r Adroddiad Interim yn cwmpasu cam cyntaf yr Arolwg ac yn ateb y cwestiwn canlynol:

“Yn sgîl dyletswyddau statudol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac amcanion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a oes angen i Fwrdd yr Iaith Gymraeg barhau i ymgymryd â'u holl swyddogaethau, ac os felly, ai'r fframwaith drefniadol bresennol yw'r un mwyaf priodol?”

4. Gwahoddir y Pwyllgor i drafod yr adroddiad drafft cyn y caiff fersiwn derfynol yr Adroddiad Interim ei chyflwyno i'r Gweinidogion ynghyd â

sylwadau'r Pwyllgor. Bydd rhan nesaf yr Adolygiad yn edrych ar effeithiolrwydd strategol y Bwrdd a'i reolaeth gorfforaethol.

Yr Adroddiad Interim

5 Mae'r Adroddiad Interim drafft yn Atodiad A. Mae'n sôn am gasgliadau'r adolygwyr yn dilyn ymgynghori eang â'r partneriaid ac eraill sydd â diddordeb, yn ogystal â'r Bwrdd ei hun. Ceir prif ganfyddiadau rhan gyntaf yr Adolygiad mewn crynodeb gweithredol (tt 1 a 2). Y prif gasgliad yw bod angen i'r Bwrdd barhau i ymgymryd yn eang â'r swyddogaethau presennol. Mae'r Adolygiad hefyd yn awgrymu y gellid cynorthwyo'r modd y cyflawnir ei swyddogaethau drwy ddatblygu strategaeth iaith Gymraeg i'r Cynulliad.

Cydymffurfiaeth

6. Cynhaliwyd yr Adolygiad yn unol â'r canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ar yr Adolygiad Pum Mlynedd. Yn ogystal â'i gyfranogiad yn yr Adolygiad, ymgynghorwyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar bob mater o bwys.

Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

7. Gofynnir i'r Pwyllgor fynegi barn ar yr Adroddiad Interim drafft, ac ar y cylch gorchwyl ar gyfer ail gam yr Adolygiad.

Cyswllt

8. Yr Is-adran Cynllunio Ariannol

NEWIDIEM

**ADOLYGIAD POB
PUM MLYNEDD O
FWRDD YR IAITH
GYMRAEG**

**Adroddiad
Interim Drafft**

Paratowyd ar gyfer

**CYNULLIAD
CENEDLAETHOL
CYMRU**

Ty Meandros
54a Heol Bute
Caerdydd
CF10 5AF

Meandros House
54a Bute Street
Cardiff
CF10 5AF

Tel 029 2046 3064
Fax 029 2046 3067

post@newidiem.co.uk

gan

Mawrth 2001





CYNNWYS

CRYNODEB GWEITHREDOL	1
1 RHAGARWEINIAD	3
1.1 Cyflwyniad	3
1.2 Strwythur yr Adroddiad	5
2 CAMAU'R AROLWG	6
3 YMATEB I YMGYNGHORIADAU: PRIF FATERION YN CODI	7
3.1 Cyflwyniad	7
3.2 A oes angen i FylG barhau?	8
3.3 A yw swyddogaethau BylG yn angenrheidiol?	9
3.4 Ai BylG neu sefydliadau eraill ddylai fod yn darparu'r swyddogaethau yma?	9
3.5 Dyrannu grantiau	10
3.6 Gorolwg Strategol o addysg ddwyieithog	10
3.7 Monitro cynlluniau iaith	10
3.8 Ombwdsmon / Comisiynydd iaith	11
3.9 A ddylai BylG fod yn gyfrifol am swyddogaethau ychwanegol?
.....11	
3.10 Cynllunio leithyddol	11
3.11 Monitro a Gwerthuso	12
3.12 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	12
3.13 Swyddogaeth Ddarparu	12
3.14 Materion eraill	12
3.15 Monitro	13
3.16 Presenoldeb a chyswllt lleol	13
3.17 Ymgynghori
.....13	
3.18 Cydlynu Strategol	14
4 AROLWG LLENYDDIAETH	14



4.1	Sylwadau Glyn Williams a Delyth Morris yn <i>Language Planning and Language Use</i> , 2000	15	
4.2	Sylwadau ar y Mentrau Iaith, Kathryn Jones a Gareth Ioan, <i>Arolwg Mentrau Iaith Cymru 2000</i>	15	
4.3	Sylwadau Aitchison a Carter, Colin Williams a Jeremy Evans	15	
5	SWYDDOGAETHAU CYFREDOL YM MAES CYNLLUNIO IAITH		17
6	DEWISIADAU NEWID		19
6.1	Pam ystyried newid?	19	
6.2	A oes angen ByIG o gwbl?	19	
6.3	A oes angen newid strwythur ByIG?	21	
6.4	A yw swyddogaethau'r Bwrdd yn dal yn briodol?	22	
6.5	A oes angen mwy (neu lai) o rym ar y Bwrdd?	23	
6.6	A oes angen gwella cysylltiad ByIG â'r Cynulliad?	24	
7	CRYNODEB A CHASGLIADAU		26
7.1	Crynodeb	26	
7.2	Casgliadau	26	
	ATODIAD 1: PAPURAU CYD-DESTUN		29
	A1 / 1: SAIL CYFREITHIOL, SWYDDOGAETHAU A PHRIF WEITHGAREDDAU'R BWRDD		29
	Sail cyfreithiol	29	
	Swyddogaethau	29	
	Fframwaith Gweithredu	30	
	A1 / 2: POLISI'R CYNULLIAD		32
	A1 / 3: DATBLYGIAD DEDDFAU IAITH A SEFYDLU BYIG	34	
	A1 / 4: CYNLLUNIO IEITHYDDOL		36
	Sail ddamcaniaethol a'r profiad Cymreig	36	
	Llwyddiannau cynllunio iaith	37	
	Ffactorau yn Effeithio ar Ddirywiad ac Adfywiad Iaith	38	

Dynesiad ByIG at gynllunio ieithyddol 40

**A1 / 5: AROLWG ARFER MEWN GWLEDYDD /
RHANBARTHU ERAILL 43**

GWLAD Y BASGIAID	43
CATALWNIA:	45
QUÉBEC	47
Gwledydd/taleithiau/rhanbarthau eraill: Estonia	48
Gwledydd/taleithiau/rhanbarthau eraill: De Tiro	50
Gwledydd/taleithiau/rhanbarthau eraill: Gwlad Belg	50
Gwledydd/taleithiau/rhanbarthau eraill: Ffrainc	50

A1 / 6: CYFLWR YR IAITH GYMRAEG 51

Yr iaith yng Nghymru er 1993 (Deddf yr Iaith a sefydlu ByIG)	51
Cyrff cyhoeddus	51
Addysg	51
Sector preifat	51
Y Cynulliad	52
Arolygon	52
Y Gymraeg yn iaith gyntaf	52
Sefyllfa'r Gymraeg mewn ardaloedd o natur ieithyddol wahanol	52
Ardaloedd llai Cymraeg	52
Ardaloedd a gollodd y Gymraeg bron yn llwyr	52

**ATODIAD 2: CYFLWYNIAD YSGRIFENEDIG BWRDD
YR IAITH I'R ADOLYGIAD PUM MLYNEDD 56**

A2 / 1 Rhagymadrodd 56

**A2 / 2. Swyddogaethau'r Bwrdd a'r sail
resymegol dros ei fodolaeth 56**

Y fframwaith statudol	56
Y sail wleidyddol dros fodolaeth y Bwrdd	58
Y sail strategol dros fodolaeth y Bwrdd	59

**A2 / 3 Dadansoddiad o berfformiad
strategol y Bwrdd yn y gorffennol 61**

Y cefndir strategol	61
Cynnydd yn erbyn gorchwylion y Bwrdd	62

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ym Mai 2000 cyhoeddodd Edwina Hart, Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, gychwyn ar raglen i adolygu'r holl gyrff cyhoeddus sy'n derbyn nawdd gan y Cynulliad, gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Apwyntiwyd cwmni ymgynghorol Newidiem i ymgymryd â'r Adolygiad Pob Pum Mlynedd cyntaf hwn o Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Cyflwynir eu casgliadau ar derfyn y cam cyntaf yn yr adroddiad interim yma.

Mae'r adroddiad interim yn ystyried a oes angen o hyd am y Bwrdd a'i swyddogaethau. Bydd ail gam yr astudiaeth rhoi pwyslais ar atebolrwydd, effeithiolrwydd strategol a sicrhau gwelliant parhaus y Bwrdd.

Mae casgliadau yr adroddiad wedi eu selio ar broses ymchwil ac ymgynghori cynhwysfawr gan gynnwys ymgynghoriadau cyhoeddus, cyfweiliadau wyneb-i-wyneb gyda detholiad o sefydliadau ac unigolion allweddol a chyfweiliadau gyda Aelodau a staff y Bwrdd Iaith ei hun. Mae'r astudiaeth hefyd wedi asesu anghenion cynllunio iaith yng Nghymru ac wedi arolygu dulliau gwarchod a datblygu ieithoedd 'lleiafrifol' mewn gwladwriaethau eraill yn y byd.

Ein barn ni, fel ymgynghorwyr annibynnol, yw mai ychydig iawn o amser a gafodd y Bwrdd, a grëwyd fel corff statudol mor ddiweddar â Rhagfyr 1993 gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, i gyflawni'r ystod eang o gyfrifoldebau a roddwyd iddo gan y Ddeddf a'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Cynulliad yntau'n gorff newydd ac yn dal i ymgodymu â'r ystod eang o gyfrifoldebau sydd ganddo. Awgrymwn fod angen mwy o amser i'r ddau gorff ystyried gyda'i gilydd oblygiadau'r strwythurau llywodraethol newydd yng Nghymru ar gyfer polisi tuag at yr iaith Gymraeg. Yn ein barn ni, byddai angen dangos diffyg sylweddol ym mherfformiad y Bwrdd neu achos argyhoeddiadol iawn dros i gorff arall ymgymryd â'i ddyletswyddau cyn awgrymu newid sylweddol yn y drefn bresennol ar hyn o bryd.

Er hyn, rydym wedi ystyried amrediad o ddewision posibl ar gyfer cyflawni dyletswyddau'r Bwrdd mewn ffyrdd eraill neu gan gyrff eraill. Awgrymwyd rhai o'r dewision hyn mewn ymatebion i broses ymgynghorol sylweddol a rhai

fel rhan o'r broses werthuso. Gwnaed hyn i gyd er mwyn asesu a oedd angen neu alw am newid. Wedi ystyried yr opsiynau hyn, rydym yn casglu fod angen parhaol am holl swyddogaethau'r Bwrdd tra pery Deddf yr Iaith mewn grym. Mae gennym dystiolaeth o gonsensws cyffredinol, ond nid unfrydol, o blaid cadw'r Bwrdd yn ei wedd bresennol. Ni chawsom ein perswadio y deilliai unrhyw fantais amlwg o'i ddiddymu, na'i ail-strwythuro nac o ddsbarthu ei swyddogaethau i eraill ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, credir y gellid sefydlogi strwythur presennol y Bwrdd a hwyluso'i allu i gyflawni'r swyddogaethau a osodir arno gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg

- pe bai'r Cynulliad yn cymryd perchnogaeth o'r strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg ac yn ei fabwysiadu, gyda pha addasiadau bynnag y gwêl yn dda i'w cyflwyno, fel strategaeth genedlaethol; a
- phe bai'r Cynulliad yn diffinio'r disgwyliad ar FyIG i 'gadw gorolwg dros addysg a hyfforddiant Cymraeg' a chytuno nodau a strwythur adrodd penodol gyda'r Bwrdd ar gyfer cyflawni'r swyddogaeth hon.

Yn ddiau, rhoddir sylw i'r materion hyn yn yr arolwg eang o bolisi ar yr iaith Gymraeg y bydd y Cynulliad yn ymgymryd ag ef yn y dyfodol agos.

1. RHAGARWEINIAD

o Cyflwyniad

Polisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw y dylai pob Corff Cyhoeddus Gweithredol a noddir gan y Cynulliad gael ei adolygu'n llawn pob pum mlynedd o leiaf. Ym Mai 2000 cyhoeddodd Edwina Hart, Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad, gychwyn ar raglen i adolygu'r holl gyrff, gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg (ByIG), erbyn 2003 gyda'r nod o sicrhau llywodraeth well a symlach.

Mae Adolygiad Pob Pum Mlynedd yn cymryd lle'r broses flaenorol o adolygu cyrff unigol a noddwyd gan y Swyddfa Gymreig, sef yr Adolygiad Perfformiad Rheoli Ariannol. Yn achos ByIG, yn ogystal ag ystyried a oes angen o hyd am swyddogaethau'r Bwrdd, mae pwyslais yr adolygiad pob pum mlynedd hefyd yn cynnwys atebolrwydd, effeithiolrwydd strategol a sicrhau gwelliant parhaus.

Comisiynwyd Newidiem i ymgymryd â'r Adolygiad hwn o FyIG ac y mae'r broses wedi bod yn un agored a chyfranogol sydd wedi cynnig cyfle i staff ac aelodau'r corff, partneriaid y Bwrdd, defnyddwyr ei wasanaethau, cyrff sydd â diddordeb a dinasyddion unigol i gyflwyno eu barn a'u sylwadau.

Mae'r adolygiad yma yn cael ei gynnal ar adeg pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cychwyn adolygiad eang ar sefyllfau'r iaith Gymraeg yng Nghymru.

Mae'r cylch gorchwyl manwl a ddarparwyd ar gychwyn yr astudiaeth, yn amlinellu dwy ran i'r adolygiad. Mae'r rhan gyntaf yn delio â mater sylfaenol yr angen parhaol am y Bwrdd a'i swyddogaethau. Os cesglir bod angen parhaol am y Bwrdd a'i swyddogaethau, disgwylir i'r rhan hon o'r adolygiad asesu ai'r fframwaith trefniadol presennol yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r swyddogaethau hynny. Dyma yw ffocws yr adroddiad interim ac mae'r ddogfen hon yn ymdrin a'r themâu isod:

- Y fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli ByIG;
- Yr angen parhaol am holl swyddogaethau ByIG bellach;
- I ba raddau mae ystod swyddogaethau'r Bwrdd yn ddigon cynhwysfawr a chydlynol i ddylanwadu ar ddyfodol y Gymraeg;

- A oes angen i Gorff a Noddir gan y Cynulliad gyflawni'r swyddogaethau hyn neu a oes ffyrdd eraill mwy effeithiol o gyflawni'r swyddogaethau;
- Ai trwy un corff mae cyflawni'r swyddogaethau hyn orau, neu a fyddai'n fwy buddiol i rannu'r swyddogaethau rhwng ByIG a'r Cynulliad Cenedlaethol neu gyrff cyhoeddus eraill.

Bydd ail ran yr adolygiad yn canolbwyntio ar llywodraethu corfforaethol y Bwrdd a'i effeithiolrwydd strategol , gan asesu dewision ar gyfer gwelliant. Bydd natur ail ran yr astudiaeth yn ddibynnol ar drafodaeth o argymhellion y rhan gyntaf.

o Strwythur yr Adroddiad

Ceisiwyd sicrhau adroddiad hylaw a darllenadwy i ddarllenwyr sydd â mwy o ddiddordeb yng nghasgliadau'r Arolwg nag yn ei brosesau a'i seiliau rhesymegol. Er mwyn gwneud hyn cadwyd corff yr adroddiad mor fyr â phosibl. Ynddo canolbwyntir ar gylich gorchwyl rhan gyntaf yr arolwg. Ceir triniaeth fwy cynhwysfawr o lawer o'r cefndir rhesymegol a themâu perthnasol yn yr atodiadau.

Mae'r adroddiad interim hwn, felly, yn cynnwys

- crynodeb byr o'r fethodoleg a fabwysiadwyd gan yr ymgynghorwyr, mewn cytundeb â Phwyllgor Llywio'r arolwg;
- crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriadau cyhoeddus a gynhaliwyd fel rhan o'r arolwg;
- crynodeb o sylwadau mewn cyhoeddiadau/adroddiadau annibynnol sy'n cynnig barn ar agweddau perthnasol o waith ByIG;
- dadansoddiad cryno o gyfrifoldebau a swyddogaethau cyfredol ym maes cynllunio iaith yng Nghymru;
- trafodaeth o'r dewisiadau a ystyriwyd wrth asesu addasrwydd bodolaeth, strwythur a swyddogaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- casgliadau interim yr arolwg ar y materion uchod.

Ychwanegir pedwar Atodiad fel a ganlyn:

- Atodiad 1, sy'n amlinellu sail cyfreithiol, swyddogaethau a phrif weithgareddau'r Bwrdd ynghyd â phapurau eraill ar bynciau perthnasol i'r cam cyntaf hwn o'r Arolwg. Mae'r papurau'n cynnig triniaeth gynhwysfawr o gyd-destun statudol presennol a hanesyddol yr iaith Gymraeg, yn egluro tarddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yn ei osod yn ei gyd-destun cyfreithiol a gweithredol, yn trafod damcaniaethau a dulliau cynllunio ieithyddol yng Nghymru a thramor ac yn arolygu sefyllfa gyfoes yr iaith Gymraeg a'r camau angenrheidiol i'w gwarchod.
- Atodiad 2, sy'n cynnwys cyflwyniad ysgrifenedig Bwrdd yr Iaith ei hunan i'r arolwg. Mae'r cyflwyniad hwn yn ganlyniad i hunan-werthusiad y Bwrdd ac yn delio â materion sy'n berthnasol i ail rhan yr arolwg yn ogystal â'r cam cyntaf yma.
- Atodiad 3, sy'n rhestru'r cyrff a'r unigolion a gyflwynodd tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymgynghorwyr cyn diwedd Chwefror 2001.
- Atodiad 4, sy'n amlinellu'r Cylch Gorchwyl a baratowyd gan y Cynulliad Cenedlaethol fel canllawiau ar gyfer yr astudiaeth.

1. CAMAU'R AROLWG

Gyda chytundeb a chydweithrediad pwyllgor llywio'r arolwg, cymrodd yr ymgynghorwyr y camau canlynol:

- arolwg o ddogfennau materol i'r arolwg gan gynnwys dogfennau cyhoeddus a mewnl Bwrdd yr Iaith; polisiau, trafodion a chofnodion y Cynulliad Cenedlaethol; cyhoeddiadau ac adroddiadau gan arbenigwyr, ymgynghorwyr a sylwebyddion ar faterion perthnasol i'r arolwg;
- ymgynghoriad cyhoeddus eang yn cynnwys gwahodd sylwadau gan oddeutu 400 corff â diddordeb posibl ym Mwrdd yr Iaith neu a effeithir gan ei swyddogaethau; cyfweiliadau wyneb-i-wyneb gyda detholiad o sefydliadau ac unigolion allweddol; a gwahoddiad cyffredinol i unrhyw aelod o'r cyhoedd, neu gynrychiolydd sefydliad na wahoddwyd yn benodol i ymateb, i gynnig sylwadau ar waith a chyfrifoldebau'r Bwrdd;
- arolwg o ddulliau gwarchod a datblygu ieithoedd 'lleiafrifol' mewn gwladwriaethau eraill yn y byd;
- asesiad o anghenion cynllunio iaith yng Nghymru a pherthnasedd arferion gwledydd eraill i'r sefyllfa yma, gyda phwyslais arbennig ar wersi y gallid eu dysgu o safbwynt pwerau a dulliau gweithredu Bwrdd yr Iaith;
- asesiad o ddewision a amlygwyd gan yr ymgynghoriadau a'r arolwg o brofiad gwledydd eraill ar gyfer newid cyfrifoldebau a swyddogaethau cynllunio iaith yng Nghymru, oddi mewn i'r fframwaith statudol presennol.

1. YMATEB I YMGYNGHORIADAU: PRIF FATERION YN CODI

o Cyflwyniad

Mae'r broses ymgynghori wedi cynnwys:

- Trafodaethau dwys gyda staff ac aelodau'r Bwrdd;
- Cyfweiliadau strwythuredig gyda sampl o bartneriaid a chyrrff sydd â diddordeb yng ngwaith y Bwrdd;
- Paratoi a dosbarthu papur ymgynghori yn gwahodd sylwadau ysgrifenedig. Daeth dros 80 o ymatebion i law erbyn dyddiad yr adroddiad interim hwn. Mae'r rhai a anfonodd sylwadau wedi'u rhestru yn Atodiad 3.

Ar gyfer yr adroddiad interim hwn, detholwyd rhai ymatebion i amlygu'r agweddau a ganlyn:

- lle ceir rhywfaint o unfrydedd ymysg y rhai a holwyd;
- lle ceir sylwadau treiddgar, o blaid neu yn erbyn y *status quo*;
- lle ceir sylwadau sy'n amlygu'r cyd-destun gwleidyddol;
- lle ceir sylwadau sy'n berthnasol i fodolaeth a strwythur ByIG.

Nid ydym wedi priodoli'r sylwadau i'w ffynonellau ar hyn o bryd. Yn y pen draw bydd yr ymatebion ysgrifenedig a dderbyniwyd i gyd yn cael eu cyhoeddi, onibai fod y rhai a holwyd wedi mynegi'r awydd am gyfrinachedd. Cyfyngir y detholiad isod o ymatebion i'r ymgynghoriad i'r materion sy'n berthnasol i'r rhan gyntaf hon o'r Arolwg. Ceir dadansoddiad llawnach yn yr adroddiad terfynol.

Cyflwynwyd oddeutu 80 o sylwadau i Newidiam yn ymateb i'r ddogfen ymgynghori cyhoeddus a ddosbarthwyd yn ystod Rhagfyr 2000. Derbyniwyd ymateb gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat. Yn ogystal derbyniwyd nifer o sylwadau gan unigolion.

Dylid nodi nad pŵl piniwn mo'r ymgynghoriad hwn ac nad yw barn pob sefydliad/unigolyn ar bob pwnc yn gyfwerth. Ei brif swyddogaeth yng nghyd-destun yr Arolwg yw i gasglu barn amrediad o gyrff ac unigolion ar agweddau ar waith ByIG. Defnyddir technegau eraill i gloriannu gwerth yr ymatebion a'u perthnasedd i'r Adolygiad.

Dylid nodi mai sylwadau'n codi o'r ymgynghoriad a fynegir yma, nid barn awduron yr adroddiad. Yn ail rhan yr adolygiad bydd yr ymgynghorwyr yn asesu dilysrwydd y farn a gasglwyd trwy'r broses ymgynghorol.

Gan gadw'r uchod mewn cof, mae'r sylwadau a ddaeth i law wedi eu crynhoi isod:

o **A oes angen i FylG barhau?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a ddaeth ar bapur yn dadlau bod yna angen am 'gorff' i arolygu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yng Nghymru, beth bynnag fyddo enw neu siâp y corff hwnnw. Tueddai'r mwyafrif o'r ymatebion i ddadlau y dylai'r 'corff' hwnnw barhau i fodoli ac, ar y cyfan, fod yn gorff cyhoeddus sy'n derbyn nawdd gan y Cynulliad.

'Fel corff cyhoeddus sy'n derbyn nawdd, dylai'r Bwrdd barhau yn annibynnol heb bwysau allanol masnachol a allai darfu ar waith corff cyhoeddus na sy'n derbyn arian y Cynulliad.'

'Mae'r Bwrdd yn sicrhau effeithiolrwydd y buddsoddiad cyhoeddus yn yr iaith ac yn cadw hyd braich rhwng y cyrff sy'n gwario'r arian a llywodraeth y dydd. Mae cyflwr yr iaith yn dal yn fregus ac, mewn cyfnod o chwyldro cyfathrebu byd-eang, byddai amddifadu'r Gymraeg o gorff strategol yn hoelen go fawr yn ei harch.'

Awgrymwyd rhai opsiynau ar gyfer strwythurau newydd y 'corff', megis sefydlu consortiwm ymbarél ac asiantaethau arbenigol neu drosglwyddo rôl strategol y Bwrdd i'r Cynulliad a chadw'r Bwrdd fel corff monitro cynlluniau iaith annibynnol. Yn ychwanegol derbyniwyd rhai sylwadau yn dadlau bod angen gwahanu swyddogaethau statudol a datblygol y Bwrdd.

Ar y llaw arall, tueddai nifer fawr o sylwadau ddadlau y byddai model gwahanol *'yn llai effeithiol na system ganolog sydd o dan yr un to'*. Awgrymwyd hefyd y gallai unrhyw newidiadau strwythurol mawr yn siâp y 'corff' arwain at *'anghefnogaeth tuag at ddatblygiad pellach yr iaith.'*

Prif fanteision parhau gyda'r strwythur presennol, meddir, yw'r angen am gorff canolog sydd yn bwynt cyswllt ar gyfer pob sector ac aelod o'r cyhoedd *'ar gyfer unrhyw fater yn ymwneud â'r Gymraeg'*. Mae'r Bwrdd yn cael ei weld fel *'strwythur sefydlog ac adnabyddus yng Nghymru, sy'n adeiladu cysylltiadau a phartneriaethau ledled y wlad'*. Yn ogystal mae bodolaeth corff sy'n derbyn nawdd o'r Cynulliad yn sicrhau parhad corff sydd â'r rôl ddeublyg o ddatblygu a gweithredu'n statudol sy'n medru gweithredu fel *'pont'* neu *'linell gyswllt'* rhwng ei bartneriaid a'r Cynulliad. Nodwyd y perygl, fodd bynnag, fod y Bwrdd *'yn ceisio bod yn bob dim i bawb'*.

Mae nifer o'r sylwadau a ddaeth i law yn cydnabod mai'r Bwrdd yw'r unig gorff yng Nghymru sydd â'i brif ddyletswydd i hybu defnydd yr iaith. O ganlyniad mae bodolaeth a pharhad yr Bwrdd yn cael ei weld yn hanfodol i ddatblygiad yr iaith Gymraeg dros y cyfnod nesaf.

O'r rheini a gredai fod parhad y Bwrdd yn angenrheidiol, cred y mwyafrif fod angen y Bwrdd am y dyfodol rhagweladwy neu o leiaf tan fod Cymru wedi cyrraedd sefyllfa o ddwyieithrwydd sefydlog *'lle bo'r iaith Gymraeg yn iaith fyw a hyfyw sy'n cael ei defnyddio, ei deall a'i gwerthfawrogi gan nifer gynyddol o bobl.'*

Derbyniwyd oddeutu dwsin o ymatebion negyddol dros barhad y Bwrdd gan unigolion o gyffiniau Abertawe a'r cylch yn dadlau nad oes angen gwastraffu arian cyhoeddus ar weithgareddau sy'n hybu'r iaith Gymraeg. Ymhlith y sylwadau a dderbyniwyd oedd: *'Why use public money to promote something which is of use to so few people?',* a *'Abolish it'*. Yn ogystal mynegwyd barn gryf fod bodolaeth ByIG yn rhannu siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg:

'It has already alienated most non-Welsh speakers by imposing their minority views on the mostly silent majority'.

'It is clear that the WLB should be disbanded as its activities are profoundly against the promotion of harmony in life in Wales, and its fanatical attitude to Welsh succeeds only in fostering animosity towards the language.'

Yn ychwanegol, mynegwyd gwrthwynebiad i fodolaeth corff sydd yn hybu cyrff i recriwtio siaradwyr Cymraeg ar gyfer swyddi allweddol.

o A yw swyddogaethau ByIG yn angenrheidiol?

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion ysgrifenedig yn dadlau fod angen darparu holl swyddogaethau'r Bwrdd a *'thra bod deddf iaith mewn bodolaeth fe fydd angen corff i weithredu'r elfennau statudol'*. Derbyniwyd sawl ymateb yn dadlau dros beidio â diddymu swyddogaethau: *'Mi fyddai dileu rhan neu'r cyfan o'r dyletswyddau yn creu gwacter mawr.'*

Dangoswyd cefnogaeth fawr dros barhad rhai swyddogaethau penodol. Er enghraifft, parhad rôl a

chyfrifoldebau strategol, arwain ar bolisi ieithyddol a chynllunio'n strategol ar gyfer dyfodol yr iaith. Gwelir cyfrifoldebau dyrannu grantiau ByIG hefyd fel rhai allweddol bwysig, er, awgrymir efallai, y dylid edrych ar opsiynau eraill ar gyfer gwneud hyn (gweler isod).

Ceir awgrym mewn rhai ymatebion nad yw'r Bwrdd yn cyflawni ei holl swyddogaethau yn llawn ac nad ydyw yn ymdrin â rhai swyddogaethau mewn modd ymarferol. Er enghraifft, dywedir, dylai'r Bwrdd fod yn ystyried plismona iaith fel dyletswydd craidd gan ddwyn achosion llys yn erbyn cyrff statudol sy'n torri'r ddeddf. Yn ail, mae'n amlwg fod y Bwrdd yn gweithredu rhai swyddogaethau yn fwy effeithiol nag eraill ym marn rhai partneriaid. Un enghraifft a ddyfynnir o hyn yw'r diffyg cynnydd honedig o fewn y sector preifat.

Yn ôl rhai ymatebion, petai swyddogaethau statudol y Bwrdd yn cael eu diddymu, byddai'r pwysau ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn cael eu lleihau yn aruthrol. Dywedir yn ogystal y byddai diddymu swyddogaethau statudol y Bwrdd yn creu gwagle ymhlith cyrff sy'n ddibynnol ar y Bwrdd am gymorth uniongyrchol i weithredu eu cynlluniau iaith, yn arbennig y cyrff sydd heb arbenigedd mewnol i ddatblygu a gweithredu cynlluniau iaith.

o **Ai ByIG neu sefydliadau eraill ddylai fod yn darparu'r swyddogaethau yma?**

Derbyniwyd sylwadau yn dadlau dros ac yn erbyn trosglwyddo rhai o swyddogaethau'r Bwrdd i gyrff eraill, er enghraifft:

'Yn ddamcaniaethol does dim rheswm pam na allai rhai o ddyletswyddau'r Bwrdd gael eu cynnal gan gyrff eraill. Fodd bynnag yn ymarferol dengys profiad blaenorol bod cyrff eraill â blaenoriaethau ar wahân i'r iaith.'

Y brif ddadl yn erbyn trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i gyrff eraill yw y byddai'n creu sefyllfa ranedig a digyswllt:

'Should the various functions of the Board be allocated to other bodies there would be a reversal to the fragmentation and disjointedness [experienced before the establishment of the Board] previously undertaken by numerous public organisations.'

'The language would certainly be lost amongst the depth of details and would invariably move downwards in the priority ladder, potentially becoming the subject of political debate and personal influence and interpretation.'

Mae nifer wedi codi'r cwestiwn sylfaenol a oes modd i'r Bwrdd ymhél â'i rôl strategol yn ogystal â'r rôl monitro a phlisma. Ni cheir consensws ar y mater yma ymhlith yr ymatebion gyda rhai yn dadlau y dylai'r Bwrdd ganolbwyntio ar y swyddogaethau strategol tra bod eraill yn credu fod angen iddo ymhél yn fwyfwy gyda gwaith plisma.

Yn ychwanegol, cafwyd rhai awgrymiadau am ddulliau eraill o ddarparu swyddogaethau presennol y Bwrdd, yn cynnwys:

- o **Dyrannu grantiau**

Awgrymwyd datblygu model lleol, efallai wedi ei seilio ar awdurdodau lleol, i weinyddu a dyrannu grantiau bychain y Bwrdd er mwyn symlhau a chyflymu'r broses o wneud ceisiadau a derbyn grant i sefydliadau. Er mai dim ond un awdurdod lleol awgrymodd y model yma, roedd sawl un yn codi'r cwestiwn a ddylai corff sy'n derbyn nawdd gan y Cynulliad ddyrannu grantiau. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r Bwrdd yn unigryw yn hyn o beth a bod nifer o gyrrff sy'n derbyn nawdd gan y Cynulliad yn dyrannu grantiau.

- o **Gorolwg Strategol o addysg ddwyieithog**

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i sicrhau gorolwg cyflawn dros holl faes addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru. Ar yr un llaw fe dderbyniwyd dadleuon dros gryfhau ac ymestyn dyletswyddau'r adran yn fewnol gan mai dyma'r unig gorff sy'n sicrhau dilyniant amlwg ar gyfer addysg o'r Meithrin i Addysg Uwch. *'Gellid datblygu'r adran hon yn adran gynllunio a chynghori'r Cynulliad gyda mwy o lais a grym yn natblygiadau pwysig y byd addysg'*. Ar y llaw arall awgrymwyd bod angen sefydlu corff ar wahân gyda chyfrifoldeb strategol dros addysg Gymraeg yng Nghymru neu sefydlu *'canolfan genedlaethol i ddatblygu addysg a hyfforddiant dwyieithog ar gyfer y sector ôl-16'* gyda'r Bwrdd yn

parhau a'i rôl strategol o'r ddarpariaeth ddwyieithog. Awgrymwyd hefyd y dylai ELWa ddarparu rhai o ddyletswyddau'r Bwrdd o fewn addysg ôl-16.

o **Monitro cynlluniau iaith**

Rhodddwyd cryn dipyn o sylw i swyddogaethau monitro'r Bwrdd ac amryw ddiffygion honedig y corff wrth geisio cyflawni'r rôl yma. O fewn ei adnoddau presennol un awgrym cryf a ddaeth i'r amlwg oedd trosglwyddo ac integreiddio gwaith monitro cynlluniau iaith i asiantaethau eraill megis Archwilwyr Dosbarth neu Archwilwyr Allanol sy'n monitro gwaith cyrff cyhoeddus.

o **Ombwdsmon / Comisiynydd iaith**

Awgrymwyd yr angen i sefydlu Comisiynydd iaith i ddelio â chwynion ynghylch diffyg darpariaeth yn y Gymraeg ac i ddatrys anghydfodau ieithyddol. Ar hyn o bryd y mae'r Bwrdd yn cynghori'r bobl sy'n darparu gwasanaeth a'r bobl sy'n ceisio'r gwasanaeth. Mae angen corff mwy annibynnol, meddir, ac iddo rym gorfodi os nad yw'r cyrff dan sylw yn cydymffurfio. Mynegwyd barn gryf ymhlith yr ymatebion fod angen i'r rôl plismona yma gael ei gweithredu yn fwy effeithiol, sut bynnag y mae'n cael ei darparu.

Mynegwyd pryder mewn un neu ddau ymateb fod angen gwyllo nad yw cyrff statudol eraill sy'n gweithredu yn y sector cyhoeddus yn osgoi eu cyfrifoldebau ieithyddol oherwydd bodolaeth y Bwrdd.

o **A ddylai ByIG fod yn gyfrifol am swyddogaethau ychwanegol?**

Derbyniwyd rhai sylwadau yn nodi fod y Bwrdd yn ymateb yn ddigonol i newidiadau a datblygiadau ieithyddol fel nad oedd angen adnabod swyddogaethau ychwanegol i'r corff:

'Credaf nad oes angen adnabod dyletswyddau newydd ar hyn o bryd.'

Mynegwyd y farn y byddai pwyslais a natur gwaith statudol y Bwrdd yn addasu yn naturiol wrth i gynlluniau cyrff cyhoeddus fwrw gwreiddiau.

Fodd bynnag, adnabuwyd nifer o swyddogaethau neu sectorau gweithredu y byddai modd i'r Bwrdd fod yn gyfrifol amdanynt, yn cynnwys:

- **Cynllunio Ieithyddol**

Awgrymwyd angen i'r Bwrdd ffocysu'n fwy ar gynllunio ieithyddol a chydweithio'n strategol gyda chyrff ymchwil eraill (prifysgolion, sefydliadau ymchwil, sefydliadau ieithyddol Ewropeaidd) er mwyn ehangu dealltwriaeth o newidiadau ieithyddol. Barn rhai yw fod y Bwrdd yn canolbwyntio ar agweddau pobl tuag at yr iaith, ac, er bod hynny'n ffactor pwysig mewn cynllunio ieithyddol, mae angen ymchwilio'n helaethach i ddefnydd pobl o'r iaith. Awgrymir sefydlu adran neu gorff cynllunio ieithyddol gyda staff arbenigol i fod yn gyfrifol am lunio map sosio-ieithyddol o Gymru.

- **Monitro a Gwerthuso**

Byddai rhai yn dymuno gweld y Bwrdd yn datblygu rôl strategol i fonitro a gwerthuso datblygiad iaith ar lefel genedlaethol gan gymryd cyfraniadau'r holl bartneriaid i ystyriaeth mewn modd integreiddiedig.

- **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

Er bod y Bwrdd yn gweithredu yn y sector yma ar hyn o bryd, awgrymodd rhai cyrff fod angen i'r Bwrdd ffocysu'n well ar ddatblygu a hyrwyddo'r Gymraeg ym myd technoleg gwybodaeth a gwasanaethau electronig. Un model posib fyddai sefydlu Tasglu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i *'leoleiddio pecynnau meddalwedd i'r Gymraeg, cynorthwyo gyda pharatoi deunyddiau addysgol electroneg yn Gymraeg, sicrhau bod gwasanaethau newydd yn ymddangos (ee bancio ar y we) yn trin y ddwy iaith yn gyfartal, a sicrhau lle i'r Gymraeg mewn technolegau sy'n datblygu, megis offer adnabod llais.'*

- **Swyddogaeth Ddarparu**

Awgrymodd rhai sefydliadau fod angen i'r Bwrdd ddatblygu swyddogaethau darparu yn ogystal â galluogi. Enghreifftiau o'r math yma o swyddogaethau fyddai darparu hyfforddiant cynllunio ieithyddol a chymunedol, datblygu a darparu cyrsiau yn y gweithle a darparu gwasanaeth golygu dogfennau i gyrff cyhoeddus.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i ehangu ei swyddogaethau, mi fyddai'n rhaid iddo dderbyn rhagor o adnoddau a chefnogaeth gan y Cynulliad.

- **Materion eraill**

Adnabuwyd nifer o elfennau y dylai'r Bwrdd ymdrin â hwy er gwella ei ddarpariaeth bresennol. Er bod rhai o'r rhain yn cael eu nodi o fewn yr adroddiad yma byddant yn cael eu gwyntyllu yn fanylach yng nghanam dau yr astudiaeth:

- **Monitro**

Fe feirniadwyd y Bwrdd yn gryf gan rhai a gredai nad oedd yn monitro cynlluniau iaith o fewn y sector cyhoeddus yn ddigonol ac yn ddigon effeithiol. Mae ymateb un awdurdod lleol yn crisialu nifer o sylwadau tebyg:

'Mae proses monitro ac archwilio cynlluniau iaith yn echrydus o sâl am nifer o resymau. Yn achos Adroddiadau Monitro blynyddol mae gennym brofiad o beidio â derbyn adborth o gwbl, derbyn adborth llafar hwyr a derbyn adborth ysgrifenedig hwyr (blwyddyn ar ôl

cyflwyno'r adroddiad) ... nid yw'r adborth yn gynrychioladol nac yn wyddonol ac nid oedd unrhyw archwilio yn cael ei wneud o gynnwys yr adroddiadau. Mae awdurdodau lleol yn buddsoddi miloedd o bunnau yn flynyddol yn cynhyrchu adroddiadau monitro sydd yn ddibwys o safbwynt gwirio gweithrediad eu Cynlluniau. Mae angen dybryd ar y Bwrdd i sicrhau bod proses debyg i'r broses archwilio gan y Comisiwn Archwilio neu'r Archwilwyr Dosbarth yn cael ei chyflwyno'.

Disgwylir i'r Bwrdd ddarparu mwy o adborth wrth fonitro cynlluniau iaith, a gwneud hynny yn gyflymach. Mae dulliau casglu gwybodaeth y Bwrdd oddi wrth gyrff cyhoeddus hefyd yn cael eu barnu: *'mae'r pro-forma a ddefnyddir gan y Bwrdd yn rhy gyffredinol ac yn gofyn am wybodaeth mewn ffordd braidd yn fecanistig... gellid teilwrio ffurf yr adroddiad yn well at wahanol gyrff.'*

Awgrymir y dylai'r Bwrdd fod yn rhagweithiol wrth ymweld â chyrrff i asesu cynlluniau iaith yn hytrach na disgwyl i gyrff gysylltu â'r Bwrdd. Yn ogystal, meddir, dylai'r Bwrdd fod yn dangos cydnabyddiaeth o ymdrech a chanlyniadau da.

o Presenoldeb a chyswllt lleol

Ymysg yr ymatebion cafwyd rhai yn dadlau fod angen i'r Bwrdd ymweld â chyrrff y mae yn eu hachredu yn ogystal â sicrhau mwy o bresenoldeb lleol yn y maes. Roedd partneriaid yng Ngogledd Cymru yn dyfynnu anhawster cyfarfod ar fyr rybudd a chael mynediad wyneb-yn-wyneb i staff. Teimlai rhai y byddai datblygu perthynas well, yn seiliedig ar bartneriaeth, yn lleihau'r tensiynau ar y ddwy ochr mewn rhai achosion.

'Mae ei strwythur presennol yn tueddu i droi o gwmpas y brifddinas. Mae angen cryfhau y cysylltiadau ym mhob rhan o Gymru.'

Tra bod rhai ymatebion yn nodi fod gan y Bwrdd gyswllt da â'r cyhoedd nododd eraill fod angen i'r Bwrdd wella ar ei gysylltiad gyda'r cyhoedd, a'i fod ar hyn o bryd *'yn cadw hyd braich oddi wrth y cyhoedd.'*

o Ymgynghori

Cyflwynwyd dadl mewn rhai ymatebion am yr angen i'r Bwrdd sicrhau mewnbyn partneriaid allweddol ar gyfer cynllunio'n strategol gan fod perygl iddo fod yn rhy

fewnblyg yn ei waith fel arall. Awgrymwyd y dylid trefnu cyfarfodydd rheolaidd rhwng gwahanol gyrff cyhoeddus i drafod meysydd cyffredin a rhannu gwersi.

- **Cydlynu Strategol**

Awgrymwyd bod angen i'r Bwrdd ystyried rôl iddo'i hun i gydlynu unrhyw gyfleoedd posib ar gyfer paratoi cyhoeddiadau dwyieithog ar y cyd rhwng gyrff cyhoeddus sy'n gweithredu y tu allan i Gymru a chyrrff yng Nghymru. Ar hyn o bryd rhaid i gyrff cyhoeddus flaenoriaethu eu dogfennaeth ddwyieithog oherwydd cyfyngiadau ariannol, ond dylid edrych ar opsiynau i ddatrys hyn drwy baratoi peth dogfennaeth ddwyieithog i Gymru yn unig ar y cyd. Ymhlith y gwasanaethau y gellid eu targedu fyddai partneriaethau rhwng gwasanaethau sengl megis yr heddlu, awdurdodau tân, parciau cenedlaethol ac ati.

1. AROLWG LLENYDDIAETH

Yr ydym wedi dethol rhai sylwadau ar Fwrdd yr Iaith, y Ddeddf Iaith a rôl y Cynulliad yng nghyd-destun cynllunio iaith gan rhai o gymdeithasegwyr iaith mwyaf amlwg Cymru. Dyfynnir y sylwadau isod er mwyn cynnig blas ar y math o ddadl sy'n bodoli ymysg rhai sy'n hawlio arbenigedd yn y maes hwn. Nid ydym yn cynnig sylwadau ar werth unrhyw farn a ddyfynnir nag ychwaith ar gywirdeb ffeithiol y sylwadau, heblaw i gywiro un sylw anghywir gan Glyn Williams a Delyth Morris a allai daflu amheuaeth ar gasgliadau eraill yn yr arolwg.

o Sylwadau Glyn Williams a Delyth Morris yn *Language Planning and Language Use*, 2000

'Although the Welsh Language Board has been established to administer the latest [language] Act, it is not a language planning agency in the usual meaning of the term.' (t. 181)

'It consists of civil servants rather than people trained in issues relevant to language planning.' (ibid)

'Its brief is limited' (ibid)

'Two things stand out - the small budget that, on the surface, appears to be devoted to language planning in Wales and the absurdity of a public-sector body which, in a time of the rolling back of the state, spends more on its staffing than it distributes in grant aid.' (181-2) [*Noder: Mae Adroddiad Blynyddol ByIG am 1999-2000 yn cynnwys adroddiad ariannol archwiliedig sy'n dangos fod costau staffio'r Bwrdd yn £810,000 o'u cymharu â grantiau a ddosrannwyd i gyrff allanol o £4,417,000.*]

'the impression is conveyed that the Board appears to be a poorly funded agency which has little more than a legal obligation to promote and implement the 1993 Act and to administer other funds associated with the language' (ibid)

'Welsh and English in Wales are related to speakers who are conceived of as having both preferences and rights... However, the difference of rights relates to "ethnic and national differences" which hinder the aim of equal rights.' (184)

'The philosophy of the Welsh Language Board is a direct manifestation of the more orthodox neo-liberal orientation of regional development, with its focus upon community development and planning... We are not told what the nature of this community is...' (185-6)

'The WLB was established... with little academic understanding of language planning or issues of social and cultural change as being remotely associated

with the relevant positions... Thus, the Board is almost completely devoid of personnel with the requisite training in the disciplines that are relevant to language planning' (189)

'the local personnel responsible for representing the "grass-roots" initiative that leads to establishing the Language Enterprise (Menter Iaith) lack any understanding of language planning' (199)

'If the WLB is to take language out of politics, it must first engender some motivational principle that replaces that of moral indignation.' (204)

Mae'r awduron yn gweld diffygion ByIG fel hyn:

- personél dibrofiad ym maes cynllunio iaith;
- diffyg cyllid;
- rôl gyfyngedig; ac
- athroniaeth sy'n rhoi pwys ar ddefnydd unigolion o iaith yn hytrach nag ar iaith yn rhan o gymuned economaidd hyfyw.

o **Sylwadau ar y Mentrau Iaith, Kathryn Jones a Gareth Ioan, *Arolwg Mentrau Iaith Cymru 2000***

Nodir cyfraniad helaeth y Mentrau Iaith, a'r arferion da a gynigir ganddynt mewn sawl maes, ond awgrymir bod y ddarpariaeth yn 'ddarniog a digyfeiriad' yn aml (t.132).

Nodir nad yw'r gweithgaredd 'yn ddigonol ar hyn o bryd' a bod angen iddynt 'ddatblygu eu rôl a'u sgiliau fel cynllunwyr iaith yn y gymuned' gan rwydweithio'n fwy effeithiol a chreu partneriaethau mwy cadarn a dylanwadol.

Mae'r diffygion yn bodoli i raddau oherwydd:

'diffyg cyllid ac adnoddau digonol a sefydlog; diffyg arweiniad clir a chefnogaeth arbenigol; diffyg statws a dylanwad y mentrau; diffyg cydweithrediad gan rai cyrff a mudiadau eraill; diffyg hyfforddiant a meithrin sgiliau angenrheidiol i fod yn gynllunwyr iaith lleol'.

Cydnabyddir 'dylanwad pwysig ByIG', ond credir y dylid:

rhoi 'sicrwydd ariannol... dros gyfnod o 3 blynedd; adolygu'r drefn geisiadau; ymgryfhau'r mentrau o ran rhif ac adnoddau..; a chyda materion eraill'. (133)

Ar y cyfan, serch hynny, gwelir cyfraniad cadarnhaol y mentrau a'r angen iddynt gael rhagor o gefnogaeth ac adnoddau. Byddai hyn yn cynnwys 'ehangu swyddogaethau statudol, lefelau cyllid a staffio'r bwrdd'.

Rhaid hefyd 'sicrhau grym sefydliadol cenedlaethol tu cefn i unrhyw gynllunio iaith lleol'.

Ceir nifer helaeth o argymhellion mwy penodol y bydd angen edrych arnynt wrth werthuso polisiau cymunedol y Bwrdd.

- o **Sylwadau Aitchison a Carter, Colin Williams a Jeremy Evans**

Mae Aitchison a Carter (2000) yn dyfynnu Colin Williams (1999), gan nodi'r tair egwyddor o gysylltiad iaith a dinasyddiaeth, polisiau economaidd a rhanbarthol i sicrhau hyfywedd cymunedau Cymraeg, a bod iaith yn gysylltiedig â materion yn ymwneud â chynllunio gwlad a thref. (t.156) Pwysleisir yr angen am gynllunio iaith holistig yn hytrach nag adrannol, a bod gan y Cynulliad y potensial i fod yn asiantaeth normaleiddio iaith.

Nodir y gallai'r Cynulliad, ar y llaw arall, wrthsefyll pwysau grwpiau iaith ar dir democrataidd, gan honni bod gweithredu dros y mwyafrif ieithyddol yn bwysicach.

Mae Colin Williams a Jeremy Evans yn nodi (1997) bod y Gymraeg yn dibynnu ar gynlluniau a fydd yn sicrhau cynnydd yn nifer y siaradwyr, a hefyd ar hyfywedd cymunedau Cymraeg. Nodant yr angen i gryfhau rhwydweithiau cymdeithasol-ieithyddol, ac mae gan Fentrau Iaith rôl yn hyn o beth.

Yn ogystal â nodi'r angen am bolisi iaith yn ymwneud ag addysg a gweinyddiaeth, mae Colin Williams eto'n dadlau (2000) bod angen polisiau economaidd a chynlluniau datblygu rhanbarthol i sefydlogi cymunedau Cymraeg, ac yn gweld creu swyddi a chyfleoedd gwaith dwyieithog yn ganolog yn hyn. Gwêl hefyd yr angen am ystyried cynllunio gwlad a thref yng nghyd-destun iaith.

Gwêl Williams yr angen am sefydlu Canolfan Gynllunio Iaith Genedlaethol a fyddai'n cynnwys 'ymchwil, safoni iaith, cyfarwyddiadau polisi a hyrwyddo ffyrdd technegol-arloesol' a sefydlu swyddfa Ombwdsmon Iaith. (t. 663) [Dylid nodi fod yr Athro Colin Williams yn aelod o FyIG.]

1. SWYDDOGAETHAU CYFREDOL YM MAES CYNLLUNIO IAITH

Nid eiddo ByIG yn unig yw polisi iaith a chyfrifoldeb am y Gymraeg. Mae cyfrifoldebau hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg wedi eu hamlinellu isod gan nodi y prif gyrff ac asiantaethau sy'n gyfrifol am gyfrannu tuag atynt ar hyn o bryd:

Rôl	Rhesymeg	Prif chwareuwyr
Cynllunio caffaeliad	Trosoglwyddo iaith Dysgu iaith	Y Cynulliad Cenedlaethol ByIG Awdurdodau Lleol (Addysg) Cynghorau Cyllido Mudiad Ysgolion Meithrin Addysg Uwch Addysg Bellach Cymraeg i Oedolion
Cynllunio defnyddio	Yn economaidd a chymdeithasol	Y Cynulliad Cenedlaethol ByIG Mentrau iaith TECs – ELWa Sector preifat Mudiadau gwirfoddol a chymunedol
Cynllunio statws	Agweddau a gwerthoedd. Polisi ac arferion	Y Cynulliad Cenedlaethol ByIG Cynghorau sir a chymuned Awdurdodau Tân Iechyd Parciau Cenedlaethol Adrannau ac Asiantaethau'r Llywodraeth Gweinyddu Cyfiawnder Colegau a Phrifysgolion
Cynllunio corpws	Cymraeg poblogaidd Safoni iaith	ByIG Cyfryngau Cyfieithwyr Y Cynulliad Cenedlaethol

Nid yw'n hawdd adnabod effeithiau a chanlyniadau ByIG ar wahân i ddylanwadau eraill yn y maes. Effeithir ar y rhan fwyaf o feysydd gweithgaredd y Bwrdd gan lu o actorion gwahanol ac mae'r ddeinamig waelodol sy'n llywio rhagolygon yr iaith y tu allan i reolaeth y Bwrdd, os nad ei ddylanwad. Yn y cyd-destun hwn – sydd ddim yn anarferol mewn gwerthusiadau polisi sefydliadol – mae angen dyfeisio cwestiynau gwerthuso o fath gwahanol er mwyn ystyried effeithlonrwydd corff wrth gyflawni ei swyddogaethau, megis:

- I ba raddau mae'r Bwrdd wedi dadansoddi, ystyried a chyfathrachu gyda'r ystod eang o actorion sy'n dylanwadu ar gaffaeliad a defnydd iaith?
- Sut mae'r Bwrdd yn ychwanegu gwerth at eraill trwy ei weithgareddau, grantiau a'i gynlluniau iaith?
- I ba raddau mae'r Bwrdd yn gwerthuso ei effeithlonrwydd mewn modd parhaus ac yn bwydo gwersi'n gyson i'w strategaethau corfforaethol a rheoli?

Dyma'r math o gwestiynau byddwn yn eu gofyn yn ystod ail rhan yr Adolygiad.

1. DEWISIADAU NEWID

o Pam ystyried newid?

Er i Ddeddf yr Iaith Gymraeg ddod i rym yn 1993 bu newid sylweddol yn yr hinsawdd wleidyddol a dwiylliannol-gymdeithasiol a threfn llywodraeth yng Nghymru.

- mae statws a bri'r Gymraeg yn uwch nag y bu – felly nid oes yr un angen i gyfiawnhau'r iaith yn yr un modd ag y bu yn y blynyddoedd cynnar wedi cyflwyno'r Ddeddf Iaith;
- mae llwyddiant y Bwrdd yn ei waith o gyflwyno cynlluniau iaith wedi creu'r angen am orchwylion newydd: cefnogi, adolygu ac arolygu yn hytrach na chychwyn, llunio, a sefydlu;
- mae dyfodiad y Cynulliad wedi creu symbolau newydd o hunaniaeth Gymreig ar wahân i'r iaith ac yn agor cwestiynau amgenach o hunaniaeth i'r Di-Gymraeg;
- mae'r rhwydwaith o gyrff – lleol a chenedlaethol – sydd yn dylanwadu ar ddysgu, defnyddio a chaffaeliad yr iaith wedi ymestyn a dwysáu.

Felly mae'n briodol i adolygiad fel hwn i ystyried amrediad o opsiynau ar gyfer cyrraedd amcanion Deddf yr Iaith Gymraeg yn y sefyllfa bresennol a gyda golwg ar y dyfodol.

Gwneir hyn nid oherwydd bod unrhyw rhagdybiaeth fod angen newid. Yn y bennod hon trafodir nifer o opsiynau fel rhan o'r broses o asesu addasrwydd strwythur y Bwrdd i gwrdd â'i gyfrifoldebau ac i gyflawni ei orchwylion.

Crybwyllwyd rhai o'r opsiynau a drafodir isod gan nifer o'r cyrff a'r unigolion yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr astudiaeth. Cynlluniwyd eraill gan y tîm ymgynghorol fel profion gwrthrychol o addasrwydd a pherfformiad y Bwrdd. Wrth bwysu a mesur yr opsiynau, cadwyd mewn cof gylch gorchwyl yr astudiaeth. Nid yw hwn yn gofyn am dafoli'r Bwrdd yn erbyn safonau cynllunio iaith 'delfrydol', lle nad oes terfyn ar nag adnoddau nag ewyllys wleidyddol. Gofyn yn hytrach am adolygiad o waith y Bwrdd oddi mewn i'r fframwaith statudol a *realpolitik* presennol. Lle bo rhain yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y Bwrdd neu ar ei allu i gyflawni ei ddyletwsyddau o dan y Ddeddf, nodir hynny. Fodd bynnag, nid yw'n rhan o orchwyl yr adolygiad i ddadlau am newidiadau sylfaenol i'r Ddeddf ei hun. Yn ddiôs, caiff ystyriaethau o'r math eu lle yn yr adolygiad ehangach o bolisi ar yr iaith Gymraeg a fydd yn digwydd dan nawdd y Cynulliad yn y dyfodol agos.

- o **A oes angen ByIG o gwbl?**

Yn ôl y Ddeddf, swyddogaeth y Bwrdd yw 'hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg'. A'r Ddeddf yn ei blaen i restru amgylchiadau lle bydd angen ymyrraeth swyddogol i hwyluso defnydd o'r iaith. Tra pery'r Ddeddf mewn grym, fe fydd angen cyflawni'r swyddogaethau hyn. Yn y cyd-destun hwn, fel ar amryw bwnc cysylltiedig, mae'r ymateb i'r ymgynghoriadau'n ymrannu i dair carfan: y rhai nad ydynt yn gweld unrhyw angen am fesurau i gefnogi'r iaith Gymraeg; y rhai sy'n dyheu am fesurau cadarnach; a'r rhai sy'n derbyn y sefyllfa bresennol. Mae barn y ddwy garfan gyntaf yn seiliedig ar yr angen am Ddeddf iaith Gymraeg o gwbl. Bydd angen i'r Cynulliad fod yn ymwybodol o'r farn yma gan ei bod yn werthfawr yn yr ystyr ei bod yn amlygu sensitifrwydd yr amgylchedd y mae'r Bwrdd yn gweithredu ynddo, ond nid ydynt yn uniongyrchol berthnasol i gylch gorchwyl yr adolygiad hwn.

Ymhlith y drydedd garfan, roedd y farn yn weddol gyffredinol fod angen parhaol am FyIG. Fodd bynnag, ymddengys fod gan y Cynulliad yr hawl i gymryd dyletswyddau'r Bwrdd iddo'i hun. Fe allai fod yn ddadlennol i ystyried goblygiadau hyn.

Ar yr olwg gyntaf, fe fyddai'n gwbl naturiol i'r Cynulliad gymryd cyfrifoldeb llwyr am gynllunio ieithyddol yng Nghymru. Wedi'r cyfan, mae'r Cynulliad yn gorff mwy democrataidd nag unrhyw gwango ac mae eisoes yn gyfrifol am ystod o feysydd sy'n effeithio'n sylweddol ar barhad a datblygiad cymunedau ieithyddol - fel meysydd cynllunio, addysg, datblygu economaidd, llywodraeth leol ac yn y blaen. Gellid dadlau fod y dyhead am lywodraeth gyfannol yn galw am integreiddio elfen mor sylfaenol â iaith i'r broses llywodraethol yn yr un ffordd ag a wneir gyda chynnal yr amgylchedd, diogelu hawliau dynol, sicrhau buddiannau'r anabl a llu o elfennau sylfaenol eraill dinasyddiaeth.

Byddai modelau o Wlad y Basg, Catalwnia, Israel, Canada, Gwlad Belg ac yn y blaen yn awgrymu mai hon fyddai'r ffordd amlwg ymlaen (gweler Atodiad A1 /5). Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylfaenol rhwng y gwledydd neu ranbarthau hyn â Chymru sy'n tueddu'n gryf i

filwriaethu yn erbyn datrysiad mor arwynebol ddymunol. Y gwir amdani yw nad yw democratiaeth fel y cyfryw wedi profi'n dull hynod effeithiol o ddiogelu buddiannau lleiafrifoedd nag o weithredu polisiâu 'teg' neu 'ymarferol' lle mae'r mwyafrif yn debyg o ystyried rhain yn fygythiad i'w buddiannau hwythau. Yng Nghymru, rhaid byw gyda'r ffaith mai cyfran fechan o boblogaeth y wlad gyfan sy'n alluog ac yn awyddus i fyw'n naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid hefyd gofio fod yr iaith, tan yn ddiweddar, wedi bod yn bwnc llosg ar adegau ac na fyddai o les i neb i weld ymfflamychu pellach.

Sail Deddf 1993, felly, yw mai trwy annogaeth, berswâd ac esiampl mae diogelu dyfodol y Gymraeg, gyda'r sector cyhoeddus yn cynnig arweiniad o safbwynt urddas a statws. Mae'r cysyniad o weithredu llywodraeth ganolog a lleol ar sail cyfartaledd dilysrwydd y ddwy brif iaith yng Nghymru yn dal yn un newydd ar ôl canrifoedd o ymdrech i sefydlu'r Saesneg fel unig iaith swyddogol ynysodd Prydain. Ar waetha'r ffaith fod Cynllun Iaith y Swyddfa Gymreig wedi derbyn cymeradwyaeth ByIG ym 1996, mae'n amlwg fod ffordd bell i fynd eto cyn y gwelir gweithredu egwyddor cyfartaledd yn naturiol ac yn gyfforddus gan y gwasanaeth sifil yng Nghymru. Mae'r Ddeddf Iaith wedi cymryd y cam anarferol o wneud y gwasanaeth sifil yn atebol i FyIG yn y cyd-destun arbennig yma. Pe bai'r holl gyfrifoldeb am baratoi, gweithredu ac arolygu cynlluniau iaith y Cynulliad yn nwylo'r gwasanaeth sifil, fel ellid gofyn '*quis custodiet...?*'

Mae'n werth ei nodi yn y cyd-destun hwn hefyd, fod Deddf yr Iaith wedi rhoi hawliau i FyIG i weithredu y tu allan i ffiniau Cymru pan fydd darparwyr gwasanaethau perthnasol wedi eu lleoli yng gweddill Prydain. Fe allai fod yr hawl yma, sy'n deillio o'r cyfnod cyn datganoli, fod yn un arwyddocaol yn y dyfodol.

Cyn sefydlu'r Cynulliad credid y byddai'r corff newydd yn gwneud cwangos yn ddianghenraid. Mae'n siŵr y bydd hyn yn wir yn y tymor hir. Fodd bynnag, bydd angen amser ar y Cynulliad i gyflwyno strwythurau newydd a bydd angen i'r cyrff hynny sy'n darparu gwasanaethau arbenigol gwerthfawr i barhau mewn bodolaeth trwy'r cyfnod trosiannol.

Mae lle i gredu fod canfyddiad cyffredinol fod sefyllfa'r iaith Gymraeg yn gadarnach oddiar Deddf yr Iaith a sefydlu ByIG nag yr oedd dan yr hen oruchwyliaeth. Nid yw'r Cynulliad eto wedi mynegi awydd i sefydlu trefn gwbl newydd i ymdrin â'r iaith Gymraeg nac i gyflwyno deddfwriaeth newydd ynglŷn â hi. Felly, ni welir unrhyw rinwedd ar hyn o bryd dros drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd i adran o fewn gweinyddiaeth y Cynulliad.

Mae tystiolaeth fod aelodau'r Bwrdd yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ei gyfeiriad a'i weithrediadau ac yn ddolen gyswllt werthfawr rhwng y corff yng Nghaerdydd a'r ardaloedd a'r sectorau y mae'n eu gwasanaethu ledled Cymru. Nid oes felly ar hyn o bryd achos argyhoeddiadol dros sefydlu Asiantaeth Weithredol (heb aelodau) i gymryd lle'r corff statudol anadrannol presennol.

o **A oes angen newid strwythur ByIG?**

Mae'r Ddeddf yn nodi swyddogaethau penodol y disgwylir i FyIG eu cyflawni er 'hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg'. Mae rhain yn disgyn yn fras i dri chategori o weithgaredd:

- cynghori a dylanwadu ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg;
- ysgogi a goruchwyllo'r broses o baratoi a gweithredu cynlluniau iaith;
- rhoi grantiau ar gyfer hwyluso a defnyddio'r iaith.

Ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol, cyn sefydlu'r Cynulliad, cafodd y Bwrdd swyddogaeth bellach o

- gadw gorolwg strategol dros addysg a hyfforddiant Cymraeg.

Ymysg y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, mynegwyd y farn nad oedd y swyddogaeth o blismona cynlluniau iaith yn cydeistedd yn gyfforddus â'r swyddogaeth o hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Awgrymwyd y gellid trosglwyddo'r swyddogaethau sy'n ymwneud â sicrhau fod cyrff eraill yn cyfarfod ag anghenion y Ddeddf i gyrff priodol eraill, megis cyfundrefnau archwilio neu sicrhau gwerth gorau, gan ryddhau ByIG i ganolbwyntio'i egnïon a'i adnoddau ar fesurau hyrwyddo. Opsiwn arall fyddai rhannu'r Bwrdd yn ddau gorff - y naill yn gyfrifol am hyrwyddo a'r llall yn gyfrifol am sicrhau ufuddhau i ofynion y gyfraith.

O ystyried natur y sylwadau hyn, teimlir bod achos i edrych ar berfformiad y Bwrdd yn ei weinyddiad o Adran II y Ddeddf ac fe wneir hynny yn ail rhan yr adolygiad. Fodd bynnag, ni welir fod achos *a priori* yma dros rannu'r

swyddogaethau. Mae nifer o gyrff eraill yn llwyddo i gyfuno gwarchod safonau â chynnig grantiau a hyrwyddo mewn gwahanol ffyrdd – megis Cadw, y Comisiwn Cefn Gwlad a'r Bwrdd Croeso. Yn yr achosion hyn, mae arbenigedd yn y priod faes yn cael ei ystyried yn bwysicach nag arbenigedd penodol mewn archwilio neu weinyddu cyfraith. Mae lle i gredu fod hyn hefyd yn wir am faes cyffredinol cynllunio iaith. Mae'r broses o gyflwyno a datblygu cynlluniau iaith cyrff cyhoeddus yn un esblygiadol a gellid dadlau fod cymaint angen sgiliau hyrwyddo wrth lywio'r broses yn effeithiol ag y sydd wrth hyrwyddo'r iaith mewn unrhyw faes arall.

Felly cesglir mai mater o sicrhau effeithiolrwydd derbynol yng ngweinyddiad y Bwrdd yw hwn yn hytrach nag achos dros newid strwythur neu rannu swyddogaethau.

Sylw arall a ddaeth i'r amlwg o'r broses ymgynghorol oedd y dylai'r Bwrdd fod â strwythur rhanbarthol i gwrdd ag anghenion y gwahanol gynunedau ieithyddol yng Nghymru. Fe ellid dadlau fod y Bwrdd yn ceisio cwrdd â'r angen trwy gefnogi Mentrau Iaith ac nad oes ganddo'r adnoddau i osod staff a swyddfeydd mewn gwahanol ardaloedd. Mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cynrychioli rhaniadau daearyddol y wlad yn ogystal â gwahanol sectorau'r cymunedau. Fodd bynnag, mae'n anodd i gorff sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg gyfiawnhau canoli'n llwyr yng Nghaerdydd ac fe drafodir opsiynau eraill i gwrdd â'r sylw hwn yn ail rhan yr arolwg.

Pan fo adnoddau'n brin, dylid ystyried unrhyw bosibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau i gyrff eraill sy'n bodoli eisoes, er mwyn osgoi dyblygu gwaith a gwariant, neu i ddefnyddio cyrff eraill fel is-gontractwyr neu weithredwyr. Fe fanylir ar y posibiliadau hyn yn ail rhan yr astudiaeth ond, ar yr olwg gyntaf, mae'n ymddangos fod y Bwrdd eisoes yn effro i'r opsiwn o weithio trwy a gyda chyrff eraill, gan gynnwys harnessu gwaith gwirfoddolwyr, er mwyn estyn effaith ei adnoddau craidd. Dadleua'n argyhoeddiadol hefyd fod y cynnydd a wnaed ers sefydlu'r Bwrdd i'w briodoli i raddau helaeth at eu pwyslais ar gynllunio iaith. Mae'n anodd gwrthod y ddadl y byddai dychwelyd i'r sefyllfa o gyfrifoldebau rhanedig a chynllunio *ad hoc* a fodolai cyn sefydlu'r Bwrdd yn andwyol.

Felly, er yr erys rhai materion i'w profi'n llawnach yn ail rhan yr adolygiad, cesglir bod strwythur presennol y Bwrdd yn addas ar gyfer ei swyddogaethau ac na fyddai newid o anghenraid yn golygu arbed arian na chynyddu effeithiolrwydd.

o **A yw swyddogaethau'r Bwrdd yn dal yn briodol?**

Y farn gyffredinol ymysg y rhai a holwyd yw fod angen holl swyddogaethau'r Bwrdd am gyfnod amhenodol. Cafwyd peth amheuaeth ynglŷn â'r swyddogaeth o rannu grantiau ond roedd nifer o'r rhain yn deillio o awydd awdurdodau lleol i ysgwyddo'r baich arbennig hwn eu hunain.

Mae'r swyddogaeth yn un allweddol i'r Bwrdd gan ei fod yn cynrychioli'r gyfran helaethaf o lawer o'i gyllid blynyddol, er fod y grantiau mwyaf sylweddol wedi eu clustnodi ar gyfer y cyrff a ariannwyd gan y Swyddfa Gymreig cyn sefydlu'r Bwrdd. Manylir ar strategaeth a gweinyddiad system grantiau'r Bwrdd yn ail rhan yr arolwg ond, o safbwynt strwythur a bodolaeth y Bwrdd, mae'r ffaith ei fod yn gyfrifol am rannu arian cyhoeddus sylweddol yn y modd yma yn mynnu ei fod yn meddwl mewn termau strategol am hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Ymatebodd y Bwrdd i'r rheidrwydd hwn trwy lunio a chyhoeddi strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn Rhagfyr 1996.

Ar un olwg mae gwendid yn y Ddeddf nad ydyw'n galw'n benodol am ddarparu strategaeth o'r math yma ar gyfer dyfodol yr iaith yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r Cynulliad wedi etifeddu'r hawl a oedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ofyn am gyngor ByIG. Fe allai fod yn fanteisiol iawn i'r broses cynllunio pe bai'r Cynulliad yn cymryd meddiant o'r strategaeth mewn cydweithrediad â'r Bwrdd er mwyn cadarnhau statws y ddogfen a'r cynlluniau gweithredol sy'n seiliedig arni.

Mae'r cynllun grantiau'n allweddol i alluogi'r Bwrdd i ddatblygu partneriaethau gyda chyrff a mudiadau eraill sy'n ddylanwadol yn y broses o hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg. Mewn egwyddor, mae hefyd yn galluogi'r Bwrdd i fod yn rhagweithiol gyda'r cyrff hyn yn

hytrach nag yn oddefol ymatebol i'w blaenoriaethau hwythau.

Ni all fod llawer o amheuaeth fod swyddogaethau eraill y Bwrdd yn dal yn briodol. Bu'r dull o osod cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus i ddarparu cynlluniau iaith yn gyfaddawd diddorol rhwng gorfodiaeth Draconaidd a *laisser faire*. Gesyd bwysau ar y Bwrdd i fynnu cynnydd heb godi gwrychyn. Yn ei hanfod, felly, mae'r broses yn un tymor-hir. Mae hyn wedi creu peth rhwystredigaeth ymysg rhai o'r personau a gynigodd dystiolaeth i'r adolygiad a bydd ail rhan yr adolygiad yn edrych yn fanylach ar gynnydd yn erbyn disgwyliadau a thargedau yn y maes yma. Fodd bynnag, mae'r swyddogaeth yn amlwg yn un allweddol i'w weithredu ochr-yn-ochr â swyddogaethau anogol a chefnogol y Bwrdd.

Ni ellir chwaith â dadlau am ddiddymu rôl ymgynghorol y Bwrdd. Mae'n bwysig fod y Bwrdd yn datblygu arbenigedd ym maes cynllunio iaith er mwyn cydlynu a chyfarwyddo ymdrechion eraill yn y maes ac i osgoi dynesiad darniog at broblem sy'n galw am ymateb cyfannol.

Mae peth amwysedd, fodd bynnag, yn bodoli ynglŷn â'r swyddogaeth ychwanegol a osodwyd ar y Bwrdd gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth ei sefydlu, sef y swyddogaeth o 'gadw gorolwg strategol dros addysg a hyfforddiant Cymraeg'. Edrychir ymhellach ar y swyddogaeth hon yn ail rhan yr arolwg ond mae'n amlwg y byddai'n fanteisiol i'r Cynulliad ystyried beth yn union mae disgwyl i'r Bwrdd ei gyflawni yn y maes yma a pha berthynas a ddylai fod rhyngddo â'r gyrff eraill sydd â chyfrifoldebau yn y maes.

o **A oes angen mwy (neu lai) o rym ar y Bwrdd?**

Yn anochel, mae rhai o'r sylwadau a ddaeth i'r amlwg yn y broses ymgynghorol yn ymwneud â phwerau. Mae carfan yn dadlau fod gormod ohonynt gan y Bwrdd eisoes ac eraill yn gresynu nad oes hawliau digonol ganddo mewn meysydd megis cynllunio gwlad a thref, yr economi ac yn y blaen nac i fynnu cynlluniau iaith gan y sector preifat.

Fel yr eglurwyd eisoes, nid yw'n rhan o gylch gorchwyl yr adolygiad hwn i geisio ail-lunio'r Ddeddf Iaith. Teg dweud nad yw'r Bwrdd na'i swyddogion yn teimlo y byddai pwerau ychwanegol o fudd iddynt o dan yr amodau presennol. Fodd bynnag, rhaid derbyn fod hyn yn gadael bylchau sylweddol yn y broses o gynllunio iaith. Gan fod cynnydd yn dibynnu ar adeiladu consensws a gweithio trwy annogaeth yn hytrach na gorfodiaeth, rhaid derbyn y bydd angen

swyddogaethau'r Bwrdd ac adnoddau digonol i'w cyflawni dros gyfnod estynedig os yw cenhadaeth Deddf yr Iaith Gymraeg i'w gwireddu.

o **A oes angen gwella cysylltiad ByIG â'r Cynulliad?**

Mae peth amwysedd ynglŷn â statws cynllun strategol ByIG er ei fod wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad ac wedi derbyn sêl bendith y corff hwnnw i'r graddau ei fod wedi penderfynu fel a ganlyn [yn rhyfedd iawn, noda'r cofnodion 'Nid yw'r atodiad hwn yn Gymraeg!']:

'The Committee welcomes the Welsh Language Board's document The Welsh Language: A Vision and Mission 2000-5 as a major contribution to the task of drawing up a strategy for the continued revitalisation of the Welsh language and the creation of a bilingual Wales. The Committee agrees that the four main challenges are those noted in the "Summary of the Welsh Language Board's Position" and strongly supports the emphasis on Welsh-medium education as the basis for growth.

The Committee notes that achieving such an ambitious task as the creation of a truly bilingual Wales must involve a co-ordinated strategy, with targets, of the kind described in the Board's document.

The Committee strongly supports the aim of creating a bilingual Wales as an achievable national aim, and wishes to see the implementation of an effective strategy to ensure that this aim is achieved.

The Committee welcomes the fact that the Executive accepts the Board's document as an important contribution and guide to determining priorities for the future work of the Board within the resources voted by the Assembly'.

Mae'r penderfyniad hwn yn osgoi derbyn strategaeth ByIG fel strategaeth y Cynulliad ei hun ar gyfer datblygiad yr iaith Gymraeg. Mae ei eiriad, er yn ganmoliaethus o FyIG ac yn gefnogol o'i fwriadau, yn awgrymu, trwy ddefnyddio cymalau fel '*a co-ordinated strategy ... of the kind described*', '*... the implementation of an effective strategy ...*' a '*... an important contribution and guide ...*' y byddai strategaeth y Cynulliad ei hun rhywfaint yn wahanol i genhadaeth y Bwrdd.

Mae hyn yn creu rhywfaint o fwllch yn y gadwyn cyfrifoldeb am ddyfodol yr iaith Gymraeg ac yn ddiôs fe fyddai'n gysur i FyIG gael cadarnhad neu ddiffiniad mwy diamwys o'i rôl.

Yn yr un modd mae'r swyddogaeth ychwanegol a osodwyd ar y Bwrdd gan gyn Ysgrifennydd Gwladol o 'gadw gorolwg strategol dros addysg a hyfforddiant Cymraeg' yn un amwys a phenagored heb ddiffiniad pellach o

gyfrifoldebau a phwerau'r Bwrdd ymysg yr holl gyrff eraill sydd â swyddogaethau yn y meysydd hyn.

Mae'n anochel fod yr amwyseddau hyn yn bwrw eu cysgod dros yr Arolwg yma. Eto i gyd, nid ydynt ynddynt eu hunain yn ddigon i godi amheuaeth ddifrifol ynglŷn â'r angen am barhad y Bwrdd na'i swyddogaethau.

1. CRYNODEB A CHASGLIADAU

o Crynodeb

Yn y rhan gyntaf hon o'r adolygiad, gofynnir am ganolbwyntio ar strwythur a swyddogaethau'r Bwrdd yn hytrach na'i berfformiad. Gofynnir i rhain gael eu hystyried oddi mewn i gyfundrefn a grëwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 gyda'r newidiadau a ddaeth yn sgîl ad-drefnu llywodraeth leol a sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O ystyried maint y gwaith a osodwyd iddo gan y Ddeddf, mae ByIG yn sefydliad newydd iawn. Gellir ei ganmol am ei gyfraniad tuag at y newid agwedd positif iawn sydd wedi bod tuag at yr iaith Gymraeg yn y blynyddoedd diwethaf ac am wynebu ei genhadaeth gydag agwedd proffesiynol a strategol. Mae'r Cynulliad yntau'n gorff newydd ac yn dal i ymgodymu â'r ystod eang o gyfrifoldebau sydd ganddo. Byddai angen dangos diffyg sylweddol ym mherfformiad y Bwrdd neu achos argyhoeddiadol iawn dros i gorff arall ymgymryd â'i ddyletswyddau cyn awgrymu newid sylweddol yn y drefn bresennol.

o Casgliadau

Ystyriwyd rhai opsiynau er mwyn asesu a oes tystiolaeth fod angen y fath newid. Wedi gwneud hynny, cesglir

- nad oes achos dros ddiddymu'r Bwrdd a throsgwyddo'i gyfrifoldebau naill ai'n uniongyrchol i'r Cynulliad neu i Asiantaeth Weithredol o dan y Cynulliad;
- nad oes achos dros newid strwythur y Bwrdd i greu rhaniad rhwng ei wahanol swyddogaethau;
- nad oes achos dros trosglwyddo unrhyw un o'i swyddogaethau presennol i gorff arall;
- fod angen parhaol am holl swyddogaethau'r Bwrdd.

Fodd bynnag, credir y gellid sefydlogi strwythur presennol y Bwrdd a hwyluso'i allu i gyflawni'r swyddogaethau a osodir arno gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg

- pe bai'r Cynulliad yn cymryd perchnogaeth o'r strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg ac yn ei fabwysiadu, gyda pha addasiadau bynnag y gwêl yn dda i'w cyflwyno, fel strategaeth genedlaethol; a

- phe bai'r Cynulliad yn diffinio'r disgwyliad ar FyIG i 'gadw gorolwg dros addysg a hyfforddiant Cymraeg' a chytuno nodau a strwythur adrodd penodol gyda'r Bwrdd ar gyfer cyflawni'r swyddogaeth hon.

ATODIADAU

- Atodiad 1** Papurau Cyd-destun
- Atodiad 2** Cyflwyniad Ysgrifenedig Bwrdd yr Iaith i'r Adolygiad
Pum Mlynedd
- Atodiad 3** Rhestr o Gyrff ac Unigolion a Gyflwynodd Sylwadau
Ysgrifenedig
- Atodiad 4** Cylch Gorchwyl yr Adolygiad

ATODIAD 1: PAPURAU CYD-DESTUN

A1/1: SAIL CYFREITHIOL, SWYDDOGAETHAU A PHRIF WEITHGAREDDAU'R BWRDD

sail cyfreithiol

Sefydliad anadrannol statudol a sefydlwyd ar Ragfyr 21 1993 o dan amodau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, yw ByIG, yn gyfrifol am hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg.

Er Gorffennaf 1 1999 mae'r Bwrdd yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn derbyn statws Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad - corff cyhoeddus cenedlaethol a rhanbarthol yn gweithredu'n annibynnol ar Weinidogion, ond bod Gweinidogion yn y pen draw yn gyfrifol amdano. Daw mwyafrif arian y Bwrdd drwy grant Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu fframwaith ariannol, rheoli a chynllunio a ddatblygwyd gan y Cynulliad. Fel y nodir yn Adran 4 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, rhaid i'r Bwrdd gydymffurfio â chyfarwyddiadau cyffredinol a phenodol a roir iddo gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ac, o Orffennaf 1 1999 ymlaen, y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae gan y Cynulliad bwerau i drosgwlyddo a diddymu un neu rhagor o swyddogaethau statudol y Bwrdd o dan Adran 28 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Yn yr un modd caiff y Cynulliad drosgwlyddo i'r Bwrdd un neu rhagor o swyddogaethau statudol cyrff cyhoeddus eraill a rhestrir yn Rhannau I a II Atodiad 4 y Ddeddf.

Swyddogaethau

Prif swyddogaeth y Bwrdd yn ôl adran 3 (1) Deddf yr Iaith Gymraeg yw 'hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg.' Wrth gyflawni'r rôl noda adran 3 (2) dair prif ddyletswydd:

- 'cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol (*bellach y Cynulliad Cenedlaethol*) ar faterion ynglŷn â'r iaith Gymraeg'
- 'cynghori personau sy'n ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus ar y ffyrdd o weithredu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth

weinyddu cyfiawnder yng Ngymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal';

- 'yn cynghori'r rheiny a phersonau eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ynghylch defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu hymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru.'

Yn ogystal, o dan adran 4 (1) Deddf yr Iaith mae gan y Bwrdd swyddogaethau ychwanegol yn sgîl cyfarwyddiadau gan y Llywodraeth. Ar y sail hon y rhoddwyd i'r Bwrdd y cyfidoldeb o gymryd gorolwg strategol dros addysg Gymraeg, ac, o 1 Ebrill 1997, dosbarthu grantiau i'r Eisteddfod Genedlaethol, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Ysgolion Meithrin, Cyngor Llyfrau Cymru, ac er hyrwyddo addysg Gymraeg.

Ar sail y dyletswyddau uchod uchod mae'r Bwrdd wedi adnabod pum swyddogaeth graidd:

- Hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg
- Cynghori a dylanwadu ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg
- Ysgogi a goruchwyllo'r broses o baratoi a gweithredu cynlluniau iaith
- Rhoi grantiau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith
- Cadw gorolwg strategol dros addysg Gymraeg

Mae Rhan II y Ddeddf yn manylu ar y broses o baratoi ac adolygu cynlluniau iaith er gweithredu'r egwyddor fod cyrff cyhoeddus sydd yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd neu yn ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys rhai sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru, yn trin y Gymraeg ar sail gyfartal â'r Saesneg "cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol". Gan fod awdurdodau addysg yn gyrff cyhoeddus, gofynnir hefyd iddynt hwythau gyflwyno cynllun datblygu addysg Gymraeg. Nod hyn yw ehangu addysg Gymraeg a sicrhau ei bod ar gael mor hwylus ag addysg Saesneg.

Nid yw'r Ddeddf yn ymwneud â chynllunio iaith yn ystyr gyfoes yr ymadrodd, ond mae adran 3 (3) yn nodi y 'caiff y Bwrdd wneud unrhyw beth sydd sy'n dod o fewn perfformio'i swyddogaethau neu'n eu hyrwyddo'. Ar sail y cymal hwn, ac er mwyn gosod fframwaith polisi i'w weithgareddau a'i flaenoriaethau ariannu corfforaethol, y mae'r Bwrdd wedi mynd ati i lunio strategaethau cynhwysfawr i'r iaith Gymraeg. Ymhlith y rhain y mae:

Amlinelliad o Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg a gyhoeddwyd fel dogfen ymgynghorol yn Rhagfyr 1995

Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg a gyhoeddwyd ar sail yr ymgynghoriad yn Rhagfyr 1996

Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000–2005 a gyflwynwyd i'r Cynulliad yn Nhachwedd 1999

Fframwaith Gweithredu

Amlinellir rhaglen waith y Bwrdd yn ei Gynllun Corfforaethol, a gyhoeddir yn flynyddol ac a gyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac sy'n cael ei weithredu o fewn Cynlluniau Gweithredol blynyddol.

Yn ei bumed Gynllun Gweithredu noda'r Bwrdd y gweithgareddau y bwriedir ymgymryd â hwy yn ystod blwyddyn ariannol 2000–2001:

Adran Goruchwyllo'r broses o baratoi a gweithredu cynlluniau iaith

Mae pwyslais yr adran wedi symud tuag at sicrhau bod cyrff sydd â chynlluniau yn barod yn eu gweithredu'n foddhaol. Felly anelir at dderbyn 97 o gynlluniau monitro oddi wrth restr flaenoriaeth o 350 corff sydd eisoes wedi cyflwyno cynlluniau iaith. Yn ychwanegol, bwriedir derbyn 40 cynllun iaith newydd gyda'r nod o'u cymeradwyo yn ystod y flwyddyn. Bydd yr adran hefyd yn parhau i ddarparu cyngor i gyrff gwirfoddol, cyfleustodau a chyrff eraill a breifateiddiwyd.

Adran Addysg a Hyfforddiant

Bwriad y Bwrdd yw derbyn 6 chynllun addysg gan awdurdodau addysg leol a derbyn 10 adroddiad blynyddol ar gynlluniau a gytunwyd eisoes fel rhan o'i waith statudol. Yn ogystal, mae'n dyrannu grantiau gwerth £2.1 miliwn i awdurdodau addysg lleol i gefnogi a datblygu addysg ddwyieithog. Ymysg gweithgareddau perthnasol eraill mae ffocws yr adran wedi bod ar gynlluniau peilot i drosglwyddo iaith yn y cartref, addysg bellach ac addysg Gymraeg i oedolion.

Adran Grantiau

Prif flaenoriaeth yr adran yw dyrannu a monitro grantiau cyfwerth â dros £2.5 miliwn i brosiectau a sefydliadau sy'n hyrwyddo a hwyluso defnydd y Gymraeg. Yn eu plith mae mentrau iaith, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Ysgolion Meithrin, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Cyngor Llyfrau.

Adran Sector Preifat

Bwriada'r Bwrdd ganolbwyntio ar ymgyrchoedd marchnata i'r sector preifat drwy ddefnyddio deunyddiau hyrwyddo a thargedu sectorau penodol megis cwmnïau dylunio, cynhyrchwyr bwyd a diod, a'r sector arlwyyo a thwristiaeth.

Cynllunio Ieithyddol

Mae prif flaenoriaeth cynllunio corpws y Bwrdd yn canolbwyntio ar gysoni a safoni termau gan gydweithio gyda Gwasanaethau Cyfieithu'r Cynulliad, darparu gwasanaeth gwybodaeth dros y ffôn a chynnal pwyllgor cyfieithu.

Marchnata a Chyfathrebu

Rhoddir blaenoriaeth uwch i waith marchnata'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn gyda'r prif ffocws ar gynnal arolwg cynhwysfawr a chynnal asemiad llawn o ymgyrchoedd marchnata cyfredol i gefnogi'r gwaith ar farchnata dwyieithrwydd i rieni newydd.

A1 / 2: POLISI'R CYNULLIAD

Yn dra gwahanol i'r rhan fwyaf o feysydd polisi, mae gan y Cynulliad hawliau datganoledig, o dan Adran 32 Deddf Llywodraeth Cymru, 'i wneud unrhwybeth a dybia'n briodol i gefnogi'r iaith Gymraeg'. Mae Deddf Llywodraeth Cymru hefyd yn gosod cyfrifoldeb ar y Cynulliad i wneud trefniadau priodol gyda golwg ar sicrhau fod ei swyddogaethau yn cael eu gweithredu yn unol â'r egwyddor o gyfle cyfartal i bawb.

Does hyd yma ddim datganiad cynhwysfawr o strategaeth y Cynulliad ar gyfer yr iaith Gymraeg, ond mae wedi ymrwmo, yn ei gynllun strategol 'gwellcymru.com', i'r nod o feithrin manteision dwyieithrwydd. Er mwyn cyrraedd y nod hwn mae'r Cynulliad wedi gosod tair amcan strategol, sef:

- sefydlogi y canradd o Siaradwyr Cymraeg;
- cynnal y twf yn y nifer o Siaradwyr Cymraeg ifainc; a
- chefnogi oedolion sydd yn dysgu'r iaith.

Yn ystod gaeaf 1999–2000 cynhaliodd y cyn-Bwyllgor Addysg a Hyfforddiant ôl–16 archwiliad byr o bolisi'r iaith Gymraeg. Pasiwyd cynnig gan y Pwyllgor yn sgîl papur ffeithiol ar gyflwr yr iaith gan swyddogion y Cynulliad a chyflwyniad gan ByIG fel a ganlyn:

'Mae'r Pwyllgor yn croesawu dogfen ByIG Yr Iaith Gymraeg: Gweledigaeth a Chenhadaeth 2000–05 fel cyfraniad pwysig i'r dasg o lunio strategaeth er mwyn sicrhau adfywiad yr iaith Gymraeg a chreu Cymru ddwyieithog. Cytuna'r Pwyllgor mai'r pedair prif her yw'r rheini a nodwyd yn y Crynodeb o Safbwynt ByIG a chefnoga'n gryf y pwyslais ar addysg Gymraeg fel sylfaen twf.'

Noda'r Pwyllgor y bydd gwireddu tasg mor uchelgeisiol â chreu Cymru gyfan gwbl ddwyieithog yn golygu llunio strategaeth gydlynol, yn seiliedig ar dargedau, o'r math a ddisgrifiwyd yn nogfen y Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'n daer y nod o greu Cymru ddwyieithog fel nod cenedlaethol cyraeddadwy a dymuna weld gweithredu strategaeth effeithiol er mwyn sicrhau y gwireddir y nod hwn.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y Weithrediaeth yn derbyn dogfen y Bwrdd fel cyfraniad pwysig ac yn ganllaw

i benderfynu ar flaenoriaethau gwaith y Bwrdd yn y dyfodol o fewn yr adnoddau a bleidleisiwyd iddo gan y Cynulliad.

Cafodd y penderfyniad hwn gan y Pwyllgor ôl-16 ei gymeradwyo gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn ar 4 Gorffennaf 2000. Aeth y Cynulliad ati hefyd i:

‘alw ar y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ôl-16 i neilltuo amser yn ei flaenraglen waith cyn gynted ag y bo modd i gynnal adolygiad cynhwysfawr o bolisi'r iaith Gymraeg er mwyn llunio strategaeth ar gyfer y dyfodol’;

‘ymrwyno i fabwysiadu polisiau a fydd yn cynnal cymunedau Cymru ac yn sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg o fewn cymunedau Cymru’;

‘gadarnhau ei gred bod yr iaith Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg, ac yn ymrwymo i gydweithredu â chyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i greu cymaint â phosibl o gyfleoedd i bobl ymhob rhan o Gymru gymryd rhan yn niwylliant a bywyd cyhoeddus dwyieithog Cymru’.

Cafodd cynnig a fyddai wedi gofyn i'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ôl 16 oed i ‘neilltuo amser yn amserlen y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ôl-16 i drafod yr angen am Ddeddf Iaith Newydd i Gymru ac i ystyried beth a ddylai fod mewn deddf o'r fath, gyda golwg ar gyflwyno argymhellion i Lywodraeth y Deyrnas Unedig drwy'r sianeli priodol' ei wrthod gan y Cynulliad.

Yn ganlyniad i'r uchod mae Pwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwareuon y Cynulliad wedi cyhoeddi adolygiad o bolisi'r iaith Gymraeg. Yn ôl y cylch gorchwyl a gytunwyd gan y Pwyllgor:

Bydd adolygiad y Pwyllgor Diwylliant yn ceisio mynd ati i ddiffinio amcan y Cynulliad Cenedlaethol o ‘ greu Cymru ddwyieithog’ yn well. Bydd y Pwyllgor yn anelu i awgrymu strategaeth o weithgareddau er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw.

Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n benodol ar y themâu canlynol:

- Galluogi pobl i ddefnyddio y naill iaith neu'r llall ym mhob agwedd ar fywyd cenedlaethol ac yn eu cymunedau;
- cefnogi'r Gymraeg fel iaith teuluoedd a chymunedau;
- darparu cyfleoedd i bobl ddysgu Cymraeg a Saesneg;
- Hyrwyddo'r un faint o barch ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, a chynnal consensws ac ewyllys da cenedlaethol ynghylch dwyieithrwydd.

Bydd y Pwyllgor yn archwilio gwaith ByIG a bydd hefyd yn astudio rôl a chyfraniad ystod o gyrff eraill. Bydd y rhain yn cynnwys 'asiantaethau sy'n gysylltiedig â datblygu economaidd, mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol, gwella dysgu, a gwella ansawdd bywyd'.

Mae llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol wedi adnabod cefnogaeth i'r Mentrau Iaith Lleol fel blaenoriaeth yn y Cytundeb Partneriaeth. Mewn datganiad yn Nhachwedd 2000 cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg, Jenny Randerson, tair blaenoriaeth ychwanegol, sef:

- mesurau i hyrwyddo trosglwyddiad iaith yn y cartref;
- cyflwyno deddfwriaeth isradd i ymestyn y nifer o gyrff cyhoeddus fydd yn gorfod cyflwyno cynlluniau iaith; ac
- adnoddau ychwanegol er caniatáu i'r Bwrdd gyflogi rhagor o staff.

A1 / 3: DATBLYGIAD DEDDFAU IAITH A SEFYDLU BYIG

Ni bu gan y Gymraeg statws swyddogol na chyfreithiol er Deddfau y Cyfreithiau yng Nghymru, 1535 a 1542, tan Ddeddf Llysoedd Cymru, 1942, y 'ddeddf iaith' gyntaf. Rhoddai honno hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys, pe ceid anfantais trwy beidio â defnyddio'r Gymraeg. Er bod y ddeddf wedi newid statws y Gymraeg, parhaodd amwysedd ynglŷn â hawliau personau a oedd yn gallu siarad Saesneg i fynnu siarad Cymraeg mewn llys tan achos Reg v Ynadon Merthyr Tudful 1967, ac arweiniodd hyn at yr angen i egluro statws y Gymraeg trwy Ddeddf Iaith 1967. Cynnwys y ddeddf oedd:

1. Cydnabod ei bod yn briodol i rhai a ddymunai hynny ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiadau cyfreithiol;
2. Gwneud darpariaeth i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r un effaith â'r Saesneg;
3. Galluogi gweinidog i bennu fersiynau Cymraeg o ddogfennau statudol (ond y Saesneg fyddai drechaf o gael anghysondeb testun).

Roedd yr ymateb yn negyddol ar y cyfan a beirniadwyd y ddeddf, *inter alia*, gan Gyngor yr Iaith Gymraeg (a sefydlwyd ym 1978) ei fod 'heb gael yr effaith a fwriadwyd' sef 'codi statws yr iaith Gymraeg yng Nghymru yn gyfartal ag eiddo'r Saesneg' a'i fod wedi 'dwysáu israddoldeb y Gymraeg'.¹

Argymhellodd yr adroddiad hwn, gan gorff ymgynghorol i'r Llywodraeth, sefydlu corff parhaol i hybu'r iaith:

'Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol wneud datganiad cyhoeddus am ei fwriad i sefydlu corff parhaol yn lle Cyngor yr Iaith Gymraeg ac yn y cyfamser i sefydlu adran arbennig yn y Swyddfa Gymreig.' (t.19)
Byddai'r corff hwn yn gyfrifol am 'oruwchwylio a chyd-gysylltu'r cymorth ariannol a rydd y Llywodraeth i'r iaith', 'nodi ac ymgymryd â gwaith ymchwil...', 'hybu defnyddio'r iaith drwy hysbysebu..' 'darparu gwasanaethau cyfieithu...' a 'talw am waith gan gyrff ar wahân i'r prif awdurdodau sy'n gyfrifol am addysg a'r celfyddydau.'

¹ *Dyfodol yr Iaith Gymraeg*, Cadeirydd Ben G. Jones, 1978

Ni chafodd ei argymhellion fawr effaith yn y cyfnod ond ym 1986 cyflwynwyd mesurau drafft ar Ddeddf Iaith newydd gan yr Arglwydd Gwilym Prys Davies a Dafydd Wigley AS. Dwy flynedd yn ddiweddarach, ym 1988, sefydlwyd ByIG yn gorff ymgynghorol gan y llywodraeth, a chyhoeddodd strategaeth gynhwysfawr yn crynhoi datblygiadau'r gorffennol ac yn nodi amcanion a dyheadau ar gyfer rhaglen y dyfodol.

Nodir y syniad o hawl ieithyddol 'yr hawl, fel cymuned ieithyddol, i greu a chynnal ei sefydliadau ei hun' (2.4), a chrybwyllir y syniad o normaleiddio'r defnydd o'r iaith (2.6). Ceir y nod o greu cymdeithas ddwyieithog (t.6), yr angen am gefnogaeth y llywodraeth, am gyfundrefn i hybu'r iaith, a'r angen am gorff statudol a Deddf Iaith. Nodir yr angen i ehangu cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, strwythur i ddysgu Cymraeg i oedolion, a hyfforddiant perthnasol i alwedigaethau.

Trafodir materion economaidd a chynllunio sy'n effeithio ar iaith, a'r angen am farchnata i newid agweddau cymdeithasol negyddol. Ceir ymwybyddiaeth o enghreifftiau da gwledydd eraill, ee Catalwnia, a nodir yr angen am dargedau mewn gwahanol feysydd er mwyn gweithredu mewn pum cam: ymgynghori, blaenoriaethu, gweithredu, marchnata, adolygu. Nodir yr angen am oruchwyllo a chyllido, gan awgrymu y dylid cael cyllid arbennig ar gyfer prosiectau newydd neu brosiectau penodol, yn hytrach na chyllido gwaith arferol.

Ceir yn yr adroddiad hwn amgyffred eang o oblygiadau cynllunio ieithyddol ar sawl lefel, ac mae'r drafodaeth a'r nodau'n fwy eang na'r hyn a gyflwynir yn argymhellion y Bwrdd am ddeddf, na'r hyn a gafwyd maes o law yn y Ddeddf Iaith ei hun. Gwelir yma gychwyn y ddeuoliaeth rhwng gweledigaeth y Bwrdd a'i gyfrifoldeb ieithyddol eang, a'i faes gweithredu o dan eiriad y Ddeddf.

Ni chafwyd deddf yn caniatáu holl argymhellion y Bwrdd Iaith (a ddynodwyd yn eu mesur iaith drafft a gyhoeddwyd ym 1989). Yn hytrach roedd y Ddeddf yn canolbwyntio ar sefydlu ByIG yn gorff statudol. Ei ddyletswydd fyddai sicrhau fod cyrff cyhoeddus yn trin y Gymraeg ar sail gyfartal â'r Saesneg.

Rhan I:

'Bydd corffolaeth gorfforedig a elwir Bwrdd yr Iaith Gymraeg...'

Nodau'r Bwrdd fydd 'hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg', gan gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol a phobl sy'n gweithredu'n gyhoeddus ar y modd o weithredu'r egwyddor 'wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal', a rhoi cyngor i rai sy'n cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd.

Rhan II:

Mae cyrff cyhoeddus i baratoi cynllun iaith i weithredu'r uchod. Mae cyrff cyhoeddus yn cynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd, sefydliadau addysgol, gwasanaethau cyhoeddus ac yn y blaen. Effaith gyffredinol hyn fu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg.

Am y tro cyntaf cafwyd grym deddf i orfodi cyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau trwy'r Gymraeg, ac mae effaith y ddeddf yn debyg o fod gryn dipyn yn fwy pellgyrhaeddol nag y credai rhai yn y lle cyntaf.

Rhan III

Nodir hawliau defnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd ac mewn achosion cyfreithiol. Gellir defnyddio'r Gymraeg o roi rhybudd o flaen llaw. Ceir rhai cynigion amrywiol eraill.

A1 /4: CYNLLUNIO IEITHYDDOL

sail ddamcaniaethol a'r profiad Cymreig

Mae Cynllunio ieithyddol o safbwynt ieithoedd brodorol sydd o dan fygythiad yn bwnc byd-eang sy'n datblygu'n gyson. Y mae'n ymwneud ag ymdrech ymwybodol a pharhaus dros dymor hir gan lywodraeth i newid swyddogaethau iaith. Cafodd ei sylfaenu ar ddau fath o gynllunio: cynllunio statws a chynllunio corpws, ond mae angen ystyried hefyd ffactorau cymdeithasol ac economaidd annatod wrth lewyrch ieithyddol.

Mae cynllunio statws iaith yn ymwneud yn y lle cyntaf ag ymwrthod â sarhad a gormes a ddioddefodd iaith a achosodd bod iaith arall, estron fel arfer, yn ei disodli mewn meysydd 'uchel' gan beri bod yr iaith frodorol yn cael ei gweld yn iaith israddol. Nod cynllunio statws iaith yw sicrhau i iaith le mewn meysydd uchel a modern sydd yn cyfrannu at y broses hanfodol o gynnal ac adfer iaith ar lefel isel ac uchel. Yn gyfochrog â hyn rhoddir pwyslais yn aml ar y dyheadau cenhedlig ar ran yr iaith frodorol, ac ar hawliau naturiol a dylestwydd i'w defnyddio.

Mae elfen o angen moesol yn hyn. Mae hyn yn ymwneud â chraidd bodolaeth pobl, a phwysigrwydd iaith i bersonoliaeth ac urddas unigolyn mewn byd diwylliedig a gwâr. Yn y byd modern, mae ieithoedd sydd â hunan-barch yn cael eu defnyddio mewn meysydd sydd o bwys yn economaidd, yn y gweithle, mewn swyddfeydd llywodraeth, mewn addysg, ac mewn cyfryngau sy'n hybu llythrennedd.

Yng Nghymru bu'r prif ymgyrchoedd o blaid y Gymraeg ers y chwedegau yn ymwneud â'r maes hwn

Mae normaleiddio iaith frodorol yn derm a glywir yn aml. Y ddamcaniaeth yw bod yr iaith frodorol wedi ei disodli gan iaith estron trwy brosesau allanol a filwriodd yn erbyn datblygiad yr iaith frodorol. Mae'r rhain yn aml yn cynnwys gorfodaeth ieithyddol gan lywodraeth a ystyrir yn estron neu'n allanol, ac ansefydlogi cymdeithasol yn sgîl datblygiadau economaidd cysylltiedig â'r grym allanol. Yn y cyd-destun hwn, ystyr normaleiddio yw adfer i'r iaith frodorol y statws a'r defnydd a fyddai ganddi oni bai am yr ymyrraeth hon. Mae angen ymyrraeth llywodraeth ar

raddfa yr un mor eang a phwerus i adfer cyflwr normal yr iaith frodorol ag a gymerwyd i'w disodli.

Mae'r modd yr alltudiwyd y Gymraeg o'r system gyfraith, llywodraeth ac addysg yng Nghymru, a'r ansefydlogi cymdeithasol a ddigwyddodd yn sgîl mewnfudo ar raddfa fawr yn galw am ymyrraeth lywodraethol sylweddol a pharhaus i unioni sefyllfa'r Gymraeg ar lefel uchel ac yn gymunedol.

Mae cynllunio corpws yn ymwneud â datblygu ffurfiau'r iaith fel ei bod yn addas i'w defnyddio ar lefelau 'uchel', fel addysg, llywodraeth, y gyfraith ac ati. Gall hyn gynnwys agweddau ar ieithwedd a therminoleg.

Ers y chwedegau yng Nghymru rhoddwyd sylw i ffurfiau'r Gymraeg gan ramadegwyr, a datblygwyd terminoleg mewn sawl maes, er na chafwyd cyrff safoni cenedlaethol.

Mae cynllunio caffael iaith yn fath arall o gynllunio iaith a nodir gan rai'n ymwneud ag addysg. Gall hyn gynnwys cyflwyno'r iaith i siaradwyr yr iaith ac i ddysgwyr. Mae hyn yn cynnwys dysgu'r iaith i ddisgyblion ysgol ac i oedolion, ac mae'n rhan hanfodol o unrhyw broses o adfer iaith.

Trwy ymdrechion Rhieni dros Addysg Gymraeg, Mudiad Ysgolion Meithrin ac eraill gwelwyd y niferoedd o blant sy'n gallu siarad y Gymraeg yn codi i 20% mewn blynyddoedd diweddar, ond gyda rhyw 7% yn unig o'r rhain yn dod o gartrefi Cymraeg.

Mae cynllunio iaith yn rhoi sylw i allu ieithyddol unigolion ac i natur ddeulosig gwlad. Lle ceir cyflwr o ddeulosia sefydlog, gyda phrif le i'r naill iaith a'r llall mewn nifer digonol o beuoedd, gellir disgwyl gweld iaith leiafrifol yn llwyddo os oes ganddi nifer digonol o siaradwyr, neu os oes nifer digonol o'r boblogaeth yn ddwyieithog. Mae natur ddeulosig Cymru wedi ei herydu yn y can mlynedd diwethaf, a'r Gymraeg wedi colli tir mewn rhai peuoedd a fu'n allweddol iddi, gan gynnwys y cartref, y gymuned a chrefydd. Yn ystod yr un cyfnod collwyd hanner miliwn o siaradwyr Cymraeg. Er y cafwyd ymdrechion i gynyddu'r nifer o beuoedd lle y gellir defnyddio'r Gymraeg, nid yw'r Gymraeg wedi disodli'r Saesneg yn unrhyw un o'r peuoedd hyn, na dod yn brif iaith ynddynt. Canlyniad hyn yw bod natur ddwyieithog Cymru'n dal yn un ansefydlog. Mae angen cynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg yn

brif iaith a chynyddu'r nifer o beuoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith er mwyn cyrraedd cyflwr o ddwyieithrwydd sefydlog.

Bu'r pwyslais yng Nghymru ar hyrwyddo caffael iaith yn hytrach nag ar ddefnyddio'r Gymraeg yn brif iaith.

Llwyddiannau cynllunio iaith

Ystyrir yn gyffredinol bod ymyrraeth llywodraeth o blaid ieithoedd sydd o dan fygythiad yn allweddol mewn ymdrechion i warchod ieithoedd. Ceir enghreifftiau o gynllunio iaith llwyddiannus ac aflwyddiannus mewn gwahanol wledydd. Edrychir yn gyffredinol at Gatalwnia, Québec a Gwlad y Basgiaid fel enghreifftiau llwyddiannus o warchod ieithoedd, ac yn y tair achos caiff y polisïau iaith gefnogaeth gyffredinol y prif bleidiau gwleidyddol a hynny mewn llywodraethau datganoledig, a chanddynt rym deddfu.

Mae gan wledydd eraill lle mae'r gwrthdaro ieithyddol rhwng ieithoedd wedi ymsefydlogi, a hynny i raddau ar sail ymranïad daearyddol, megis Gwlad Belg a De Tirol, hefyd ddeddfau iaith cadarn a chytundeb gwleidyddol ar y polisïau iaith a ddilynir.

Mae lwerddon, ar y llaw arall, yn cynnig enghraifft bur aflwyddiannus. Mae'r rhesymau'n gymhleth, ond mae'n ymwneud â chysylltu ymdrechion â manau gwledig sy'n ansefydlog yn economaidd ac yn gymdeithasol, a methiant i ddefnyddio'r iaith yn weithredol ar lefel uchel, gan gynnwys y cyfryngau torfol, y llywodraeth a busnes.

Wrth fesur ffyniant ieithoedd lleiafrifol, mesurir ar y naill law ffactorau demograffig sydd yn effeithio ar yr iaith, gan gynnwys ansefydlogi cymdeithasol, mewnfudo ac allfudo, llwyddiant i gadw poblogaeth, cymhareb ieuenctid a henoed, a niferoedd siaradwyr ac ar y llall ymyrraeth gadarnhaol y llywodraeth. Mewn mesur o'r fath mae'r Catalaneg yn eithaf diogel, fel y Ffrangeg yn Québec, y Fasgeg yn elwa o ran cefnogaeth gref ac yn dangos arwyddion o fod yn fwyfwy diogel, ond mae dyfodol y Gymraeg yn dal yn simsan er nad yw hi mewn perygl mawr fel y Llydaweg.

Mae dogfennau ByIG yn nodi dau reswm am farwolaeth iaith, sef diffyg trosglwyddo iaith yn y cartref a methiant

i'w dysgu mewn ysgolion. Mae damcaniaethau ar farwolaeth iaith yn ymwneud â hunanladdiad, lle y mae iaith leiafrifol yn ymdebygu i'r iaith fwyafrifol, a llofruddiaeth iaith, lle y mae gostyngiad niferoedd siaradwyr yn cael ei achosi gan ffactorau economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol cysylltiedig â'r iaith fwyafrifol. Yr ail fath o farwolaeth sydd ar waith yng Nghymru, a bydd methiant o fynd i'r afael â'r ffactorau hyn yn debyg o gynnig cyd-destun anodd a pharhaus i ymdrechion o blaid y Gymraeg.

Ffactorau yn Effeithio ar Ddirywiad ac Adfywiad Iaith

Pam mae shift iaith yn digwydd (yn bennaf yn ôl Fishman):

- erydiad yng ngofod cymdeithasol-ddiwylliannol iaith lle na all iaith leiafrifol wrthsefyll yr iaith fwyafrifol;
- llywodraeth ac awdurdodau'n llusgo traed ar fater hawliau siaradwyr iaith;
- sefydliadau'n gweithredu heb ddefnyddio'r iaith leiafrifol; cysylltiedig â phŵer economaidd/gwleidyddol yn nwylo'r iaith fwyafrifol;
- mewnfudo ac allfudo poblogaeth;
- gwanhad mewn trosglwyddo iaith ar yr aelwyd yn sgîl mewnfudo, ymwelwyr, meddianwyr;
- trefoli, a newid swyddi i rai eisteddol mewn sefydliadau iaith fwyafrifol;
- effaith newidiadau ffisegol/daearyddol ar ddarpariaeth ddiwylliannol yn yr iaith leiafrifol;
- siaradwyr yr iaith leiafrifol yn perthyn i ddosbarth cymdeithasol/economaidd is na siaradwyr yr iaith fwyafrifol, ee gweithwyr yn hytrach na rheolwyr;
- awydd i addysgu a dyrchafu'n gymdeithasol yn arwain at ansefydlogi cymdeithasol;
- mudoledd cymdeithasol yn arwain at dynnu'r talentog o ardaloedd yr iaith leiafrifol;
- ymyrraeth ddiwylliannol yn sgîl twf cyfryngau torfol yr iaith fwyafrifol;
- tanseilio cysylltiadau cenedlig rhwng yr iaith leiafrifol a hunaniaeth;
- y sefydliad yn anwybyddu dyheadau cenedlig cysylltiedig â diwylliant a iaith.


Gellir ychwanegu yn achos Cymru:

- cysylltu'r iaith leiafrifol ag ardaloedd gwledig methiannus yn economaidd;
- priodasau cymysgiaith;
- newidiadau yn y byd cyfathrebu;

- patrymau teithio i'r gwaith.

Mae llawer o'r ffactorau hyn y tu hwnt i faes y cynllunydd iaith, ac yn sicr y tu allan i rôl ByIG. Yn ôl Colin Williams mae hi'n hollbwysig i gynllunwyr iaith ac eraill gydnabod y bydd eu hymdrechion yn dibynnu ar natur fympwyol macro-economeg, grymoedd gwleidyddol a chymdeithasol nad oes ganddynt fawr reolaeth arnynt. Wedi dweud hynny mae'n hanfodol bod cynllunwyr iaith yn llunio polisiau yn sgîl dylanwadau o'r fath, ac i'r graddau y mae'n bosib, yn ceisio llywio ffactorau o'r fath er lles yr iaith.

Ffactorau'n effeithio ar sefydlogrwydd cymdeithasol-ieithyddol:



Dynesiad ByIG at gynllunio ieithyddol

Mae *Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005* ByIG yn nodi llwyddiant cynllunio ieithyddol yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn nodi ffactorau sy'n effeithio ar ieithoedd ledled y byd, gan gynnwys diwydiannu, trefoli, datblygiad economaidd a diwydiannol, mewnfudo ac allfudo, tueddiadau cyfathrebu newydd, cyfryngau torfol, cynnydd mewn teithio, cyfoeth a globaleiddio. Dywedir bod rhan y Bwrdd wedi bod yn hanfodol yn yr ymdrechion ym maes cynllunio iaith yng Nghymru, a nodir cyfraniad y Bwrdd wrth sefydlu partneriaethau ymysg y sector cyhoeddus a

thrwy gyfrwng ei gynllun grantiau yn y sector gwirfoddol a'i waith yn y sector preifat. Nodir cyfraniad y Bwrdd yn y cyfryngau cyfathrebu newydd, trwy ddatblygu Cysill, darparu canllawiau dylunio dwyieithog a CD-ROMau Cymraeg.

Mae gweledigaeth y Bwrdd ar gyfer y dyfodol yn nodi'r angen i roi sylw i gynllunio caffaeliad, cynllunio defnyddio, cynllunio statws a chynllunio corpws a nodir yr angen i weld twf mewn ysgolion Cymraeg ac yn y defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol feysydd, gan gynnwys busnes a'r economi, a rhoddir pwyslais ar farchnata. Cydnabyddir cysylltiad ffyniant economaidd a ffyniant ieithyddol, ond ni roddir sylw manwl i'r modd y bydd y Bwrdd yn ymdrin â'r ffactorau a nodwyd uchod sy'n fygythiad i ieithoedd ledled y byd. Ni roddir sylw i ffactorau megis mewnfudo ac allfudo i ardaloedd Cymraeg, ansefydlogi cymdeithasol, cynllunio gwlad a thref, na chwaith i ddatblygu'r iaith yn y cyfryngau torfol. Mae'r elfennau hyn mewn cynllunio iaith yn ymwneud â ffurfiant cymdeithas, ac iaith yn y gymdeithas, yn hytrach na'r defnydd a wna unigolion o iaith, ac maent ar y cyfan y tu allan i'r rôl a roddwyd i'r Bwrdd gan y Ddeddf Iaith, ac maent yn fylchau amlwg ym maes gweithredu a dylanwad y Bwrdd.

Mae prif weithgareddau'r Bwrdd am gyfnod o dair blynedd 2001/2 hyd 2003/4 yn cael eu hamlinellu o fewn fframwaith strategol drafft sy'n seiliedig ar bedair prif elfen:

Cynllunio Defnyddio

- Datblygu ac ymestyn defnydd y Gymraeg yn y sector preifat
- Marchnata a datblygu hyfforddiant galwedigaethol a defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith
- Hyrwyddo ac arolygu'r defnydd cyfryngol o'r Gymraeg
- Ymestyn a datblygu gweithgareddau ieithyddol
- Cefnogi gweithgareddau Mentrau Iaith
- Cynyddu cost-ffeithiolrwydd adnoddau

Cynllunio Caffaeliad

- Trosglwyddo iaith er mwyn hybu rhieni i siarad Cymraeg â'u plant

- Strategaeth a darpariaeth addysg cyn-ysgol
- Strategaeth ar gyfer cynyddu darpariaeth addysgofal
- Hyrwyddiad dilyniant o rieni i blant
- Addysgu a dysgu mewn cyd-destun dwyieithog
- Hyrwyddo sgiliau amlieithog
- Cynllunio strategol ar gyfer anghenion addysgol arbennig
- Hyrwyddo addysg ieithyddol Gymraeg
- Cynnal a chyflawni arolwg o addysg yr iaith Gymraeg
- Addysg am oes/Cymraeg i Oedolion

Cynllunio Statws

- Cynnal arolwg o baratoi a chyflawni cynlluniau ieithyddol Cymraeg a darpariaeth gwasanaethau dwyieithog
- Defnyddio'r Gymraeg mewn gweinyddiaethau cyhoeddus
- Datblygu dolennau cynllunio iaith
- Sicrhau statws cyfoes i'r iaith

Cynllunio Corpws

- Datblygu a safoni terminoleg, a datblygu math o Gymraeg sy'n boblogaidd
- Datblygu'r proffesiwn cyfieithu

Mae gwaith gan gymdeithasegwyr iaith yng Nghymru a mannau eraill bellach yn pwysleisio'r angen am gynllunio iaith holistaidd, lle mae datblygiad economaidd, cynllunio gwlad a thref, effaith twristiaeth ac yn y blaen yn annatod o ystyriaethau ieithyddol. Lle y bo'r rhain yn cyfrannu at amodau sy'n ffafriol i sefydlogi cymunedau ieithyddol, gall polisiâu ieithyddol penodol a geir yn sgîl cynllunio statws, defnydd a chaffaeledd ddisgwyl llwyddo. Mae'n amlwg nad yw'r fframwaith statudol presennol yn caniatáu i FyIG ddylanwadu'n rymus yn y meysydd hyn er cyrraedd dibenion cynllunio ieithyddol.

Yn wyneb hyn byddwn yn ail rhan yr Adolygiad yn awyddus i edrych ar rôl y Bwrdd yn gweithredu fel cydlynnydd a symbylydd partneriaethau a rhwydweithiau er ymestyn a uchafu ei allu i greu cymunedau iaith hyfyw a chynaliadwy i'r dyfodol. Yn ymarferol golyga hyn asesu adnoddau a sgiliau er adeiladu perthynasau a phartneriaethau, adeiladu galluoedd eraill i weithredu, monitro newidiadau yn yr amgylchedd allanol ac hunan-werthuso parhaus o effeithioldeb ac effeithlonrwydd.

A1/5: AROLWG ARFER MEWN GWLEDYDD/ RHANBARTH AU ERAILL

GWLAD Y BASGIAID

<u>Gwlad/Talaith/ Rhanbarth</u>	<u>CYMUNED YMREOLUS Y BASGIAID</u>
<u>Deddf/au iaith</u>	<u>Oes 1982</u>
<u>Statws iaith</u>	<u>swyddogol</u>
<u>Cyfrifoldeb</u>	<u>llywodraeth</u>

Mae ByIG yn cyfateb i Adran Normaleiddio y Gwasanaethau
Cyhoeddus

Pasiwyd deddf iaith Cymuned Ymreolus Gwlad y Basg ym 1982. Ymhlith ei phrif elfennau oedd:

1. Yr iaith Fasgeg fydd yr iaith 'normal'.
2. Bydd Sbaeneg a Basgeg yn swyddogol.
3. Bydd hawl gan bawb i ddefnyddio Basgeg yn gyhoeddus, ac yn y llysoedd.
4. Rhaid i ffurflenni fod yn ddwyieithog.
5. Bydd angen Basgeiddio'r wlad a'r weinyddiaeth.
6. Ehangu'r defnydd o'r iaith yn y cyfryngau:

Erthygl 5.c: 'Bydd hawl i dderbyn yn yr iaith Fasgeg cyhoeddiadau, rhaglenni teledu a radio a dulliau cyfathrebu eraill';

Erthygl 25: 'Bydd y Llywodraeth yn ... mabwysiadu mesurau a fydd yn arwain at hyrwyddo ... defnydd yr iaith Fasgeg ... ar y radio, yn y wasg a chyhoeddiadau, yn y sinema, y theatr a sioeau cyhoeddus, ac mewn dulliau atgynhyrchu clywedol'; 7. Cynllun dysgu'r iaith ac ehangu'r defnydd ohoni mewn ysgolion:

Erthygl 5.b: 'Yr hawl i dderbyn neu yr hawl i gael addysg yn y ddwy iaith';

Erthygl 15: 'Hawl pob myfyriwr i gael ei (d)dysgu trwy gyfrwng naill ai'r Fasgeg neu'r Sbaeneg';

Erthygl 28: 'Bydd y Llywodraeth yn hyrwyddo dysgu Basgeg i oedolion';

Erthygl 20: 'Bydd y Llywodraeth ... yn sefydlu'r dulliau hynny sy'n tueddu tuag at Fasgeiddio cynyddol o'r staff addysgu';

Mae'n amlwg bod y Ddeddf hon yn anelu at nodau lefel uchel (defnydd swyddogol o'r iaith) a lefel isel (defnydd o'r iaith ymysg pobl yn gyffredinol), gyda chryn bwyslais ar weithgareddau a fydd yn peri fod y defnydd o'r Fasgeg yn cael ei normaleiddio fel iaith arferol mewn agweddau hanfodol o fywyd modern yn ogystal â llywodraeth ac addysg. Mae'r hyn a ddigwyddodd yn sgîl y ddeddf hon, o ran cefnogaeth ariannol i weithgareddau'n ymwneud â'r iaith yn aruthrol o'i gymharu â datblygiadau yng Nghymru yn yr un cyfnod. Gwelwyd twf sylweddol iawn yn nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg gynradd trwy'r Fasgeg neu'n ddwyieithog. Ym 1999–2000, cynhaliwyd 138 o ganolfannau iaith gyda 41,837 o oedolion yn derbyn


addysg yn y Fasgeg ynddynt. Ers y cychwyn, bu teledu Basgeg yn darlledu yn yr iaith honno drwy'r dydd. Cynyddodd y nifer o lyfrau Basgeg o ddyrmaid i fwy na 1,000 y flwyddyn. Yn y brifysgol, dysgir 50% o'r modiwlau trwy'r Fasgeg, gyda'r nod o gynnig 80% o'r cyrsiau trwy'r iaith cyn pen 5 mlynedd.

Sefydlwyd Adran Ddiwylliant yn rhan o'r llywodraeth yng Ngwlad y Basgiaid, a'r adran honno'n gyfrifol am ddatblygu polisiau a weithredir gan sawl is-adran. Mae'r rhain yn cynnwys HABE, y corff sy'n gyfrifol am ddysgu'r iaith i oedolion, Is-adran Diwylliant, Ieuencid a Chwaraeon, ac Is-adran Polisi Iaith sydd yn ei thro'n dosbarthu ei gwaith i dair is-adran arall, sef Adran Astudio a Gwybodaeth, Adran Hybu'r Fasgeg ac Adran Normaleiddio Iaith yn y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae Kontseilua, Cyngor yr Iaith Fasgeg, yn gymdeithas ymbarél i nifer sylweddol o gyrff gwirfoddol sy'n hybu'r Fasgeg mewn gwahanol ffyrdd nid annhebyg i fwriadau'r mentrau iaith yng Nghymru. Roedd cyllid y Kontseilua ym 1999-2000 oddeutu £200 miliwn.

CATALWNIA :

<u>Gwlad/Talaith/ Rhanbarth</u>	<u>CATALWNIA</u>
<u>Deddf/au iaith</u>	<u>Oes 1983 a 1998</u>
<u>Statws iaith</u>	<u>swyddogol</u>
<u>Cyfrifoldeb</u>	<u>llywodraeth</u>



Mae'r Bwrdd Iaith yn cyfateb yn fras i un is-adran o'r gwasanaeth normaleiddio.

Pasiwyd y ddeddf iaith Gatalanaidd yn wreiddiol ym 1983. Ymhlith y prif bwyntiau:

1. Catalaneg fydd iaith Catalwnia.
2. Catalaneg fydd yr iaith swyddogol (ond Sbaeneg trwy wladwriaeth Sbaen).
3. Bydd defnyddio'r ddwy iaith yn normal a swyddogol.
4. Amddiffynnir Araneg hefyd.
5. Hawl a rheidrwydd dysgu Catalaneg mewn ysgolion.
6. Hybu dysgu'r iaith i oedolion.
7. Sefydlu ffurfiau iaith addas (cynllunio corpws)
8. Hawliau i'r iaith mewn addysg uwch.
9. Hybu'r iaith yn y cyfryngau.

Yng Nghatalwnia, mae Cyfarwyddfa Gyffredinol Polisi Iaith (crëwyd 1980) o fewn Adran Ddiwylliant y llywodraeth yn gyfrifol am ddatblygu deddfwriaeth ieithyddol yn unol â'r Statud Ymreolaeth, ac i sicrhau gweithredu polisi'r llywodraeth. Rhennir y gyfarwyddfa'n dri gwasanaeth: gwasanaeth normaleiddio iaith, gwasanaeth iaith ymgynghorol a Sefydliad Cymdeithaseg Iaith Catalwnia. Cafwyd sefydliadau eraill i fod yn gyfrifol am rannau o'r gwaith, ee Termcat, i fod yn gyfrifol am ddatblygu

terminoleg, mewn cydweithrediad ag eraill. (Byddai hyn yn debyg i'r nod a fu gan FyIG o sefydlu uned safoni iaith.) Rhoddir pwyslais mewn diweddariad o'r ddeddf (13 Chwefror, 1986) i sefydlu rhwydwaith i hybu normaleiddio iaith, mewn awdurdodau lleol. Erbyn diwedd 1989 roedd 101 o wasanaethau lleol normaleiddio iaith ar waith.

Sefydlwyd Consortiwm Normaleiddio Iaith yn Hydref 1988, yn gorff cyfreithiol wedi ei sefydlu gan y senedd ac awdurdodau lleol. Yn 1992 cafwyd cytundeb cydweithredol rhwng yr Adran Ddiwylliant a Siambrau Masnach, Diwydiant a Mordwyo i normaleiddio'r iaith yn eu sefydliadau. Cafwyd cytundebau hefyd ag Adrannau Twristiaeth, Gwaith ac Undebau Llafur yn yr un modd.

Yn ystod y cyfnod hwn cafwyd ymgyrchoedd blynyddol i hybu'r iaith, gan ganolbwyntio ar wahanol sectorau yn eu tro, ee 1986/7 sector arlwy, 1987 siopau, 1988 cadwynau uwchfarchnadoedd, marchnadoedd a garejys, 1989 chwaraeon, 1992 dybio ffilmiau, 1994 gyrru ceir. Yr un pryd sefydlwyd mwy nag un orsaf deledu a radio.

Wedi sefydlu Sefydliad Cymdeithaseg Iaith Catalwnia yn 1980 cafwyd ymchwil gyson ar y sefyllfa sosio-ieithyddol mewn gwahanol feysydd.

Ar 7 Ionawr 1998, gweithredwyd Deddf Rhif 1/1998 ar bolisi iaith i gymryd lle Deddf Rhif 7/1983, ar normaleiddio ieithyddol yng Nghatalwnia. Yn ôl y Rhagarweiniad, roedd y ddeddfwriaeth bellach yma i'w hystyried fel:

- neges wleidyddol;
- gwelliant ddeddfwriaethol; ac
- eglurhad cysyniadol.

'Fel neges benodol, mae hi [y ddeddf] yn mynegi ewylllys wleidyddol y Generalitat (Llywodraeth Ymreolus Catalwnia) i barhau i hyrwyddo'r broses o adfer y Gatalaneg a'i phresenoldeb ym mhob sector o fywyd cymdeithasol y wlad ac y mae'n addewid ddwys i iaith y wlad gan sefydliadau Catalwnia.'

Effaith y ddeddf newydd yw cadarnhau ac ymestyn darpariaethau'r ddeddf gynharach, yn enwedig yn y sector preifat, y cyfryngau torfol, meysydd socio-economaid ac yn y blaen, a dwysáu iawnderau'r unigolyn i ddysgu'r

ddwy iaith [Catalaneg a Sbaeneg] a'u defnyddio'n rhydd ym mhob gweithgaredd cyhoeddus a phreifat gyda dilysrwydd llawn ac effeithlonrwydd cyfreithiol'.

Mae sefyllfa Catalwnia, wrth gwrs, yn wahanol iawn i ieithoedd lleiafrifol eraill Ewrop, gan fod nifer y siaradwyr mor fawr, a'r nod yw cael cydnabyddiaeth Ewropeaidd swyddogol.

QUÉBEC

<u>Gwlad/Talaith/ Rhanbarth</u>	<u>QUÉBEC</u>
<u>Deddf/au iaith</u>	<u>Oes</u>
<u>Statws iaith</u>	<u>swyddogol</u>
<u>Cyfrifoldeb</u>	<u>llywodraeth</u>

Diweddarwyd Siarter yr Iaith Ffrangeg ym 1996. Cydnebydd ar y cychwyn mai'r iaith Ffrangeg sydd wedi rhoi mynegiant i hunaniaeth pobl Québec, a nod y ddeddf yw 'gwneud yr iaith Ffrangeg yn iaith Llywodraeth a'r Gyfraith, yn ogystal â iaith bob dydd a normal gwaith, addygu, cyfathrebu, masnach a busnes'.

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi blaenoriaeth ddaearyddol i'r Ffrangeg, a'r flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r Ffrangeg er y cyhoeddir deddfau a materion eraill yn y Saesneg hefyd.

Rhaid i'r gwasanaethau cyhoeddus a chorfforaethau proffesiynol ddefnyddio'r Ffrangeg. Rhaid i bob cyflogwyr ddefnyddio dogfennau Ffrangeg wrth gyfathrebu â staff, a cheir nifer helaeth o reoliadau eraill, ee ni chaiff neb ei (d)diswyddo am ddiffyg gwybodaeth o unrhyw iaith heblaw'r Ffrangeg. Rhaid i enwau cwmnïau fod yn Ffrangeg.

Ceir Conseil de la Langue Française sy'n cynghori'r Gweinidog ar faterion yn ymwneud â'r Ffrangeg, ac sy'n cadw golwg ar ddatblygiadau.

Mae'r fframwaith statudol a chymdeithasol yng Nghanada a Québec yn bur wahanol i'r hyn a geir yng Nghymru ond gellid dadlau bod angen ar Gymru rai rhanbarthau lle y

gellir pennu'r Gymraeg yn brif iaith, er mwyn rhoi i'r Gymraeg droedle lle nad yw'n gorfod cystadlu'n feunyddiol â'r Saesneg ar delerau anffafriol. Byddai hyn yn rhoi statws daearyddol i'r Gymraeg nad yw ar gael heddiw.

Mae'r syniad hwn yn groes i'r rhan fwyaf o'r datblygiadau a welwyd yng Nghymru hyd yma, er bod rhai awdurdodau lleol yn gweinyddu yn y Gymraeg yn hytrach na'r Saesneg. Dadleuwyd mewn adroddiadau o bryd i'w gilydd dros ganolbwyntio ymdrechion ieithyddol mewn ardaloedd Cymraeg, o ran busnes a masnach, ond ni chafwyd cytundeb ar hyn. Yn hytrach mae cynlluniau cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n ymwneud â phob rhan o'r wlad, gydag amrywiadau lleol yn bosibl.

Gwledydd/taleithiau/rhanbarthau eraill:
Estonia

<u>Gwlad/Talaith/ Rhanbarth</u>	<u>ESTONIA</u>
<u>Deddf/au iaith</u>	<u>Oes 1989</u>
<u>Statws iaith</u>	<u>swyddogol</u>
<u>Cyfrifoldeb</u>	<u>llywodraeth</u>

Prif nodweddion:

1. Hawl pob unigolyn i gyathrebu yn Estoneg
2. Estoneg fydd iaith cyfathrebu busnes a llywodraeth
3. Cyhoeddir pob deddf yn Estoneg
4. Bydd dogfennau ariannol yn Estoneg
5. Gwarantir addysg Estoneg ym mhob maes o'r cwricwlwm hyd at addysg uwch
6. Gwarantir Estoneg yn y cyfryngau torfol
7. Cyfieithir ffilmiau a deunydd arall tramor i'r Estoneg
8. Estoneg fydd iaith arwyddion a chyhoeddiadau
9. Rhaid i nwyddau a werthir gynnwys manylion Estoneg
10. Rhoddir hawliau i ieithoedd eraill

Gweithredir gan Fwrdd Iaith Cenedlaethol Estoneg – nod:
rhoi lle uwch i'r Estoneg na'r Rwsieg

Gwledydd/taleithiau/rhanbarthau eraill: De Tirol

<u>Gwlad/Talaith/Rhanbarth</u>	<u>DE TIROL (Almaeneg)</u>
<u>Deddf/au iaith</u>	<u>Oes</u>
<u>Statws iaith</u>	<u>swyddogol</u>
<u>Cyfrifoldeb</u>	<u>llywodraeth</u>

Seiliedig ar wahanu ieithyddol, gyda dwyieithrwydd, lle mae'r naill iaith a'r llall yn brif iaith i un o'r carfannau. Rhaid i allu ieithyddol gweithwyr llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus gyfateb i nifer siaradwyr y naill iaith a'r llall. (Cymharer Cymru: 20% siaradwyr Cymraeg, ond 3% o weision sifil y Cynulliad yng Nghaerdydd, ac eithrio Swyddfa'r Llywydd, yn rhugl yn yr iaith.)

Gwledydd/taleithiau/rhanbarthau eraill: Gwlad Belg

<u>Gwlad/Talaith/Rhanbarth</u>	<u>BELG</u>
<u>Deddf/au iaith</u>	<u>Oes</u>
<u>Statws iaith</u>	<u>swyddogol</u>
<u>Cyfrifoldeb</u>	<u>llywodraeth</u>

Seiliedig ar raniad daearyddol, gyda Brwsel yn ddwyieithog: lle i'r naill iaith a'r llall fel prif ieithoedd gwahanol ardaloedd.

Gwledydd/taleithiau/rhanbarthau eraill: Ffrainc

Llydaweg: dim statws cyfreithiol

Catalaneg: dim statws cyfreithiol

Basgeg: dim statws cyfreithiol

A1/6: CYFLWR YR IAITH GYMRAEG

Yr iaith yng Nghymru er 1993 (Deddf yr Iaith a sefydlu ByIG)

Mae hi'n anodd mesur yn union yr hyn sydd wedi digwydd i'r iaith er 1993. Bydd rhaid aros am ganlyniadau Cyfrifiad 2001 cyn gwybod hyn. Wedi dweud hyn, mae angen astudiaeth fanylach o wybodaeth o'r Gymraeg ac o'r defnydd arni nag a geir yn y Cyfrifiad. Mae Arolwg Cymdeithasol 1992, Arolwg Tŷ 1997 a gwaith Glyn Williams a Delyth Morris yn cynnig y math o wybodaeth y mae angen amdani i ganfod tueddiadau ac i gynllunio.

Mae Bwrdd yr Iaith yn honni fod y Gymraeg bellach yn un o ieithoedd bach mwyaf diogel y byd. Er y gall hyn fod yn wir, nid yw'n golygu nad oes fygythiad i'w dyfodol. Yn wir, rhagwelir diflaniad mwy na hanner ieithoedd presennol y byd yn ystod y ganrif hon. Mae gwaith a wnaed ym mhrosiect *Euromosaic*, 1996, yn mesur ffactorau'n ymwneud ag atgynhyrchu'r iaith yn y gymuned ac yn y teulu, yn gosod y Gymraeg tua'r canol ymhlith ieithoedd lleiafrifol Ewrop, yn gyfartal â'r Fasgeg, gyda'r Gatalaneg a Lwcsembwrgeg yn gryf iawn, Galiseg yn eitha cryf, ond yr Wyddeleg yn gymharol wan.

Cyrff cyhoeddus

Mae tystiolaeth gynyddol bod awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus ledled Cymru'n defnyddio'r Gymraeg yn fwy parod na chynt. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y modd y ceir gwasanaeth Cymraeg ganddynt, ac yn y nifer cynyddol o ddsbarthiadau a gynhelir i ddysgu sgiliau iaith yn y gweithle. Nid yw'r Gymraeg, serch hynny, yn cael ei gweld yn gymhwyster hanfodol mewn llawer swydd lle y gellid disgwyl hyn.

Addysg

Mae'r nifer o blant sy'n mynychu ysgolion cynradd Cymraeg wedi aros yn lled sefydlog, tua 20%, yn ystod y deng mlynedd diwethaf, ac unrhyw gynnydd yn ganlyniad ymgyrchu taer gan rieni, fel y gwelwyd yn ddiweddar yn Abertawe, Casnewydd a Sir Fynwy. Bu'r angen i gyflwyno

cynlluniau datblygu addysg Gymraeg, serch hynny, yn ddylanwad cadarnhaol. Gwelwyd ychydig gynnydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau oed 16 ac 18 trwy'r Gymraeg, ond mae'r niferoedd sy'n sefyll arholiadau addysg bellach ac uwch yn dal yn druenus o fach, o dan 2%.

Sector preifat

Yr argraff a geir yw bod nifer cynyddol o fusnesau'n defnyddio'r Gymraeg yn weledol. Mater arall yw a ydyw'r Gymraeg yn dod yn iaith weinyddol a gweithredol yn y sectorau hyn.

Y Cynulliad

Mae sefydlu systemau dwyieithog yn y Cynulliad yn allweddol yn y broses o roi i'r Gymraeg statws ar lefel llywodraeth. Serch hynny, mae rhai sy'n cysylltu â'r Cynulliad yn y Gymraeg yn profi oedi hir cyn derbyn ateb, a methwyd ag ystyried adroddiad a gyflwynwyd yn y Gymraeg gan y Cynulliad am ei bod yn Gymraeg. Nid yw'r Gymraeg wedi dod yn iaith weinyddol fewnol yn y Cynulliad, a heb i hyn ddigwydd bydd y Gymraeg yn iaith eilradd o ran statws uchel.

Arolygon

Mae arolygon a gynhaliwyd ar ran y ByIG yn dangos bod canran uchel o boblogaeth Cymru'n gefnogol i'r iaith, a hanner am i'w plant ei siarad.

Y Gymraeg yn iaith gyntaf

Mae gwaith a wnaed ar fesur y nifer o cartrefi Cymraeg yn dangos bod cwmp parhaus yn sgîl ffactorau fel priodasau cymysgiaith ac ansefydlogi cymdeithasol. Mae cynllunio ieithyddol yng Nghymuned Ymreolus y Basgiaid a Chatalwnia'n rhoi pwys ar ddatblygu'r iaith yn brif iaith nifer cynyddol o'r boblogaeth. Tuedd cynnyrch hyrwyddo'r Bwrdd Iaith yw pwysleisio dwyieithrwydd yn hytrach na defnyddio'r Gymraeg yn brif iaith.

Sefyllfa'r Gymraeg mewn ardaloedd o natur ieithyddol wahanol

Ardaloedd llai Cymraeg

Mae ardaloedd y gellir eu hystyried yn ardaloedd di-Gymraeg wedi lleihau'n ddirfawr yn sgîl twf addysg Gymraeg, ac ysgolion Cymraeg bellach i'w cael ym mhob sir yng Nghymru, gan gynnwys darpariaeth am y tro cyntaf yng Nghasnewydd a Mynwy. Un ffactor newydd o bwys oedd cyflwyno'r Gymraeg yn bwnc gorfodol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi Deddf Addysg 1988.

Mae ardaloedd llai Cymraeg yn cynnwys dau fath o ardal:

Ardaloedd a gollodd y Gymraeg bron yn llwyr

Gwelwyd twf cynyddol mewn addysg Gymraeg mewn ardaloedd a gollodd y Gymraeg bron yn llwyr. Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd o Went, Fflint, Penfro, Caerdydd a chymoedd Morgannwg. Bu cynnydd y Gymraeg yng Nghaerdydd yn gysylltiedig â thwf sefydliadau cenedlaethol a ddenodd siaradwyr Cymraeg o bob cwr o'r wlad ac a gadwodd siaradwyr Cymraeg lleol yn eu hardal, ond bu'r twf yn y Gymraeg yn y cymoedd ac yng Ngwent yn gysylltiedig ag awydd rhai di-Gymraeg i adfeddiannu'r iaith.

Mynegwyd pryder gan rai nad yw'r siaradwyr newydd yn yr ardaloedd hyn yn cael digon o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn ysturlon y tu allan i'r system addysg. Mae Mentrau iaith wedi dechrau rhoi sylw i'r diffyg hwn, ac mae cyfryngau torfol yn cyflwyno'r iaith yn yr ardaloedd hyn mewn modd anlleol ar y cyfan, ond mae Radio Cymru wedi arloesi wrth gynnal gweithgareddau penodol llwyddiannus.

Mae tuedd i bolisiau cyrff cyhoeddus fod yn arwynebol yn y rhannau hyn o Gymru, ond gall cynyddu cyswllt â'r Gymraeg fod yn gam cyntaf at ei defnyddio'n weithredol. Mae lle i FyIG ystyried rôl o annog diwylliant poblogaidd Cymraeg ymysg ieuenctid yn osgystal â hybu sgiliau dwyieithog yn y gweithle yn yr ardaloedd hyn. Yn y pen draw mae angen cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg trwy'r system addysg yn y lle cyntaf i greu trwch digonol o ddarpar ddefnyddwyr.

Ardaloedd lle y mae'r Gymraeg wedi dirywio'n ddiweddar.

Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys ardaloedd lle mae canrannau sylweddol o siaradwyr hŷn yn dal i allu siarad yr iaith. Mae'r rhain yn cynnwys rhai o gymoedd y de, megis Cwm Dulais a Chwm Tawe a Llanelli. Mae'r ardaloedd hyn yn debyg o arddangos dirywiad o ran agwedd at y Gymraeg, gwahaniaeth rhwng llythrennedd a gallu siarad, ac mae arferion ieithyddol pobl ifanc o safbwynt y Gymraeg yn gallu bod yn wannach na rhai eu

cyfoedion mewn ardaloedd llai Cymraeg, o bosib am fod y Gymraeg yn gysylltiedig â hen genhedlaeth ac â diwylliant a ystyrir yn henffasiwn. Anhawster arall yw'r dirywiad economaidd a welwyd yn llawer o'r ardaloedd yma. Mae natur ysgolion lleol gyda phrinder o ysgolion wedi eu dynodi'n ysgolion Cymraeg penodedig yn gallu milwrio yn erbyn cynnydd yng ngallu ieithyddol plant.

Yn yr ardaloedd hyn mae angen cryfhau'r Gymraeg fel prif iaith ysgolion a chysylltu hyn â chryfhau'r Gymraeg mewn canolfannau cymdeithasu.

Ardaloedd traddodiadol Gymraeg

Mae arolygon o ddefnydd o'r Gymraeg yn nodi'r defnydd cadarnhaol o'r Gymraeg a wneir gan drigolion yr ardaloedd hyn. Mae cryfder y Gymraeg yn y gymuned yn ffactor sy'n dal i gyfrannu at ddefnyddio'r Gymraeg yn brif iaith neu'n iaith weithredol gan y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg. Mae sefydlu ysgolion penodedig Cymraeg a hybu'r iaith mewn ysgolion ardal wedi bod o fudd i feithrin y Gymraeg.

Wedi dweud hyn mae daearyddwyr wedi nodi enciliad ardaloedd lle mae mwy nag 80% yn siarad yr iaith nes bod y rhain yn agos at ddiplannu'n llwyr. Gwelir dirywiad yn y defnydd o'r iaith mewn ardaloedd â llai nag 80% yn ei siarad, yn sgîl ansicrwydd ynghlŷn ag iaith gyfathrebu.

Ardaloedd lled-ddiwydiannol

Mae ardaloedd o'r fath yng Ngwynedd a Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin. Ar yr ochr gadarnhaol gwelwyd ymdrechion gan fentrau iaith a gwahanol fudiadau i gryfhau rhwydweithiau cymunedol Cymraeg yr ardaloedd hyn. Nid yw'r ardaloedd hyn, fodd bynnag, yn sefydlog o bell ffordd, a gwelwyd newid ieithyddol o fewn cenedlaeth mewn ardaloedd fel Dyffryn Aman, ardal wledig Llanelli, gogledd Sir Benfro a rhannau o'r hen Sir Ddinbych. Mae dirywiad economaidd llawer o'r ardaloedd hyn yn cyfrannu at ansefydlogi cymdeithasol. Yn sgîl hyn cafwyd gostyngiad mewn canfyddiad o werth y Gymraeg fel iaith ymarferol yn ardaloedd ffiniol y 'fro Gymraeg', a thuedd ymhlith ieuenctid i'w defnyddio'n wannach na siaradwyr Cymraeg ardaloedd llai Cymraeg. Mae gan hyn

oblygiadau o ran cysylltiad iaith ag adfywiad economaidd, a hefyd o ran marchnata a chodi hyder. Unwaith eto mae angen rhoi pwyslais ar gryfhau'r Gymraeg yn y system addysg, yn enwedig mewn addysg bellach, a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn canolfannau cymdeithasu.

Ardaloedd gwledig

Mae llawer o'r ardaloedd Cymraeg mewn ardaloedd gwledig. Mae ardaloedd o Gaernarfon, Meirion, Môn a Chaerfyrddin yn perthyn i'r dosbarth hwn. Mae llawer o'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg i'w gweld yn yr ardaloedd hyn, ond mae tystiolaeth y gwelir dirywiad yn y Cyfrifiad nesaf.

Mae diboblogi'n ffactor cyson, ac mae gwendid yr economi gwledig, gan gynnwys ffermio a gweithgareddau cysylltiedig, a diffyg cyfleoedd swyddi i bobl ifainc â sgiliau ymarferol neu academaidd, wedi achosi allfudo parhaus.

Yn sgîl hyn cafwyd gostyngiad mewn lefelau incwm, a phwysau cynyddol gan rai o'r tu allan ar y farchnad dai. Mae dirywiad y sylfaen economaidd ynghlwm wrth brosesau ansefydlogi cymdeithasol, ac yn arwain at ddisodli poblogaeth frodorol nifer o'r ardaloedd hyn, gydag effeithiau andwyol amlwg ar y Gymraeg.

Mewn argyfwng o'r fath dylai fod gan FylG rôl allweddol mewn datblygu economaidd ar y cyd â phartneriaid yn y maes, a dylai hwn fod yn fater o'r pwys mwyaf i'r Cynulliad Cenedlaethol.

ATODIAD 2: CYFLWYNIAD YSGRIFENEDIG BWRDD YR IAITH I'R ADOLYGIAD PUM MLYNEDD

A2/1 Rhagymadrodd

- 1.1 Mae'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Pum Mlynedd, a gyhoeddwyd gan y Cynulliad ym mis Mai 2000, yn nodi mai un rhan o'r Adolygiad Strategol o bob corff fydd *'asesiad gan y corff ei hun sy'n ymchwilio i'r sail resymegol dros ei fodolaeth, dadansoddi ei berfformiad strategol yn y gorffennol (gan gynnwys yr hyn sydd wedi ei gyflawni ganddo a sut), darparu gwerthusiad o'i sefyllfa bresennol a sut mae'n bwriadu sicrhau ei effeithiolrwydd strategol dros y 5 mlynedd nesaf'*.
- 1.2 Mae'r papur hwn yn cynnig asesiad strategol ByIG yn unol â'r gofyn hwn. Yr Adolygiad Strategol yw rhan gyntaf yr Adolygiad Pum Mlynedd, ac fel mae'r Cylch Gorchwyl o Adolygiad y Bwrdd yn ei nodi, mae'n cael ei gynnal yng nghyd-destun cynllun strategol y Cynulliad *gwellcymru.com*. Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi hefyd fod dau gam i'r Adolygiad Strategol. Bydd y cam cyntaf yn ystyried *'yng ngoleuni dyletswyddau statudol ByIG ac amcanion y Cynulliad Cenedlaethol, a oes angen holl swyddogaethau'r Bwrdd bellach ac os oes, ai'r fframwaith trefniadol presennol yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r swyddogaethau hynny'*. Bydd y cam hwn yn arwain at adroddiad interim ar swyddogaethau'r Bwrdd, ac yn amodol ar y darganfyddiadau yn yr adroddiad hwnnw, bydd yr ail gam yn ystyried effeithiolrwydd strategol y Bwrdd: yn benodol, *'a ddylid gwneud unrhyw welliannau i'r ffordd y cyflawnir swyddogaethau ByIG, o ystyried ei swyddogaethau statudol a gwerthoedd ac amcanion y Cynulliad Cenedlaethol, a'r ffordd y mae'r berthynas rhyngddo a'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio'*.
- 1.3 Mae adran 2 isod yn crybwyll swyddogaethau'r Bwrdd ac yn gosod allan y sail resymegol dros ei fodolaeth, tra bo'r adrannau dilynol yn delio â pherfformiad y Bwrdd a'i effeithiolrwydd strategol.

A2/2. Swyddogaethau'r Bwrdd a'r sail resymegol dros ei fodolaeth

Y fframwaith statudol

- 2.1 Cafodd ByIG ei sefydlu fel corff statudol anadrannol dan nawdd y Swyddfa Gymreig ar 21 Rhagfyr 1993 gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (Dogfen 1 - heb ei chynnwys yn yr adroddiad hwn). Mae tair rhan i'r Ddeddf:
 - Rhan I sy'n ymwneud yn benodol â sefydlu'r Bwrdd;
 - Rhan II sy'n ymwneud â pharatoi cynlluniau iaith Gymraeg gan gyrrff cyhoeddus;

- Rhan III sy'n delio â darpariaethau amrywiol, gan gynnwys y Gymraeg mewn achosion cyfreithiol, enwau a ffurflenni statudol, ac addasu deddfwriaeth er mwyn hwyluso gweithredu'r Ddeddf.

2.2 Prif swyddogaeth y Bwrdd, yn unol ag adran 3(1) y Ddeddf, yw 'hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg'. Dyma sy'n rhoi cyfeiriad i'w holl waith. Mae adran 3(2) yn nodi'r swyddogaethau canlynol:

- 'cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar faterion ynglyn â'r iaith Gymraeg;
- 'cynghori personau sy'n ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus ar y ffyrdd o weithredu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weithredu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal;
- 'cynghori'r rheiny a phersonau eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ynghylch defnyddio'r iaith Gymraeg yng Nghymru'.

Nid yw'r swyddogaethau cynghori yn gyfyngedig i Gymru; mae'r gwaith statudol yn ymestyn i weddill Prydain pan fydd y darparwyr ar gyfer Cymru wedi eu lleoli y tu allan i'r wlad.

2.3 Mae adran 3(3) yn nodi y caiff y Bwrdd wneud 'unrhyw beth sy'n dod o fewn perfformio'i swyddogaethau neu'n eu hyrwyddo'. Mae'n nodi, ymysg pethau eraill, yr hawl i roi grantiau.

2.4 Mae gan y Bwrdd yn ogystal swyddogaethau sy'n deillio o gyfarwyddiadau gan y Llywodraeth. Cyfeirir at ddyletswydd y Bwrdd i gydymffurfio â'r rhain yn adran 4(1) y Ddeddf. Dyma'r sail statudol dros roi i'r Bwrdd o'r cychwyn y swyddogaeth o gymryd gorolwg strategol ar addysg Gymraeg a chyfrwng Gymraeg; dyma'r sail hefyd dros drosglwyddo i'r Bwrdd ar 1 Ebrill 1997 gyfrifoldebau pellach dros ddyrannu grantiau i Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Ysgolion Meithrin, a Chyngor Llyfrau Cymru, a thros ddyrannu grantiau ar gyfer hyrwyddo addysg Gymraeg.

2.5 Mae Rhan II y Ddeddf yn pennu camau pendant i'w dilyn gan y Bwrdd a chan gyrff cyhoeddus a chyrff y Goron wrth fynd ati i baratoi cynlluniau iaith. Pwrpas y cynlluniau hyn yw gweithredu egwyddor ganolog y Ddeddf, sef trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae hefyd yn rhoi pwerau i'r Bwrdd (ac i'r Cynulliad) i oruchwyllo gweithrediad y cynlluniau iaith sydd wedi eu cymeradwyo.

2.6 Yn sgîl Deddf Llywodraeth Cymru 1998, trosglwyddwyd y cyfrifoldebau noddi o'r Swyddfa Gymreig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Gorffennaf 1999. Hyd at yn ddiweddar iawn, roedd y Bwrdd yn atebol i'r Ysgrifennydd dros Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed. Roedd gwaith y Bwrdd yn cael ei oruchwyllo'n ogystal gan Bwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed y Cynulliad. Bellach

mae'r cyfrifoldebau hyn yn nwylo'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg, a'r Pwyllgor cyfatebol.

- 2.7 Yn ymarferol, mae'r Bwrdd wedi adnabod iddo'i hun y pum swyddogaeth graidd ganlynol:
- hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg;
 - cynghori a dylanwadu ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg;
 - ysgogi a goruchwyllo'r broses o baratoi a gweithredu cynlluniau iaith;
 - rhoi grantiau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith;
 - cadw gorolwg strategol dros addysg a hyfforddiant Cymraeg.

Y sail wleidyddol dros fodolaeth y Bwrdd

- 2.8 Gellid dadlau fod y Llywodraeth wedi penderfynu deddfwriaethu o blaid y Gymraeg yn bennaf am resymau gwleidyddol. Ymysg y prif resymau yr oedd y canlynol:
- llwyddiant y Bwrdd ymgynghorol i'w darbwyllo o'r angen am brif ddeddfwriaeth newydd i gryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg yng Nghymru;
 - ymateb yn gadarnhaol i lobïo o sawl cyfeiriad arall i godi statws y Gymraeg;
 - canfyddiad fod angen cymorth statudol cryfach canolog i ddiogelu'r iaith a sicrhau cyfleoedd i'w defnyddio, yn wyneb dirywiad y Gymraeg mewn cymunedau ac mewn teuluoedd;
 - ymateb yn gadarnhaol i'r hinsawdd wleidyddol o blaid yr iaith ac i ewyllys y bobl i'w gweld yn ffynnu.

Mae'r trydydd rheswm yn dal yn ddilys: er bod statws yr iaith wedi codi'n sylweddol ers sefydlu'r Bwrdd statudol, mae pawb yn cydnabod fod sefyllfa bresennol yr iaith yn awgrymu y bydd angen cynhaliaeth arni hyd y gellir rhagweld.

- 2.9 Eto i gyd, y mae'r ffaith mai sefydlu'r Bwrdd oedd conglfaen y Ddeddf yn dangos fod y Llywodraeth ar y pryd yn barod i adeiladu ar lwyddiant y Bwrdd ymgynghorol drwy roi sylfaen statudol iddo. Mae cofnodion Hansard yn dangos yn glir ei bod yn teimlo mai corff statudol canolog oedd y ffordd orau i weithredu er lles yr iaith. Yr oedd y Llywodraeth yn cydnabod, os oedd y deddfwriaeth newydd i lwyddo, fod angen corff annibynnol i ganolbwyntio ar y gwaith hirdymor o weithredu'r Ddeddf a gwireddu strategaeth i adfywio'r Gymraeg. Yn ogystal, roedd yn derbyn nad oedd ganddi'n fewnol yr arbenigedd i ddiwallu'r anghenion. Mae'r casgliadau hyn yr un mor berthnasol heddiw.

Y sail strategol dros fodolaeth y Bwrdd

- 2.10 Ni chynigiwyd i'r Bwrdd statudol gan y Llywodraeth arweiniad a chyfeiriad strategol manwl, ac o'r herwydd aeth y Bwrdd ati i lunio ei strategaethau ei hun. O'r cychwyn gwnaed hyn ar sail ymgynghori a chydsyniad, gan bwysleisio'r thema gyffredin o gydweithio mewn partneriaeth (o gofio nad y Bwrdd ond eraill yw'r

prif ddarparwyr a'r defnyddwyr o ran y Gymraeg). Ar ben hynny, mae ein gwaith strategol wedi ei seilio ar egwyddorion cynllunio ieithyddol pwrpasol ac effeithiol, disgyblaeth y mae'r Bwrdd wedi ei ymrwymo iddi o'r dechrau. Mae arbenigwyr yn y maes yn cytuno mai'r Bwrdd oedd y cyntaf yng Nghymru i roi cychwyn ar gynllunio ieithyddol cydlynol. Cyn hynny, ers hanner canrif a mwy, ad hoc oedd y cynllunio, gydag ymdrech wirfoddol yn gyfrifol yn y lle cyntaf am y rhan fwyaf o'r datblygiadau.

- 2.11 Ein gallu a'n profiad i gymhwyso egwyddorion cynllunio ieithyddol er mwyn cydlynu a symbylu gweithgareddau ymarferol i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg yw'r brif sail resymegol dros fodolaeth y Bwrdd. Heb gorff statudol cydlynol fel y Bwrdd, byddai'r elfen ganolog hollbwysig hon yn diflannu, ac ni fyddem wedi gweld yr un cynnydd o ran dwyieithrwydd yng Nghymru ag a welwyd ers sefydlu'r Bwrdd. Mae'n annhebyg y byddai'r un mesur o gydsyniad o blaid yr iaith, sydd bellach wedi codi i raddau helaeth uwchlaw gwleidyddiaeth plaid a charfan, yn bodoli chwaith. Gallu'r Bwrdd i feithrin partneriaethau, a dileu pryderon a rhagfarnau drwy lenwi'r bwlch gwybodaeth am yr iaith, oedd un o'r elfennau pwysicaf a sefydlodd y consensws hwn.
- 2.12 Cyn sefydlu'r Bwrdd statudol, roedd pedair o'r pum swyddogaeth a restrir yn 2.7 uchod yn nwylo cyrff eraill ar lefel genedlaethol - y Swyddfa Gymreig, y Bwrdd ymgynghorol, yr Arolygaeth, a'r Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg. (Nid oedd y swyddogaeth o ysgogi a goruchwyllo'r broses o baratoi a gweithredu cynlluniau iaith yn bodoli, wrth gwrs: yn sgîl y Ddeddf Iaith yn unig y daeth honno.) Dim ond cynnydd tameidiog a welwyd ar y pedair swyddogaeth cyn Rhagfyr 1993, o'i gymharu â'r cynnydd parhaus dros y blynyddoedd wedi i'r Bwrdd ddod i fodolaeth. Mae hyn yn amlygu'r fantais o gael corff statudol canolog i gynnig arweiniad ar weithredu'n gydlynol.
- 2.13 Nid yw swyddogaethau'r Bwrdd a nodir yn adran 3 Deddf yr Iaith Gymraeg wedi eu diffinio'n fanwl. Mae rhinwedd i hyn, sydd wedi galluogi'r Bwrdd (mewn meysydd heblaw paratoi a gweithredu cynlluniau iaith yn y sector cyhoeddus) i arloesi mewn cynllunio ieithyddol a chreu, mewn ymgynghoriad â'i bartneriaid, ei ddiffiniadau ei hun yn ôl ei ddehongliad o ofynion yr iaith Gymraeg.
- 2.14 Er bod y swyddogaethau hyn yn benagored, mae dyletswyddau statudol y Bwrdd a chyrrff cyhoeddus a chyrrff y Goron yn Rhan II y Ddeddf yn llawer mwy pendant. Ni fyddem am weld ehangu ar ddyletswyddau'r Bwrdd yn y maes hwn, ond byddem yn pwysleisio'r angen am adnoddau priodol i warantu bod y dyletswyddau statudol yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae hyn yn arbennig o wir o ran adolygu a monitro gweithredu cynlluniau iaith.
- 2.15 Yn gyffredinol, byddai rhai o'r swyddogaethau a fabwysiadwyd gan y Bwrdd (yn absenoldeb unrhyw bolisi penodol gan y Swyddfa Gymreig ar y pryd, na'r Cynulliad hyd yma) yn elwa o ddiffiniad cyhoeddus

cydnabyddedig. Enghraifft amlwg o hyn yw'r 'gorolwg strategol' yn y maes addysg a hyfforddiant: rôl a fabwysiadwyd, ond nas diffiniwyd erioed, er gwaethaf amryfal geisiadau gan y Bwrdd. O ran y sector preifat, yr hyn sydd ei angen yw adnoddau i weithredu ac i fanteisio ar yr hinsawdd gadarnhaol sy'n bodoli. Mae'r un peth yn wir am nifer o feysydd eraill, megis cynllunio corpws, sydd angen eu datblygu'n sylweddol.

- 2.16 Nid oes dadl ddeallusol gref dros drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd i'r Cynulliad, am y byddai hynny'n diddymu corff sydd â'r gallu i gynnig barn annibynnol ac amhleidiol, elfen hollbwysig y mae ei hangen wrth drafod hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn gynhyrchiol gyda phartneriaid ymhob sector. Hefyd byddai'n amhosibl yn gyfreithiol heb newid Rhan II Deddf yr Iaith Gymraeg yn llwyr, gan mai'r Cynulliad ar hyn o bryd sydd â'r swyddogaeth o ddatrys anghydfod rhwng y Bwrdd a chorff cyhoeddus. A rhaid cofio fod y Bwrdd wedi datblygu cryn dipyn o arbenigedd dros chwe blynedd: gallai'r elfen honno gael ei gwanhau'n rhwydd, ac yn arbennig yr agwedd gydlynol arni, petai swyddogaethau'r Bwrdd yn mynd i'r Cynulliad.
- 2.17 Mae'r ddadl ddeallusol dros ddiddymu swyddogaethau'r Bwrdd neu eu rhannu ymysg eraill yn anoddach fyth i'w chyfiawnhau. Er enghraifft, byddai rhoi'r swyddogaeth i gyrff eraill o ddyrannu grantiau yn llesteirio gallu'r Bwrdd i gydlynu'n ganolog a throï cynllunio ieithyddol yn weithgaredd. Mae'r swyddogaeth hon yn golygu y gellir rhoi ffocws penodol ar weithgareddau sy'n hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae'n golygu hefyd fod gan y Bwrdd orolwg o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad, a bod hyn yn fodd effeithiol o hyrwyddo cydweithio ac osgoi dyblygu.
- 2.18 Mae'r Bwrdd ei hun drosodd a thro wedi cyflwyno'r ddadl dros gryfhau sail ei fodolaeth drwy roi mwy o adnoddau iddo. Y broblem fawr sydd gan y Bwrdd yw'r gagendor rhwng yr hyn sydd angen ei wneud - o ran normaleiddio'r Gymraeg trwy greu dwyieithrwydd sefydlog yng Nghymru - a'r hyn a ellir ei wneud o fewn yr hyn sydd ar gael.

A2/3 Dadansoddiad o berfformiad strategol y Bwrdd yn y gorffennol

Y cefndir strategol

- 3.1 Wedi ei sefydlu, dyletswydd cyntaf y Bwrdd oedd gosod fframwaith gweinyddol iddo'i hun, yn unol â'i swyddogaeth statudol o hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg, a phenodi staff. Yn ychwanegol at gyflawni'r gwaith sylfaenol hwn, y brif flaenoriaeth polisi oedd llunio a chyhoeddi canllawiau ynghylch ffurf a chynnwys cynlluniau iaith, yn unol ag adran 10 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Roedd y canllawiau hyn yn hanfodol i gychwyn yr holl broses o baratoi'r cynlluniau. Paratowyd drafft o'r canllawiau ym mis Rhagfyr 1994; wedyn bu ymgynghori arnynt a'u cyflwyno gydag adroddiad ar yr ymgynghori i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Ebrill 1995, cyn iddo eu gosod gerbron y Senedd. Daethant yn ganllawiau statudol - heb eu diwygio - ar 19 Gorffennaf 1995. Wedyn, ym mis Hydref 1995, cyflwynwyd yr hysbysiadau cyntaf i sefydliadau baratoi cynlluniau iaith.
- 3.2 Yr ail dasg oedd llunio strategaeth gynhwysfawr ar gyfer yr iaith Gymraeg, a ffrwyth ein trafodaethau oedd y ddogfen ymgynghorol, *Amlinelliad o Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg* (heb ei chynnwys yn yr adroddiad hwn), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 1995. Dosbarthwyd y ddogfen i dros 2,000 o sefydliadau ac unigolion y credem y byddai diddordeb ganddynt yn y broses o lunio strategaeth o'r fath. Yn ogystal â'r ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law yn sgîl dosbarthu'r ddogfen, yr oedd dwy ran arall i'r ymgynghori, sef:
- arolwg barn y cyhoedd ar y ddogfen, a wnaed ar ein rhan gan gwmni Beaufort Research;
 - cynhadledd undydd ar y thema 'Trafod Tactegau: Wynebu'r Her' a gynhaliwyd yn Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru.
- 3.3 Arweiniodd yr ymgynghori helaeth hwn at y ddogfen greiddiol *Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg* (heb ei chynnwys yn yr adroddiad hwn) a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 1996. Mae hon yn cynnig am y tro cyntaf erioed strategaeth gynhwysfawr i sicrhau dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg, a hi sy'n dal i lywio gwaith y Bwrdd yn ei gyfanrwydd. Mae i'r Strategaeth nodau ac amcanion clir. Mae'r 20 amcan wedi eu llunio o gwmpas y pedair prif her sy'n rhaid eu hwynebu, sef:
- cynyddu niferoedd y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg;
 - darparu cyfleodd i ddefnyddio'r iaith;
 - newid arferion defnyddio'r iaith, ac annog pobl i gymryd mantais o'r cyfleoedd a ddarperir;
 - atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Credai'r Bwrdd fod cyflawni'r rhain yn sail i'w holl amcanion strategol hirdymor. O'r cychwyn cyntaf, mae'r Bwrdd wedi ystyried

ei nodau a'i amcanion ei hun yng nghyd-destun ehangach strategaeth ar gyfer dyfodol yr iaith.

- 3.4 Fel y crybwyllwyd yn barod, mae un thema gyffredin i'w chanfod yn y Strategaeth drwyddi draw: yr angen i gydweithio mewn partneriaeth, sydd wedi datblygu bellach yn nodwedd amlwg yn holl waith y Bwrdd. Mae'r egwyddor yn gwbl gydnaws â dymuniad y Bwrdd i'r Strategaeth ddatblygu i fod yn strategaeth i'r iaith, yn hytrach na strategaeth i'r Bwrdd yn unig. Serch hynny, yr oedd y Bwrdd yn glir beth oedd ei orchwylion yn y gwaith o gyflawni amcanion y Strategaeth, a rhestrir y rhain o dan pob amcan. Yn ogystal, mae pob adran o'r Strategaeth yn nodi'r prif gyrff a sefydliadau y dymuna'r Bwrdd gydweithio â hwy i gyrraedd yr amcanion.
- 3.5 Dylid pwysleisio mai strategaeth hirdymor yw hon, yn ymestyn hyd at gyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011. Fodd bynnag, bu'r Bwrdd yn ymwybodol o'r cychwyn o'r angen i asesu'n rheolaidd y cynnydd yn erbyn yr amcanion: yr oedd ymrwymiad yn y Strategaeth i wneud hynny. Roedd yn amserol yng ngoleuni'r cynnydd ers cyhoeddi'r ddogfen ym 1996 a sefydlu'r Cynulliad ym 1999 - datblygiad nad oedd modd ei ragweld adeg cyhoeddi'r Strategaeth - i'r Bwrdd gynnal adolygiad manwl o'r Strategaeth pan ddaeth cais ym mis Gorffennaf 1999 gan Bwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed y Cynulliad i'r Bwrdd wneud cyflwyniad iddo yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gweler adran 5 isod am fanylion pellach.

Cynnydd yn erbyn gorchwylion y Bwrdd

- 3.6 Ym mis Gorffennaf 1999 gwnaed asesiad cynhwysfawr o'r cynnydd yn erbyn gorchwylion y Bwrdd fel y'u rhestrir yn y Strategaeth. Dangosodd yr asesiad hwn fod gwaith sylweddol wedi ei gyflawni ers cyhoeddi'r Strategaeth a bod cynnydd i'w weld yn erbyn pob un o'r gorchwylion. Ond ni chyflawnwyd cymaint ag y gellid o bell ffordd, a hynny'n bennaf o achos diffyg adnoddau. Mae fersiwn diwygiedig o'r asesiad yn Nogfen 4 (heb ei chynnwys yn yr adroddiad hwn).
- 3.7 Mae dadansoddiad o Ddogfen 4 yn awgrymu mai dyma'r meysydd a'r peuoedd a ddylai gael rhagor o sylw fel blaenoriaeth:
- y teulu
 - addysg a hyfforddiant Cymraeg gydol oes
 - cymunedau
 - cynllunio rhanbarthol
 - pobl ifanc 14-19 oed a 20-30 oed
 - hyrwyddo sgiliau dwyieithog ar gyfer gwaith
 - annog pob darparwr i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith
 - annog y cyhoedd i fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r iaith
 - technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
 - Cymraeg i oedolion

- 3.8 Crybwyllir yn fanylach yn adran 5 isod oblygiadau'r dadansoddiad hwn yng nghyd-destun strategaeth y Bwrdd dros y pum mlynedd nesaf.

A2/4 Gwerthusiad o sefyllfa bresennol y Bwrdd

Asesiad o waith y Bwrdd yn 1999-2000

- 4.1 Yn unol â'i ddyletswyddau o dan Atodlen I y Ddeddf, mae'r Bwrdd yn paratoi'n flynyddol adroddiad ar y ffordd y cyflawnodd ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Cyflwynwyd copi o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1999-2000 (heb ei gynnwys yn yr adroddiad hwn) i'r Cynulliad ym mis Mehefin 2000. Mae'r ddogfen yn rhoi darlun clir o waith y Bwrdd dros y cyfnod 1 Ebrill 1999 - 31 Mawrth 2000, y cyfnod a gwmpasid gan Gynllun Gweithredol 1999-2000 (Dogfen 6 - heb ei chynnwys yn yr adroddiad hwn).
- 4.2 Arolygwyd Cyfrifon 1999-2000 gan Swyddfa'r Archwilydd Cenedlaethol. Ni nodwyd unrhyw achosion o wendidau rheoli sylweddol: pum pwynt yn unig a nodwyd bod angen rhoi sylw iddynt, ac nid oedd dim un o'r rhain yn sylweddol. Yn ogystal, datganodd adroddiad yr archwilwyr mewnol *Pricewaterhouse Coopers* bod y systemau a'r rheolaethau ariannol yn ddibynadwy ac yn effeithiol. Codwyd rhai pwyntiau yn ystod yr archwiliad mewnol, ond unwaith eto, nid oedd yr un ohonynt yn sylweddol.
- 4.3 Mae'r meincnodau a ddefnyddir gan y Cynulliad i asesu perfformiad y Bwrdd yn cael eu cytuno yng nghyd-destun y Cynllun Gweithredol a baratoi'r flynyddol, fel arfer rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror. Hon yw'r ddogfen sy'n nodi bwriadau'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol, ac sy'n disgrifio'n benodol sut y bwriedir defnyddio'r adnoddau a ddarperir i'r Bwrdd gan y Cynulliad. Cytunir targedau ar gyfer y gweithgareddau, ac mae'r cynnydd yn erbyn y rhain yn cael ei fesur yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ac yn sail i asesu perfformiad y Bwrdd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae Tabl 1 yn Nogfen 7 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd 1999-2000: fe welir fod y Bwrdd wedi cyflawni'r mwyafrif helaeth o'r targedau a'r gweithgareddau'n llwyddiannus.
- 4.4 Mae Tabl 2 yn Nogfen 7 yn nodi'r gweithgareddau ategol y bu'r Bwrdd yn ymwneud â hwy yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r rhain yn cael sylw penodol yn y Cynllun Gweithredol, naill ai am fod y gweithgareddau'n ymwneud â rhyw agwedd o waith craidd y Bwrdd, neu oherwydd nad oedd modd eu rhagweld adeg paratoi'r Cynllun Gweithredol. Dylid nodi fod 1999-2000 yn flwyddyn anghyffredin o ran y materion ychwanegol y bu'n rhaid ymwneud â hwy, ac mae'n bwysig ystyried y gweithgareddau ychwanegol hyn wrth asesu perfformiad y Bwrdd yn ei gyfanrwydd oherwydd y gwaith sylweddol a oedd yn gysylltiedig â hwy. Yn aml, bu'n rhaid rhoi'r flaenoriaeth i'r gwaith ychwanegol hwn gan dynnu ar amser ac adnoddau staff mwy nag un adran ar y tro.

- 4.5 Bellach mae Cynllun Gweithredol 2000-01 (Dogfen 8 - heb ei chynnwys yn yr adroddiad hwn) mewn grym. Mae'r tabl yn Nogfen 9 yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd mis Medi 2000 yn erbyn targedau 2000-01.

Dadansoddiad 'SWOT'

- 4.6 Rydym wedi cynnal asesiad o gryfderau a gwendidau'r Bwrdd, a dadansoddi'r cyfleoedd a'r bygythiadau strategol a allai effeithio arno - mae'r rhain wedi eu rhestru yn y dadansoddiad 'SWOT' (Dogfen 10 - heb ei chynnwys yn yr adroddiad hwn). Bu'r ymarfer yn werthfawr er mwyn adnabod y ffactorau a allai effeithio'n strategol ar y Bwrdd, a hefyd ar allu'r Bwrdd i ymateb yn effeithiol i'r ffactorau hynny. Bu'r cam hwn yn rhan bwysig o'r ystyriaeth a arweiniodd at y casgliadau a grynhoir isod ym mharagraff 4.7. Ond roeddem yn ymwybodol iawn fod ein hanallu i fesur effaith ein gwaith yn ei gyfanrwydd (gweler paragraff 4.7vi. isod) yn cyfyngu ein gallu i asesu'n gyfannol.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau a phrif bwyntiau gweithredu strategol

- 4.7 Dyma'r prif ganfyddiadau strategol a nodwyd yng nghyd-destun hunanasesiad o berfformiad y Bwrdd yn ystod 1999-2000. Mae'r rhain yn crynhoi canlyniadau hunanasesiad mewnol a gynhaliwyd gan swyddogion y Bwrdd yng ngoleuni perfformiad y Bwrdd yn ystod 1999-2000 a'r dadansoddiad 'SWOT'. Rhestrir y pwyntiau gweithredu cysylltiedig ym mharagraff 5.11 isod.
- i. Mae gan y Bwrdd ddirnadaeth dda o'i gyfeiriad strategol, ac mae wedi llunio nodau ac amcanion clir ar gyfer y Gymraeg. Mae'r rhain yn ddigon hyblyg i ymdopi â gofynion a chyd-destunau sy'n datblygu ac yn newid yn gyson. [Ymhelaethir ar hyn i gyd yn adrannau 3 - 5 o'r papur hwn.]
- ii. Mae'r Bwrdd yn gorff sy'n gallu ymateb yn gyflym ac yn llwyddiannus i gyfleoedd a gofynion newydd, ac mae'n cael ei ystyried yn gorff dibynadwy, cynhyrchiol a chreadigol.

Mae'n werth nodi dwy enghraifft ddiweddar yn ymwneud â cheisiadau am gymorth o'r Bwrdd gan gwmnïau rhyngwladol adnabyddus:

Coca Cola - a'i benderfyniad i lansio ymgyrch hyrwyddo ddwyieithog;

Microsoft - a'i benderfyniad i gynnig gosod sillafydd a chysylltnodydd Cymraeg fel rhan o fersiwn nesaf Microsoft Office.

- iii. Mae'r Bwrdd yn llwyddo'n rheolaidd i gyflawni swmp o waith ar draws ystod eang iawn o bynciau. Mae camau breision wedi eu cymryd ers 1996 tuag at gyflawni'r gorchwylion a nodir yn y ddogfen *Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg*. Eto, mae rhai meysydd strategol allweddol yn parhau i fod angen sylw, a byddai'n werthfawr dadansoddi cost effeithiolrwydd grantiau ac arian prosiectau yn erbyn meini prawf pendant o ran cynyddu defnyddio'r Gymraeg er mwyn hwyluso blaenoriaethu. [Gweler paragraffau 3.6 - 3.8 uchod am fwy o fanylion.]
- iv. Mae'r Bwrdd yn brin iawn o adnoddau o ystyried ehangder ei gylch gwaith a nifer y tasgau sydd angen eu cyflawni. Effeithia hyn yn sylweddol ar allu'r Bwrdd i wireddu'r hyn a ddisgwyllir ganddo. Mae'r ffaith nad yw'n bosibl cyflawni'r targedau allweddol o ran cynlluniau iaith a chynlluniau addysg yn destun pryder cynyddol. Serch hynny, mae'r Bwrdd yn llwyddo i gyflawni'r mwyafrif llethol o'r targedau a gytunir ar gyfer y gweithgareddau y mae'n ymgymryd â hwy. [Gweler Tabl 1 yn Nogfen 7, a Dogfen 9 am fwy o fanylion.] [Nid yw'r dogfennau y cyfeirir atynt wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.]
- v. Ni fu costau craidd y Bwrdd yn ddigonol yn ystod y cyfnod dan sylw. Dim ond drwy fanteisio ar staff yn gadael a swyddi'n aros yn wag am ychydig wythnosau cyn ailbenodi y mae'r Bwrdd wedi llwyddo i fyw o fewn terfynau ei gyllideb. Mae angen cynnydd sylweddol o ran costau craidd ar y Bwrdd er mwyn cynnal lefelau staffio priodol yn y dyfodol. [Gweler Dogfen 14 - heb ei chynnwys yn yr adroddiad hwn - am fwy o fanylion.]
- vi. Nid yw'r data na'r ystadegau angenrheidiol ar gael er mwyn mesur yn llawn effaith polisiau a gweithgareddau'r Bwrdd ar sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru. Mae hwn yn wendid sylfaenol, ac er bod y Bwrdd wedi ceisio gwneud rhywfaint o waith yn y maes hwn (drwy gwmnïau NOP a Beaufort Research), nid yw'r adnoddau ganddo i wneud dim llawer mwy na chyffwrdd â'r angen.
- vii. Mae ansawdd gwaith y Bwrdd yn uchel iawn: mae ganddo enw da iawn am safon ei waith. Yn ogystal, mae gan y Bwrdd berthynas dda a gweithgar gyda'r mwyafrif o'r cyrff y mae'n dod i gysylltiad â hwy. Ar y cyfan, mae'n meithrin partneriaethau'n effeithiol ac yn ddiplomataidd.

Mae partneriaethau'r Bwrdd yn lluosog, ac mae gwaith ei bartneriaid yn cwmpasu sawl maes ar draws pob sector, er enghraifft:

sefydliadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg - o'r mentrau iaith i Fudiad Ysgolion Meithrin, o Urdd Gobaith Cymru i'r papurau bro;

sefydliadau sy'n gweithredu yn bennaf yng Nghymru - o'r Cynulliad i'r cyrff a noddur ganddo, o awdurdodau lleol i gyrff gwirfoddol Cymreig;

sefydliadau a chwmnïau Prydeinig a rhyngwladol - o Tesco i HSBC, o gyrff y Goron i asiantaethau cynllunio ieithyddol yn Ewrop a thu hwnt.

viii. Mae'r angen i geisio'n flynyddol o'r newydd am grant yn gallu creu ansicrwydd a chynyddu pwysau ar rai o'r gyrff y mae'r Bwrdd yn eu hariannu drwy grant, yn enwedig lle'r ariennir swyddi. Byddai'r gallu i roi mwy o sicrwydd ynghylch lefel y cyllid sy'n debyg o fod ar gael iddynt dros dair blynedd yn gymorth mawr yng nghyd-destun blaengynllunio.

1. Mae'r Bwrdd yn cael ei gydnabod ar lefel ryngwladol fel un o'r gyrff mwyaf blaenllaw ac ymarferol yn y maes cynllunio ieithyddol, ac mae wedi llwyddo i ddatblygu perthynas effeithiol â nifer helaeth o sefydliadau tramor sy'n gweithio ar wahanol agweddau o'r maes.

Prawf o hyn yw'r gwahoddiadau cyson y mae'r Bwrdd yn eu derbyn i gymryd rhan mewn cynadleddau a digwyddiadau y tu hwnt i Gymru fel arbenigwr ar gynllunio ieithyddol cymwysedig. Enghraifft nodedig ddiweddar oedd cais ffurfiol gan Lywodraeth Iwerddon i'w chynghori ar Ddeddf ar gyfer yr iaith Wyddeleg. Yn ogystal, daw nifer o ymwelwyr tramor i'r Bwrdd i ddysgu am ein gwaith gyda'r Gymraeg.

x. Mae'r Bwrdd yn ymateb yn dda i gyfleoedd sy'n codi o gyfeiriad datblygu technolegau gwybodaeth a chyfathrebu newydd, ac mae wedi mabwysiadu systemau gweithredu sy'n gwneud defnydd ohonynt. Ond nid yw'r Bwrdd wedi llwyddo eto i wneud y defnydd llawn o botensial y dechnoleg sydd ar gael.

Dyma'r prif ddatblygiadau y bu'r Bwrdd yn eu cefnogi yn y maes:
CySill - sillafydd a gwirydd gramadeg;
CysGair - geiriadur electronig;
Cymarfer - pecyn gloywi iaith ar gyfrifiadur.
Nodir o dan ii. uchod benderfyniad Microsoft ynglŷn â fersiwn nesaf Microsoft Office.

xi. Mae'r Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol ar lefel genedlaethol, ond nid yw ei adnoddau wedi caniatáu iddo roi ystyriaeth ar sut orau i weithredu ar lefel ranbarthol o ran cynllunio strategol.

xii. Fel rhan o'r broses barhaus o fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd strategol, mae'r Bwrdd wedi adnabod yr angen i sefydlu rhaglen adolygu blynyddol sy'n cynnwys aelodau, swyddogion a chynrychiolaeth allanol. [Mae'r papur yn Nogfen 11 [heb ei gynnwys

yn yr adroddiad hwn] yn rhoi amlinelliad o ddulliau'r Bwrdd o sicrhau ansawdd ei waith.]

A2/5 Sicrhau effeithiolrwydd strategol dros y 5 mlynedd nesaf

Y broses o fesur cynnydd ac o adolygu'r Strategaeth

- 5.1 Nodwyd eisoes fod y Strategaeth yn cwmpasu cyfnod hirdymor, sef hyd at gyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011. Ond mae mesur cynnydd yn erbyn nodau ac amcanion y Strategaeth yn broses barhaus. Ym mharagraff 4.9 y Strategaeth nodir y '*bydd y Bwrdd yn parhau i ystyried cyfeiriad y strategaeth a'r mesurau a nodir ynnddi wrth baratoi ac adolygu ei gynlluniau corfforaethol o flwyddyn i flwyddyn yng ngoleuni'r cynnydd mewn cyflawni'r amcanion, ac yng ngoleuni canlyniadau Cyfrifiad 2001*'.
- 5.2 Mae'r Bwrdd felly yn asesu'r cynnydd yn erbyn ei orchwylion yn rheolaidd wrth lunio ei gynllun corfforaethol yn flynyddol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau fod adnoddau yn cael eu cyfeirio at y blaenoriaethau cywir, ac er mwyn cryfhau'r achos dros geisio am adnoddau ychwanegol gan y Cynulliad. Y bwriad gwreiddiol, yn ôl amserlen y Strategaeth, oedd cynnal arolwg cynhwysfawr ohoni yng ngoleuni cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2001, ac ystyried ei chyfeiriad o'r newydd. Ond fel y nodwyd eisoes, daeth cyfle i wneud hynny yn ystod 1999 yn sgîl dyfodiad y Cynulliad, pan ofynnwyd i'r Bwrdd gan y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ôl 16 oed baratoi adroddiad '*yn cynnwys cynnydd gyda gwaith y Bwrdd hyd yn hyn, ei farn ynghlŷn â sefyllfa bresennol yr iaith Gymraeg a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol, ynghyd â blaenoriaethau o ran gweithredu er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Chymru ddwyieithog, a'u goblygiadau ariannol*'.

Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005

- 5.3 Y ddogfen *Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005* (Dogfen 12 - heb ei chynnwys yn yr adroddiad hwn) a baratowyd i ateb y cais hwn. Mae hi'n seiliedig ar Gynllun Corfforaethol 2000-03, ac ar y Strategaeth. Dylid pwysleisio nad llunio dogfen i gymryd lle'r Strategaeth oedd y bwriad, ond yn hytrach baratoi dogfen a fyddai'n adeiladu arni a chynnig blaenoriaethau i'r Cynulliad, ac i'r Bwrdd a'i bartneriaid dros y tymor canolig. Cynorthwywyd y Bwrdd yn y gwaith o lunio'r ddogfen gan banel a oedd yn cynnwys aelodau a swyddogion o'r Bwrdd, ac arbenigwyr ar gynllunio ieithyddol yng Nghymru a thu hwnt.
- 5.4 Ynnddi cynigir strategaeth gynllunio dros gyfnod o bum mlynedd, a rhestrir deuddeg targed i'w cyflawni mewn pedwar maes cynllunio

ieithyddol. Cafodd y targedau hyn eu llunio ar sail y partneriaethau y mae'r Bwrdd wedi eu sefydlu dros y blynyddoedd diwethaf, a maent yn adlewyrchu'r ymgynghori cyson rhwng y Bwrdd a'i bartneriaid. Mae cydweithredu â'r partneriaid hyn yn parhau i fod yn hanfodol o safbwynt cyflawni'r targedau.

- 5.5 Cyflwynwyd y ddogfen i Bwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed y Cynulliad ym mis Tachwedd 1999. Ym mis Chwefror 2000, croesawyd y ddogfen yn ffurfiol gan y Pwyllgor fel '*cyfraniad pwysig i'r dasg o lunio strategaeth er mwyn sicrhau adfywiad yr iaith Gymraeg a chreu Cymru ddwyieithog*'. Mewn dadl lawn ar yr iaith Gymraeg yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cadarnhaodd y Cynulliad benderfyniad y Pwyllgor. Ar ddiwedd y ddadl, roedd yr Ysgrifennydd â chyfrifoldeb ar y pryd dros yr iaith Gymraeg yn fodlon cydnabod goblygiadau ymarferol gwireddu gweledigaeth y Bwrdd: '*os ydym i gyflawni'r ymrwymadau hynny, rhaid inni roi ein harian ar ein gair*'.
- 5.6 Yn ogystal ag ymgynghori gyda'n partneriaid yn anffurfiol ymlaen llaw, trefnwyd yn ogystal ym mis Mawrth eleni ddwy gynhadledd i drafod y ddogfen yn fanylach gyda'n prif bartneriaid. Mae adroddiad ar y cynadleddau hyn wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad (Dogfen 13). Cafwyd cymeradwyaeth glir i'r ddogfen ar lefel gyffredinol: adlewyrchir prif ganlyniadau'r trafodaethau hyn yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2001-04 a gyflwynwyd i'r Cynulliad ym mis Mehefin 2000 (Dogfen 14). [Ni chynhwyswyd y dogfennau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn.]
- 5.7 Rydym yn hyderus fod y ffaith i *Cenhadaeth a Gweledigaeth* dderbyn cymeradwyaeth mor eang gan y Cynulliad a chan ein partneriaid yn dangos fod y Bwrdd wedi dadansoddi'r sefyllfa bresennol yn gywir, ac wedi llwyddo i adnabod yr anghenion yn wrthrychol. *Cenhadaeth a Gweledigaeth*, felly, fydd yn rhoi cyfeiriad strategol i'r Bwrdd dros y 5 mlynedd nesaf er mwyn ymateb i'r blaenoriaethau a nodir, cyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu. Ceir disgrifiad cryno o brif elfennau'r ddogfen yn y crynodeb o safbwynt y Bwrdd a baratowyd ar gais y Cynulliad (Dogfen 15 - heb ei chynnwys yn yr adroddiad hwn).

Cynllun Corfforaethol 2001-04

- 5.8 Mae goblygiadau ariannol sylweddol ynghlwm wrth yr hyn a amlinellir yn *Cenhadaeth a Gweledigaeth*. Nid oes modd gwireddu'r weledigaeth heb fod y Cynulliad yn penderfynu darparu adnoddau ychwanegol sylweddol er mwyn buddsoddi yn nyfodol yr iaith Gymraeg. Nid yw hyn eto wedi digwydd. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Bwrdd gynllunio ar sail yr adnoddau sydd eisoes wedi eu neilltuo ar ei gyfer, a dyna yw'r gwahaniaeth mawr rhwng *Cenhadaeth a Gweledigaeth* a'r Cynllun Corfforaethol: mae'r naill yn canolbwyntio ar beth ddylid ei wneud gan y Bwrdd a chan eraill i greu dwyieithrwydd sefydlog yng Nghymru, tra bo'r llall yn amlinellu beth ellir ei wneud gan y Bwrdd dros y tair blynedd nesaf gyda'r gwir symiau sydd yn debygol o fod ar gael. Bydd penderfyniadau'r Cynulliad ar ein cyllideb yn effeithio'n

uniongyrchol ar ein cyrhaeddiad strategol dros y pum mlynedd nesaf.

- 5.9 Mae'r Bwrdd yn ceisio'n flynyddol am adnoddau ychwanegol i ddiwallu'r anghenion. Yn y gorffennol, ychydig o lwyddiant a gafwyd. Ymddengys y bydd eleni gynnydd uwch ben yr hyn a glustnodwyd yng nghyllideb y llynedd, ac fe gaiff hwn ei adlewyrchu yng Nghynllun Busnes y Bwrdd ar gyfer 2001-02. Ond rhaid nodi mai bach iawn yw'r cynnydd arfaethedig yng nghyd-destun yr hyn a amlinellir yn *Cenhadaeth a Gweledigaeth*. Mae'r nodyn yn Nogfen 16 yn rhoi mwy o fanylion am geisiadau'r Bwrdd am gymorth grant, ac mae'r tabl yn Nogfen 17 yn dangos y cynnydd hyd yma yn erbyn 12 targed creiddiol *Cenhadaeth a Gweledigaeth*.
- 5.10 Mae'r Bwrdd yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd strategol sicrhau cysondeb a chydysniad rhwng ei gynlluniau corfforaethol ei hun a chynlluniau'r Cynulliad. Mae'r Cynllun Corfforaethol diweddaraf yn brawf o ymrwymiad y Bwrdd i gyflawni amcanion *gwellcymru.com*, sef cynllun strategol y Cynulliad. Cyflwynir y Cynllun Corfforaethol ar ffurf tablau sy'n croesgyfeirio'r holl amcanion yn meysydd gwaith y Bwrdd at nodau a blaenoriaethau *gwellcymru.com*. Bydd y Bwrdd hefyd yn parhau i geisio dylanwadu ar ddatblygiad polisiau'r Cynulliad tuag at y Gymraeg.

Prif bwyntiau gweithredu yn y tymor byr

- 5.11 Nodir ym mharagraff 4.7 uchod y prif ganfyddiadau sy'n deillio o'r hunanasesiad mewnol o waith y Bwrdd. Yn dilyn isod mae rhestr o'r prif bwyntiau gweithredu sy'n codi o'r hunanasesiad hwnnw. Mae rhai o'r rhain eisoes wedi eu cyflawni, a bwriada'r Bwrdd gyflawni'r gweddill yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol lle bo hynny'n berthnasol, neu ateb y gofyn yng nghyd-destun llunio Cynllun Busnes 2001-02. Mae eu gweithredu'n llawn yn ddibynnol ar dderbyn adnoddau ychwanegol o'r Cynulliad.
- i. Dadlau yn gryf ac yn gyson yr achos dros ragor o adnoddau i'r Bwrdd gyflawni ei dasgau.
 - ii. Sicrhau bod y meysydd strategol a nodir ym mharagraff 3.7 uchod yn cael blaenoriaeth yng nghynlluniau gwaith y Bwrdd yn y tymor byr.
 - iii. Dadansoddi cost effeithiolrwydd grantiau ac arian prosiectau yn erbyn meini prawf pendant o ran cynyddu defnyddio'r Gymraeg.
 - iv. Darganfod ffyrdd o ddarparu mwy o sicrwydd i'r cyrff y mae'r Bwrdd yn eu hariannu ynghylch lefel eu cyllid dros y tymor canolig.
 - v. Annog y Llywodraeth i sicrhau bod ystadegau priodol er mwyn mesur effaith polisiau i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn cael eu casglu.
 - vi. Adolygu'r broses o oruchwylio gweithrediad cynlluniau iaith a chynlluniau addysg er mwyn adnabod anghenion a cheisio darganfod ffyrdd o hwyluso'r gwaith.
 - vii. Parhau i ddatblygu rôl ein partneriaethau yng nghyd-destun gwaith y Bwrdd.
 - viii. Adolygu'r strategaeth technoleg gwybodaeth ar gyfer y Bwrdd (yn cynnwys strategaeth hyfforddiant perthnasol ar gyfer staff).

- ix. Sicrhau bod pwyntiau gweithredu'r archwilwyr yn cael eu gweithredu yn unol â'r amserlen.
- x. Cychwyn rhaglen adolygu blynyddol o brif themâu ein gwaith, sy'n cynnwys elfen o asesiad allanol.

Tua'r dyfodol

- 5.12 Credwn fod y Bwrdd wedi profi ei hun dro ar ôl tro i fod yn gorff effeithiol ac effeithlon gyda'i adnoddau. Serch hynny, mae'n ymwybodol iawn o'r angen i sicrhau fod hyn yn parhau i'r dyfodol. Bydd y Bwrdd felly yn ceisio sicrhau ei effeithiolrwydd strategol dros y pum mlynedd nesaf drwy weithredu'n unol ag egwyddorion ac arferion gorau cynllunio ieithyddol, gan fanteisio ar rwydweithiau a ffynonellau arbenigedd i'n cynorthwyo yn y gwaith canlynol.
- 5.13 Yn benodol, bwriada'r Bwrdd:
- barhau i sicrhau cost-effeithiolrwydd ein gweithgareddau;
 - parhau i fesur cynnydd yn erbyn ein Strategaeth a blaenoriaethu yn ôl yr angen wrth lunio'r cynlluniau busnes a'r cynlluniau corfforaethol;
 - parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Cynulliad a'n partneriaid allweddol eraill yng Nghymru a thu hwnt;
 - parhau i geisio sicrhau fod perthynas agos rhwng blaenoriaethau'r Bwrdd a blaenoriaethau'r Cynulliad, yn enwedig yng nghyd-destun gwellcymru.com.
- 5.14 I unrhyw bolisi ar gyfer iaith lai fod yn effeithiol, rhaid iddo fod yn gost-effeithiol, a dylai'r broses o sicrhau cost-effeithiolrwydd fod yn un sy'n cynnwys asesu, dewis, gweithredu a mesur effaith y polisi. Mae elfen econometrig fodern yn perthyn i gynllunio ieithyddol. Nid yw hyn yn groes i frwdfrydedd ieithyddol, ond rhaid wrth broffesiynoldeb os yw brwdfrydedd i ddwyn ffrwyth gydag arian cyhoeddus. Nid yw'r model econometrig cywir eto wedi ei adeiladu ar gyfer buddsoddi arian cyhoeddus yn yr iaith Gymraeg, ond mae angen creu model o'r fath. Bwriada'r Bwrdd, os bydd cyllid yn caniatáu, fynd i'r afael â'r gwaith. Ein bwriad fyddai trafod y posibilïad gyda Dr François Grin, Dirprwy Gyfarwyddwr y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Materion Lleiafrifol, a cheisio creu model a allai gael ei addasu gan unrhyw gymuned ieithyddol.

ATODIAD 3: RHESTR O GYRFF AC UNIGOLION A GYFLWYNODD SYLWADAU YSGRIFENEDIG

Sector Cyhoeddus

1. Gwasanaeth Cyflogi
2. Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
3. Mudiad Gwasanaeth Gwartheg Prydeinig
4. Cyngor Sir Powys
5. Cydbwyllgor Addysg Cymru
6. UK Central Council for Nursing, Midwifery and Health Visiting
7. Bwrdd Cenedlaethol Cymru dros Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd
8. Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
9. Cyngor Sir Fynwy
10. Swyddfa Gartref
11. Cyngor Cymuned Pentyrch
12. Cyngor Tref Dinbych
13. Cyngor Sir Ynys Môn
14. Cyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol
15. Cyngorau Cyllido Cymru
16. Gwasanaeth Tân De Cymru
17. Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
18. Cyllid y Wlad
19. Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
20. Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen
21. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
22. Iechyd Morgannwg
23. Pwyllgor Teithwyr Reilffyrdd Cymru
24. Cyngor Gwynedd
25. Cyngor Sir y Fflint
26. Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru
27. Pwyllgor Llys Ynadon De Cymru
28. Office of the Director General of Water Services (OFWAT)
29. Yr Arolygiaeth Gynllunio
30. Cyngor Celfyddydau Cymru
31. Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
32. Cyngor Bro Morgannwg
33. Heddlu Gogledd Cymru
34. Cyngor Defnyddwyr Cymru
35. Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru
36. Cyngor Tref Caerfyrddin
37. Cyngor Cefn Gwlad Cymru
38. Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
39. Heddlu De Cymru
40. Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
41. Ministry of Defence
42. Cyngor Rhondda Cynon Taf

Sector Gwirfoddol /Trydedd

1. Urdd Gobaith Cymru
2. Menter Cwm Gwendraeth
3. Menter Caerdydd
4. Menter Iaith Gwynedd
5. Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched
6. Merched y Wawr
7. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
8. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
9. Menter a Busnes

Sector Preifat

1. Banc yr HSBC
2. Cymdeithas Adeiladu'r Nationwide

Sector Addysg

1. Bwrdd Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg, Prifysgol Cymru
2. Coleg Cerdd a Drama Cymru
3. Prifysgol Cymru Bangor
4. Estyn
5. Coleg Meirion Dwyfor

Erail

1. Cefn
2. Biwro Ewropeaidd ar gyfer ieithoedd lleiafrifol (Swyddfa Iwerddon)
3. Allweddaiath
4. Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
5. Comunn na Gaidhlig, yr Alban

Unigolion

1. Euryng Ogwen, Bro Morgannwg
2. M Hayes, Abertawe
3. Stephen Curry, Castell Nedd
4. Penri Williams, Caerdydd
5. W C Chilcott, Abertawe
6. David Painting, Abertawe
7. Cynghorydd Ioan Richard, Abertawe
8. K Davies, Abertawe
9. Gloria Owens, Abertawe
10. C Dawson, Abertawe
11. Colin Nalsley, Abertawe
12. Brian Jones, Abertawe
13. Jack Harris Consultancy, Abertawe
14. David Harris, Abertawe
15. Peter Smith, Dinbych
16. C Dallimore, Abertawe
17. R G Derrick, Abertawe
18. Haydn Jenkins, Abertawe
19. Dafydd Thomas, Abertawe
20. Marc Williams, Llanelli
21. Meurig Williams, Caerdydd

ATODIAD 4: CYLCH GORCHWYL YR ADOLYGIAD

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

BWRDD YR IAITH GYMRAEG

Cyflwyniad

Cynhelir adolygiad pum mlynedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng nghydestun y Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Pum Mlynedd a gyhoeddwyd gan y Cynulliad. Mae'r Canllawiau yn nodi'r broses ar gyfer cynnal yr adolygiadau. Mae hyn yn cynnwys hunan-asesiad gan y corff noddedig, trafod ag Aelodau'r Bwrdd ac uwch reolwyr, ceisio barn y prif gyfranddeiliaid gan gynnwys barn y staff a'r undebau llafur, partneriaid a chwsmeriaid.

Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi'r prif gwestiynau y bydd yn rhaid i'r Adolygiad fynd i'r afael â hwy. Nodir y materion sy'n gyffredin i bob adolygiad yn y Canllawiau, ond mae'r Cylch Gorchwyl hefyd yn nodi materion sy'n benodol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cynhelir yr Adolygiad mewn dwy ran: yr Adolygiad Strategol a'r Adolygiad o Lywodraethu Corfforaethol.

Yr Adolygiad Strategol

Cynhelir yr adolygiad strategol yng nghydestun cynllun strategol y Cynulliad gwellcymru.com.

Cam 1. Swyddogaethau

Yng ngoleuni dyletswyddau statudol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac amcanion y Cynulliad Cenedlaethol, a oes angen holl swyddogaethau'r Bwrdd bellach ac os oes, ai'r fframwaith trefniadol presennol yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r swyddogaethau hynny?

Pa fframwaith cyfreithiol sy'n rheoli Bwrdd yr Iaith Gymraeg?

A oes angen holl swyddogaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg bellach?

A yw ystod swyddogaethau'r Bwrdd yn ddigon cyflawn a chydlynol i ddylanwadu ar ddyfodol y Gymraeg?

A oes angen i Gorff a Noddir gan y Cynulliad gyflawni'r swyddogaethau hyn - a fyddai ffyrdd eraill o gyflawni'r swyddogaethau yn debygol o fod yn fwy effeithiol?

Ai un corff sydd orau i gyflawni'r swyddogaethau hyn? A oes angen rhannu'r swyddogaethau rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cynulliad Cenedlaethol neu gyrff cyhoeddus eraill?

Allbwn: Adroddiad Interim yn argymhell pa newidiadau, os o gwbl, y mae angen eu gwneud i'r trefniadau presennol, pa bwerau sydd gan y Cynulliad i wneud y newidiadau hynny, ac yn nodi manteision ac anfanteision y newidiadau.

Cam 2: Effeithiolrwydd Strategol

Yn amodol ar y darganfyddiadau yn yr Adroddiad Interim: a ddylid gwneud unrhyw welliannau i'r ffordd y cyflawnir swyddogaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, o ystyried ei swyddogaethau statudol a gwerthoedd ac amcanion y Cynulliad Cenedlaethol, a'r ffordd y mae'r berthynas rhyngddo â'r Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio.

Dylai hyn ystyried unrhyw astudiaethau annibynnol a'r mewnbynnau eraill a nodir yn y canllawiau ar gyfer Adolygiadau Pum Mlynedd

A yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi datblygu cyfeiriad strategol clir, sydd ar seiliau cadarn, ers 1993 sy'n hwyluso datblygiad iaith ledled Cymru? Beth fu prif lwyddiannau strategol y Bwrdd ers 1993, i ba raddau y mae wedi bodloni ei amcanion, sut y mae'r Bwrdd wedi perfformio yn erbyn ei dargedau, sut y mae ei berfformiad yn cymharu â pherfformiad cyrff eraill sy'n ymwneud â datblygu iaith mewn modd cyffelyb mewn mannau eraill, a oes angen mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â pherfformiad?

Pa mor effeithiol yw dulliau cynllunio corfforaethol Bwrdd yr Iaith Gymraeg o safbwynt pennu blaenoriaethau a thargedau a dyrannu adnoddau yn unol â hynny?

A yw proses cynllunio corfforaethol Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn dangos ei fod yn mabwysiadu dull cynhwysfawr ac integredig o weithredu wrth fynd ati i gyflawni ei swyddogaethau?

Pa mor effeithiol yw trefniadau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer ymateb i amcanion strategol y Cynulliad Cenedlaethol, a'r gwerthoedd a'r themâu sy'n arwain ei waith (gan gynnwys cyfle cyfartal, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a datblygu cynaliadwy) o ran y ffordd y mae'n cynllunio ac yn cynnal ei fusnes. Sut y gellid eu gwella?

A oes cyd-ddealltwriaeth effeithiol o ba rôl y mae aelodau'r Bwrdd a'r uwch-reolwyr yn ei chwarae wrth bennu amcanion corfforaethol a monitro'r ffordd y cânt eu gweithredu?

A yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ymateb yn ddigonol i'w bartneriaid a'i gwsmeriaid, a yw'n ennyn eu hyder fel corff y gallant wneud busnes ag ef, a oes ffyrdd o gryfhau'r berthynas?

A yw'r trefniadau adrodd rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddigonol, a oes angen mwy o ryddid a hyblygrwydd ar y Bwrdd, a yw'r Bwrdd yn ddigon atebol i'r cyhoedd o ran y gwaith y mae'n ei wneud?

Adolygiad o lywodraethu corfforaethol

A yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn rheoli ei gyllid yn effeithiol ac yn unol â gofynion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian? Beth y mae'r Bwrdd wedi ei wneud i wella ei effeithlonrwydd gweithredol? Dylai hyn roi sylw i dystiolaeth o fframwaith rheoli presennol y Bwrdd, fel y'i nodir yn Atodiad 2 i'r Canllawiau.

A yw'r trefniadau cyllid a rheoli rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cynulliad Cenedlaethol yn bodloni gofynion sefydledig?

O edrych ar yr adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, a ellir bod yn ffyddiog bod y Bwrdd yn rheoli ei gyllid yn unol â disgwyliadau'r Cynulliad ar gyfer cyrff cyhoeddus?

A yw'r Bwrdd yn rheoli ei gyllid a'i asedion yn effeithiol, a eir ar drywydd materion gwerth am arian, gan gynnwys gwerthuso polisi, gydag arddeliad?

A yw'r modd y mae'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn bodloni'r safonau a ddisgwylir gan gyrff cyhoeddus mewn perthynas ag arferion caffael, bod yn agored a delio â chwynion?

A yw costau rhedeg a lefelau staffio'r Bwrdd yn cael eu rheoli a'u harchwilio? A fyddai'n fuddiol eu cymharu â chostau gweithredol cyrff cyffelyb?

A oes gan y Bwrdd drefniadau da ar gyfer monitro ansawdd ac effeithlonrwydd y modd y mae'n cyflwyno ei wasanaethau?

A yw'r Bwrdd wedi profi ei fod yn gallu gwella ei effeithlonrwydd a bod ganddo gynlluniau pendant ar gyfer gwneud hynny?

